


PB
2298
M32
A17
1881

UC-NRLF



\$B 163 906

GIFT OF
Dr. Schafer Williams



EX LIBRIS

HARVARD COLLEGE LIBRARY
DUPLICATE
HARVARD DIVISION
APR 19 1931

Williams
gift

PB 2298
M32 a17
1881

AT Y DARLLENWYR.

ANWYL GYFELLION,

Oedwyd cyhoeddi y Gwaith hwn am ein bod yn disgwyl y gallasem eich arhegu & darlun o'r awdwr, ond methasom er pob ymdrech a chael darlun teilwng o hono. Cafwyd llawer o drafferth i gasglu y Farddoniaeth, a chwiliwyd yn ofalus holl ysgrifau y bardd ynghyd a'r cyfnodolion yr arferai anfon cyfansoddiadau iddynt. Am y casgliad, yr ydym yn ddyledus yn benaf i lafurus gariad ei frawd, Mr. RICHARD WILLIAMS, (*Beuno*); ac am eu detholiad yn gystal a'r Cofiant i Mr. T. JONES, (*Cynhaiarn*). Dymunem hefyd gydnabod yn ddiolchgar y beirdd galluog a ysgrifenasant y llythyrau dyddorol sydd yn dilyn y Bywgraffiad. Y mae yn llawen genym gael cyfiwyno i chwi Gyfrol o Farddoniaeth un o Awenyddion penaf Cymru, a chan hyderu y bydd ei darlenniad yn hyfrydwch a budd i chwi,

Gorphwysaf, eich ufudd wasanaethydd,

Y CYHOEDDWR.

PWLLHELI, *Mehesfn 20fed, 1881.*

M573164

CYNWYSIAD.

AWDLAU.	TUDAL.
Y Gwaredwr a'i deyrnasiad	1
Gallu a daioni Duw	17
Golygiad ar y Dydd mawr diweddaf	20
Yr Ystorm	24

CYWYDDAU.	
Diffyniad Gibraltar gan General Elliot	28
Coffadwriaeth am y Dr. Morgan	39
Coffadwriaeth am R. ap G. Ddu o Eifion	50
Cwyn yr Awdwr o herwydd cyfansoddi Cerdd wageddus	64
Anerchiad i Ab Ithel	67
Yr awen Gymreig a'r un Seisnig	69

MARWNADAU, PENILLION, &c.	
Mary Evans, Pentre'r felin	71
Ann Griffith, Porthmadog	74
Mab yr Awdwr	76
Fy Mab	77
John Robert Jones, Bronderw, Swydd Feirion	77
Myfyrdod ar Angeu	79
Lord a Lady Fielding	82
Penillion a gyfansoddwyd Nos Sabboth, Ebrill 17eg, 1853	82
Emyn	83
Fy Nymuniad	84

ENGLYNION, &c.	
Myfyrdod mewn afiechyd	85
Pan yn glaf	88
"Ofni Duw"	89
Cydwybod	89
Iaith y dyn gonest wrtho ei hun	90
Adfywiad yn Seion	90
Gweddi	91
Erfyniad mewn Addoliad	91
Cyfaill Crefyddol mewn iselder profiad	91
Galwad y Saint adref	91
Y Bibl	92
Caethwasiaeth	92

AMRYWIAETHOL.

Ar Esgyniad y Frenhines Victoria i orsedd Prydain Fawr	95
I Bont Aberglaslyn	96
I Bont y Gwr Drwg	97
Bedd Gelert	97
Syr W. W. Wynn Llywydd Eisteddfod y Bala 1836	98
Ymadawiad Syr W. W. Wynn o'r Eisteddfod	99
Llyn Tegid	99
Anerchiad i Miss Maddocks	100
Ar ddyfodiad T. E. M. Ll. Mostyn, Ysw., i'w oed	101
Cyflwynedig i Arglwyddes Hall	102
Anerchiad i D. Williams Ysw., A. S., Castell Deudraeth	104
I Master Hughes (<i>Blegwryd Ap Seisyllt</i>)	105
I Love Jones-Parry, Ysw., Madryn	106
Odyddion	106
Ar ol Etholiad 1874	107
Englynion mewn atebiad i Mr. J. Edwards (<i>Meiriadogyn</i>)	108
Englynion Cymhwys i'r sawl y perthynant iddo	110
Fy Ngwlad	111
I "Flodau Arfon"	112
"Geirionydd"	112
Wrth ddychwelyd "Coll Gwynfa" i Ellis Owen, Cefn y Meusydd	112
Talhaiarn	113
Eisteddfod Porthmadog 1851	116
Ar esgyniad Eben Fardd i Gadair Powys	117
Natur dda	117
Byrfyfyr (wrth wrando ar ddau yn taeru)	118
I'r Hen Lanc	118
Arall i'r Hen Lanc	119
Yr Amaethydd	119
Yr Wydd Dew	120
Y Llwynog	120
Ar Flwch Trewlwhc	120
Peroriaeth	121
Golygfa o ben Moel y Gest	121
Y Wenol	121
Y Llenleidr	121
Y Gwenieithiwr	122
Y Wawr	122
I'r Crydd	123
Y Ddafad	123
Y Cwmwl	123
Y Daran	123
I Dr. Roberts, Porthmadog	124
Y Parch. Thomas Aubrey	124
Y Parch. L. Probert, Porthmadog	124
I Mr. Edward Humphreys, Ynys Wen	124
I Miss Mary Davies (<i>Mair Eifion</i>), Porthmadog.	125
Arall	125
I Mr. W. Roberts, (<i>Gwilym Eryri</i>),	125

	TUDAL.
Galwad i'r Awen	126
Hirhoedledd awen	126
Y bardd Tudwal	126
I Mr. G. Griffiths, Llundain	127
I Dewi Rhagfyr, Towyn	127
I Mr. D. T. Lewis, Gof, Talsarnau	127
I Mr. Ellis Roberts, (Eos Meirion)	128
I Mr. John Lewis, Blockmaker, Porthmadog	128
Schooner "Lucy," Capt. E. Roberts Porthmadog... ..	129
Aperchiad i Mrs. Thomas, "Prince of Wales" Inn, Porthmadog	129
Ar briodas Capt. David Roberts, Porthmadog	129
Ar briodas Capt. D Evans, Porthmadog	130
Ar briodas Mr. O. Williams, Britannia Foundry, Porth- madog	130
Ar briodas y Parch. D. Griffith, ieu. Bethel	131
Y Redfa Gristionogol	131
I'w osod uwchben drws Addoldy	132
I ddwfr	133
Meddwdod	133
Englyn i'w gofio	134
Iaith yr Awdwr wrtho ei hun	134

BEDDERGRYFF, &c.

Dewi Wyn o Eifion	135
Gutun Peris	136
Ieuan Glan Geirionydd	138
Ellis O. Ellis, Bryncoch	138
Edward Jones, Maes y plwm	139
Sion Wyn o Eifion	140
Dafydd Ionawr	140
Ellis Owen, Cefn y meusydd	141
Hugh Medi, Llanbrynmair... ..	141
Wrth fyned at fedd Hugh Medi... ..	141
Mr. William Owen, Tremadog	142
Er cof am John Roberts, Bryntirion, Maentwrog	142
Cynddelw	143
John Roberts, Maentwrog	143
Y Parch. John Jones, Talysarn	144
Y Parch. Ll. Samuel, Bethesda	144
Jane, priod y Parch. John Jones, Tremadog	144
Y Parch John Jones, Tremadog	146
Mr. John Evans, Farrier, Pentrefelin	146
I'w briod Mrs. Catherine Evans... ..	146
I'w merch, Miss Mary Evans	147
George Casson, Ysw., Blaenyddol	147
Miss G. M. Philips, unig ferch Mr. J. Philips, (<i>Tegidon</i>) Porthmadog	148
Mr. Hugh Ellis, Lletty	148
Mrs. Evans, priod y Parch. E. Herber Evans, Caernarfon	149

Tri o blant Mr. Evan Jones, Contractor, Porthmadog ...	149
Jane Minnie, merch hynaf y Parch. T. Owen, Porthmadog ...	150
Elizabeth, merch Capt. W. Hughes, Porthmadog...	150
John Jones, Glangwynant ...	151
Cadben John Edwards, Porthmadog ...	151
Cadben E. Williams, ieu., Schooner, "Lord Palmerston"	151
Cadben Lewis Davies, Porthmadog ...	152
John Davies, Tregunter Arms, Porthmadog...	152
Y Tywysog Llywelyn ...	153
Cad. W. Jones, "Alice" Porthmadog ...	153
Mr. a Mrs. Owen, Tremadog ...	153
Mr. John Roberts, Berlin House, Porthmadog ...	154
Cad. W. Parry, Waen, Morfa Nevin ...	154
Fy Chwaer ...	155
Fy Mrawd ...	155
Dau blentyn Mr. W. Wms, Boston Lodge, Porthmadog	155
Catherine, priod Mr. Richard Williams, Porthmadog	156
Mr. Robert Humphreys ...	156
J. T. Jones, mab hynaf John a Catherine Jones, y llong "Samuel Holland" ...	156
Mr. Thomas Pritchard, Penrhynchendraeth ...	156
Fy Mab ...	157
Miss Margaret Griffith, King'shead Inn, Caernarfon ...	157
Mr. William Ffoulk, Tremadog ...	157
Mrs. Ann Jones, Bridge Street, Caernarfon...	158
Ellis Roberts, Porthmadog...	158
Mrs. Laura Lloyd, a'i mab, Porthmadog ...	158
John James, pilot, Borthygest ...	158
Laura, merch Mr. F. Lloyd, Porthmadog ...	159
Cad. E. Davies, Gwyndy, Talsarnau ...	159
I Richard Wilson, Ysw., R.A. ...	169
Mr. Griffith Jones, Tanybraich ...	160
Ar ol Gweinidog ...	160

COFIANT.

Yr oedd JOHN WILLIAMS—neu fel yr adwaenid ef oreu yn ystod y deugain mlynedd olaf o'i oes, Ioan Madog—yn un o naw o blant a anwyd i RICHARD ac ELINOR WILLIAMS, o Dremadog, yn Eifionydd. Mab ydoedd RICHARD WILLIAMS i WILLIAM THOMAS, amaethwr o'r Ysguborgoch, Penmorfa, a MARGARET ei wraig, yr hon oedd yn berthynas i amryw o lenyddion Eifionydd.*

Gôf ydoedd RICHARD WILLIAMS wrth ei alwedigaeth, ac yr oedd yn ngwasanaeth sylfaenydd Tre' a Phorthmadog yn adeg gwneuthuriad y morglawdd. Oddeutu y flwyddyn 1811 symudodd ef a'i deulu i'r Bontnewydd, Ruabon, ac yn yr ardal hono ar y 3ydd o Fai 1812 y ganwyd gwrthrych y Cofiant hwn. Yn mhen naw mlynedd ar ol hyny yr oedd y teulu wedi dychwelyd i'w hên dŷ, ar tad yn gweithio yn ei hên efail yn Nhremadog.

Yn y dyddiau hyny yr oedd Eifionydd yn nodedig, nid yn unig am ragoroldeb ei beirdd, ond o herwydd lluosogrwydd a dylanwad y Cymdeithasau Cymreigyddol—neu "Cymroaidd" fel y gelwid rhai o honynt—a sefydlwyd mewn gwahanol ranau o'r cwmwd. Prif amcan y cymdeithasau hyny, fel y dywedodd *Dewi Wyn* wrth anerch un o honynt oedd

"Cryfhau muriau 'r Omeriaith ;"

eu prif rinwedd oedd gwladgarwch ; ac yn eu cynulliadau profid hynafiaeth ac anfarwoldeb y Gymraeg, ynghyd a godidowgrwydd ei barddoniaeth. Cyrhaeddai eu dylanwad dros yr holl fro, fel nad oedd nemawr dyddyn, na masnachdy na gweithfa heb rywun llawn sêl dros lenyddiaeth y Cymry. Yr oedd tueddiad naturiol y genedl at farddoniaeth newydd gael symbyliad cryf yn nghyhoeddiad awdl "*Elusengarwch.*" Yr oedd y cam a gafodd y prif-fardd o'r Gaerwen, a'r ddadl gynhyrfus a herwydd hyny, yn cael sylw neillduol yn myst

*Gwel "Enwogion Eifionydd" yn y *Brython* ; Cyf. III. tudal 66.

ei gymydogion a'i edmygwyr yn Eifionydd. Cynyrchodd darllen barddoniaeth ysfa i rigymu, a'r beirdd a amlhasant yn ddirfawr. Yn eu mysg yr oedd y gôf o Dremadog. Yr oedd ef yn ŵr cryf o gorph a meddwl, yn llawn arbedd a bywiogrwydd, ac yn neillduol hoff o ddarllen barddoniaeth. Mynych gyrchai ei gyd-drefwyr atto i'w wrandaw yn adrodd gweithiau rhai o'r hên awduron, a phenill neu englyn digrifol o'i eiddo ei hun. Am dano ef y dywedodd ei fab Ioan—

“Heinyf dad o hen ôf du—yn brydydd
 Heb erioed ei ddyngu;
 Ei wên ddawn a wpa i ddennu
 I wneud cân o enaid cu.”

Nid rhyfedd i'r mab ddangos hoffder at barddoniaeth yn ieuanc. Byddai yn cael cyfarwyddyd a chefnogaeth ei dad, yr hwn a fawr lawenychai wrth weld ei gynnydd mewn awen a chorpholaeth. Os digiai y tad oherwydd i'r mab droseddu cyfraith y teulu, attelid ei law geryddol pan gofiai fod ei fachgen wedi ei eni yn brydydd. Yn mhên blynyddau ar ol hyny, pan oedd Ioan yn dychwelyd o'r ŵyl farddonol gyntaf y bu ynddi—Eisteddfod y Bala—wedi enill gwobr neu ddwy, pan glywodd ei dad ei fod bron cyrhaedd gartref, rhedodd i'w gyfarfod, a llongyfarchodd ef—“*Well done* machgen i; mi wyddwn i y gwnaet ti eu curo nhw.”

Cyn ei ddyfodiad i Dremadog nid oedd Ioan wedi cael unrhyw fanteision addysg ond a gawsai ar yr aelwyd, ac yn yr Ysgol Sul; yn wir, nid oedd y pryd hwnw ysgol ddyddiol o fewn milltiroedd i'w gartref. Yn Nhremadog bu am rai mis-oedd yn ysgol Mr. JOHN WYNNE, yr hon a gynhelid yn neu-add y dref; ac ar ol hyny bu am beth amser mewn ysgol a gynhelid yn yr un ystafell, o dan ofal Mr. D. WILLIAMS, gweinidog gyda'r Bedyddwyr. Bu raid iddo 'n fuan, modd bynag, ddewis galwedigaeth, ac er fod rhai a welent ynddo alluoedd llawer rhagorach na'r cyffredin yn ei anog i ddilyn swydd a'i dygasai i fwy o fri a chyhoeddusrwydd, penderfynodd fyned i wasanaeth ei dad fel gôf. Bu edifar ganddo ar ol hyny os oes coel i'r llinell,

“Gof aethum, gwae fi wythwaith!”

yr hon a adroddai yn fynych ar ol cyrhaedd oedran gŵr.

Yr oedd wedi enill sylw ei gymydogion fel bachgen o duedd fyfyrgar, doeth a chynil ei ymadrodd, a gweddaidd ei ym-

ddygiad. O ran ymddangosiad yr oedd yn deneuach ac ychydig dalach na'r cyffredin, yn llwyd ei wynebpryd, a threiddgar ei olygon. Yr oedd ei enw yn dechreu dyfod yn adnabyddus fel cynghaneddwr. Yr oedd er yn fachgen wedi dysgu rheolau "cerdd dafod," a gwyddai pa fodd i osgoi ei "beiau gwaharddedig." Hoffai ei gyfeillion fyned i'r efail i'w glywed ef a'i dad yn barddoni bob yn ail llinell; ac er mor ieuanc ydoedd, cyfansoddai ambell englyn a thoddai yn y rhai y byddai yn fynych linellau teilwng o'r anrhydedd oedd yn ei aros. Er mai gweithiau y prif-feirdd, yn benaf Goronwy a Dewi Wyn, oeddynt ei hyfrydwch, darllenai bob llyfr o fewn ei gyrhaedd, ac yr oedd ei awydd am wybodaeth yn angerddol. Pan yn ddeunaw oed dychwelodd i Sir Ddinbych, mewn rhan i ddysgu ei gelfyddyd ond yn benaf er mwyn enill ychydig arian i'w alluogi i gael ychwaneg o addysg. Y flwyddyn ganlynol yr oedd yn Nghaernarfon yn ysgol ei hen athraw J. WYNNE, ond wedi arhosiad byr yno dychwelodd i Dremadog i ail-ymaffyd yn ei oruchwyhaeth.

Glynnodd wrth ddarllen a phrydyddu, ac aeth ei enw yn hysbys drwy yr ardaloedd. Cyfansoddai englyn neu gerdd ar bob dygwyddiad o ddyddordeb yn y gymydogeaeth. Daeth i gydnabyddiaeth a rhai o'r prif-feirdd, a ffurfiodd gyfeillgarwch agos a pharhaol gydag amryw o honynt. Ymwelid ag ef yn ei weithdy gan lenorion galluog, i'r rhai y byddai rhwyddineb a phertrwydd ei awen yn wledd ddymunol. Er nad oedd ei gyfansoddiadau ond byrion, yr oedd arnynt eneiniaid yr "awen wir," ac edrychid arno gyda hoffder ac edmygedd fel un o feirdd ieuanc mwyaf addawol Cymru. Aeth i Eisteddfod y Bala yn y flwyddyn 1836, ac yno yn ol "braint a defawd" yr urddwyd ef yn fardd. Mewn llythyr a ysgrifenwyd atto fwy na chwarter canrif ar ol hyny, gofynai ei gyfaill Talhaiarn—"Wyt ti yn cofio Eisteddfod y Bala yn yr hên, hên amser gynt, pan y cawsom ein hurddo gyda'n gilydd ar fin Llyn Tegid? Llon'd berfa olwyn o bobol, a llon'd gwagen o feirdd!" Onid yw yr un cyfartaledd o "feirdd" a "phobol" yn parhau mewn ambell ardal yn Nghymru hyd y dydd hwn?

Y cyfansoddiad cyntaf o eiddo Ioan Madog a ellir restru yn mysg ei orchestweithiau yw "Awdl yr Ystorm." Cyhoeddwyd yr awdl hono ynghyd a lluwys o englynion a thodd-eidiau o waith y bardd, yn y *Gwladyswr*. Byddai yn fynych yn cydnabod y gefnogaeth garedig a gafodd gan olygydd

athrylithgar a chyhoeddwr gwladgarol y cylchgrawn hwnw ; ac yn mysg y llythyrâu a gadwyd yn ofalus ganddo, yr oedd un oddiwrth y cyhoeddwr yn cyfiwyno ei “ddiolchgarwch gwresocaf am yr arhegion barddonol campus a chywrain ” a dderbyniasai oddiwrtho.

Yn mis Ebrill, 1838, priododd gydag ANN, merch HUMPHREY EVANS, amaethwr, Llanfair, ger Harlech. Bu iddynt naw o blant, o ba rai mae pump yn fyw. Yr oedd er's rhai blynyddau cyn hyn wedi symud i Borthmadog, lle y bu yn dilyn ei alwedigaeth fel meistr gôf hyd ei farwolaeth. Ni chafodd “gofalon y byd hwn ” ei attal rhag dilyn ei hyfrydwaith o farddoni ; ar y llaw arall, ac yn wahanol i rai o'r frawdoliaeth, ni chafodd ei hoffder o'r awen ymyryd yn ormodol a'i ddyledswyddau fel penteulu. Dywedai ef—

“Ni bu erioed Gymreig brydydd—yn byw
Ar bwys ei awenydd,
Er ei gwên a'i mawr gynydd
Lle sal ar ei llaw hi sydd.

Rhaid i mi rhag culni caeth
Ofalu am fywoliaeth.”

Yr oedd ei glod fel awenydd o'r radd flaenaf yn parhaus gynyddu. Pan gynygid gwobr am farddoniaeth byddai ef yn fwy mynych na'r un awdwr arall yn fuddugwr. Ni chyhuddid ef o lenladrad, na'r beirniad o anghyfiawnder pan roddid gwobr iddo. Mewn cystadleuaeth nid oedd un ymgeisydd mwy peryglus, ac enillodd rai gweithiau (megys am Fedd-argraff Dewi Wyn) pryd yr oedd yn gydymgeiswyr ag ef rai o feirdd mwyaf adnabyddus a galluog y genedl.

Yn y blynyddoedd hyn byddai Ioan Madog yn mwynhau llawer o gyfeillach ELLIS OWEN, o Gefnmeusydd, yr hwn a fu am lawn haner canrif yn gyfaill a noddydd pob bardd ieuane gobeithiol yn Eifionydd. Byddai Ioan hefyd yn fynych yn nghwmni Emrys, ac ar ol gwrandaw y bardd-bregethwr enwog hwnw byddai yn ymddifyru drwy gynghaneddu rhai o'i syniadau tlyision. Yr oedd Emrys yn fardd cyn ei ymsefydiad yn Mhorthmadog yn y flwyddyn 1837, ond y mae yn amheus a fuasai yn cyrhaedd safle mor uchel yn mysg ein cadeirfeirdd pe na chawsai ei symbylu gan awen lai diwylliedig Ioan Madog ; ac y mae yn sicr fod Ioan yn ddyledus i raddau helaeth i hyfforddiant ei gyfaill am y coethder a'r tlyсни a nodweddant ei brif gyfansoddiadau.

Yr oedd Cymru wedi bod am amryw flynyddoedd heb ei gwyl genedlaethol pan gynhaliwyd Eisteddfod Freiniol Aberffraw yn 1849. Anfonodd Ioan Madog i'r gystadleuaeth hono ei Gywydd "Diffyniad Gibraltar gan Elliott," ac iddo ef y dyfarnwyd y wobwr. Yn y flwyddyn ganlynol, yn Eisteddfod Rhuddlan, gwobrwywyd ef am y Cywydd goreu ar "Coffadwriaeth y Dr. Morgan." Yn Eisteddfod Madog, yn 1851, ei Gywydd ef er "Coffadwriaeth am R. Ab G.Ddu," oedd y buddugol Y mae y Cywyddau hyn yn mysg cynyrchion goreu ei awen, a rhoddid canmoliaeth uchel iddynt o herwydd rhwyddineb a newydd-deb y gynghanedd, yngystal a choethder urddasol y syniadau. Yr oedd ei lwyddiant fel cystadleuydd yn mwyhau ei hoffder naturiol o'r Eisteddfodau a dysgwyliai yn bryderus am danynt fel adeg o seibiant difyrus oddiwrth ei lafur beunyddiol. Y mae lluaws yn cofio y bardd gwylaidd a diymhongar o Borthmadog yn uchel-wyliau y genedl, fel y swynid ei gyfeillion gan barodrwydd a chwareugarwch ei awen, yr hon oedd fel ffrwd loew, lfeiriol, ddihsydd. Felly y cyffelybai Elis Wyn o Wyrfaei "Awen Ioan Madog" yn 1851—

" Mae hon fel ffrwd y mynydd—dry ei phen
 Draw o ffynon lonydd;
 Neidia, rhêd, â dwnad rhydd
 I dawelwch y dolydd."

Yr oedd ei "haul" erbyn hyn yn "awr anterth." A ydyw y syniad a gyfleir yn y gymhariaeth gyffredin o "rosyn yn mysg y drain" yn rhan dyn ar y ddaear? Wedi i'n bardd enill cydnabyddiaeth gyffredinol o'i athrylith, a chynyrchu y gobeithion uchaf am ei ddyfodol, cyfarfyddodd â phrofedigaethau a barasant iddo flinder lawer, ac a attaliasant i raddau ei gyfathrach a'r awen am y gweddill o'i oes. Gall llaweroedd heb unrhyw gyffro ddiodef trallodau a ddygant chwerwder enaid i'r tyner a'r uchelgeisiol; ac os llethwyd ef gan ei deimladau, pwy o'i gydnabod a goled dai tuag atto syniad amgen na chydymdeimlad tosturiol, a chyfeillgarwch didôr?

Drwy drafferth y llwyddwyd i'w gael i Eisteddfod Llan-gollen yn 1858, ond pan aeth yno profodd nad oedd ei awenydd wedi colli ei rhwyddineb na'i nerth. Yn yr Eisteddfod hono ar achlysur cadeiriad Eben Fardd y cyfansoddodd yr Englynion campus sydd yn tudalen 117. Dengys y llythyr can-

lynol a dderhyniodd oddiwrth y cadeirfardd pa beth a dybiai y wlad am dano y pryd hwnaw:—

“CLYNNOG FAWR, *Hydref 6ed, 1858*
 “FY AWENYDDOL GYFAILL,

Nis gallaf dawelu fy nghydwibod heb gydnabod fel hyn yn barchus a diolchgar y rhwymedigaeth sydd arnaf i chwi am eich Englynion digymmar i'm cyfarch ar achlysur *Cadair Powys*. Nid wyf yn meddwl ddarfod i un Bardd Cymreig erioed lunio Englynion mor nodedig o berffaith, rhwydd, tarawiadol a thlysiôn. I'm bryd i nid oes dim yng Ngoronwy na R. Ap G. Ddu yn dyfod i fyny a hwynt mewn llyfnder esmwyth, fraethineb gloyw, a pherffeithrwydd englynol. Nid wyf fi yn deilwng o honynt, mae yn wir, ond er hyny yr wyf mor falch o honynt ag o'r *Thus Arian*, a theimlaf ryw anfarwoldeb mewn bod a fy enw yn y fath Englynion o rywogaeth a bery byth.

Ioan Madog !—ni ymedy—dy glod
 O glyw yr Hên Gymry ;
 Ah ! dy bur wawd a bery
 Tra hylif rêd, tra haul fry.

Derbyniwch fy niolchgarwch diffuant, a'm cofion mwyaf anrhydeddus.
 Yr eiddoch yn annheilwng,
 E. FARDD.”

Tua'r un adeg derbyniodd lythyr yn cyfeirio at yr un Englynion oddiwrth I. Glan Aled yr hwn a ddywedai yn ei ddull nodweddiadol ei hun—“Yr wyf yn eu hystyried fel cynifer o *Diamonds* o'r dwfr puraf wedi eu gosod gan gerub mewn seren aur. Peth fel hyn sydd yn gwneyd i Bryddestwr wylo uwch bedd y cynghaneddion.”

Ar ol hyn cafodd Ioan ei gymhell yn fynych i feirniadu y Farddoniaeth yn y prif Eisteddfodau, ond bob amser gwrthodai gydsynio. Yn wir, nid oedd wedi ei alw i fod yn feirniad ; yr oedd y caredigrwydd a'i tueddai i organmol y cyfansoddiadau a ddarllenai yn ei anghymwyso i'r swydd, a byddai ysgrifenu rhyddiaith yn drafferth iddo. Yr oedd i raddau wedi colli ei flas ar y pethau oeddynt cyn hyny wedi bod yn hyfrydwch iddo ; os elai i Eisteddfod blinai yno, ac ymddangosai fel pe byddai y bardd swynol i ymgolli yn y celfyddydwr cywrain.

Ac yr oedd Ioan yn rhagori fel celfyddydwr yn gystal ag fel bardd. Yr oedd ôl gofal a medrusrwydd ar ei holl waith, a phe cawsai ragorach manteision yn ei ieuencid, buasai yn sicr o enill enwogrwydd fel peirianydd. Ar y pen hwn nis

gallwn wneyd yn well narhoddi y sylwadau canlynol a ysgrifenydd gan ei nai talentog Mr. W. Williams, (Gwilym Meirion)

“Yr oedd Ioan Madog nid yn unig yn gelfydd fel bardd o'r radd flaenaf, ond yr oedd hefyd yn allofydd cywrain a medrus, yr hyn a brofir gan amryw beirianau gwerthfawr o'i wneuthuriad.

Yn y flwyddyn 1849 dyfeisiodd Sidlath droellawg (*Revolving Windlass*) i laesu a chodi angorau, yr hwn sydd erbyn hyn mewn llongau, ac ar yr hwn y gallasai gael breinteb (*patent*) pe y buasai wedi-gallu cytuno am dano a'r breinteb-roddwyr.

Dyfeisiodd hefyd beiriant defnyddiol iawn fel *Chain-stopper* i angorau, ær ei fod yn offeryn effeithiol, etto o herwydd rhywbeth nad ydym yn gwybod am dano ni chariwyd ef allan i gyflawn berffeithrwydd.

Yn y flwyddyn 1870 cynlluniodd yr hyn a alwai *Expanding Jumper*,—offeryn defnyddiol iawn mewn chwarel tuag at dyllu twll eangach yn y gwaelod nag ar y wyneb, yr hyn sydd fanteisiol iawn i'r pylor i weithredu yn well.

Llwyddodd mor foreu a'r flwyddyn 1856 i wneuthur Pedfuanydd (*Velocipede*) rhagorol, yr hwn sydd etto i'w weled yn ei hên gartref. Yn y flwyddyn 1873 cynygiodd gyda chryn lawer o lwyddiant i wneyd Tywod-fwch hunan-weithredol (*Self-acting Sand box*) ar beirianau Reilffordd Ffestiniog tuag at wneyd i'r tywod ddisgyn o hono ei hun ar y reiliau er cadw y *train* rhag llithro. Ac nid yw y rhai hyn ond ychydig o lawer o enghreifftiau a allesid eu nodi o gywreingarwch celfyddol ei feddwl. Yr oedd dyfeisio a threfnu yn un o deithi naturiol a gwreiddiol ei enaid. Yr oedd yn hynod o ofalus a glân gyda ei arfau gweithio, a pha beth bynag a wnelai yr oedd bob amser yn lân a gonest.”

Y mae y Drefn fawr ag sydd wedi “gosod y naill ar gyfer y llall” wedi gofalu yn mhob ardal am rai dynion blaenllaw a bywiog, i chwenych pob swydd, ac i ymyryd yn mhob achos, ac—mor bell ag y mae a wnelont hwy ag ef—i fyn'd a'r byd ymlaen. Gofala hefyd am roddi yn gymydogion iddynt, ddynion tawel, esmwyth, yn ymgilio o'r golwg pan fyddo y dref neu y plwyf mewn cyffro. Un o'r dosbarth olaf oedd Ioan Madog, ac yr oedd gochelgarwch a gwylder yn mysg ei nodweddion amlycaf. Yr oedd yn gymydog caredig a diabsen, ac y mae y rhai a'i hadwaenent oreu yn dystion o hynawsedd ei galon, a phurdeb ei gyfeillgarwch.

Er na byddai mwyach, megis cynt, yn ymgystadlu am brif wobrwyr yr Eisteddfodau, ni ddarfu iddo dori pob cysylltiad a barddoniaeth, ac nis gallasai chwaith. A oedd yr awen a fu yn gydymaith a dyddanwch iddo o'i febyd i'w adael yn ei brofedigaeth? Yn hytrach hi a'i carodd yn fwy, ac nid ymadawai ag ef. Nis galleid aros ond ychydig yn ei gwmmi

heb gael cyffeusdra i ryfeddu ac edmygu ei "awen barod" fel ei gelwid; yr hyn ynddo ef oedd y gallu a feddai tuhwnt i bawb o'i gydoeswyr i roddi unrhyw syniad a fynai yn ngwisgoedd mwyaf dillyn y gynghanedd heb oediad na rhagfyfyrdod. Condemniwyd y gynghanedd o dro i dro gan rai o brif feirniaid ein gwlad, a dywedwyd pob drygair am dani; y mae cenedlaethau o feirdd wedi bod yn "ocheneidio, yn llwythog" o herwydd y baich a roddai arnynt; ond pe buasai pob bardd fel Ioan Madog, nis gallasai un beirniad amheu rhagoriaeth y gynghanedd fel addurn yr awen Gymreig. Yr hyn a fuasai i luaws o feirdd galluog yn anhawsder dirfawr, ydoedd iddo ef megys anadl ei enau.

Yn mysg ei englynion "byrfyfyfyr" y mae y rhai a ganlyn: I'r Daran—

"Enyniad fry yn anian—o orlawn
Awyrlif a gwefrdan:
A thrwst rhuthriad tyniad tân
Drwy y dwr ydyw'r daran."

Wrth wrandaw ei gyfaill J. LEWIS, *Blockmaker*, yr hwn oedd newydd golli ei wraig, yn datgan ei dristwch a'i hiraeth, dywedai y bardd

"Yn nhrwst tonau trist anian—ei gwr hoff
Geir o hyd yn cwynfan;
Gofid a cholled gyfan
Ydyw byw a bod heb ANN."

Un diwrnod pan yn glaf ymwelodd a'i ddysgybl awenyddol Mair Eifion, yr hon a gymhellai ychydig win iddo. Yn y fan anerchodd hi—

"Mair anwyl, yn nhymor enaid—dylem
Dalu parch bendigaidd
I Dduw byw, 'r Hwn yn ddibaid
Rydd win i fyrrdd o weiniaid."

Rhoddir yr engreiffitiau hyn am mai hwy yw y rhai cyntaf i ddyfod i'n meddwl; galleid llenwi tudalennau lawer a'u cyffelyb.

Yn y flwyddyn 1871, cyhoeddwyd testynau Eisteddfod y Gordogion. Y prif destyn oedd, "Y darn goreu o Farddoniaeth Gymreig heb fod uwchlaw 500 llinell;" a phenderfynodd yntau ymgeisio arno. Cyfansoddasai flnyddau cyn hyny amryw ddarnau campus ar destynau yn dwyn perthynas a bywyd y Gwardedwr. Casglodd hwy ynghyd, gwnaeth rai

linellau i'w cysylltu yn gyfanwaith, ac anfonodd i'r gystad-leuaeth yr awdl benigamp sydd yn nechreu y gyfrol hon. Ni wobrwyrwyd ef, ond allan o ddeg ar hugain o ymgeiswyr rhestrwyd ef yn uchel yn y dosbarth blaenaf. Dywedai y beirniad (Nicander) am y cyfansoddiad :—

“Awdl ardderchog, ddyddorol odiaeth, ar gynllun rhagorol; rhoddi'n gyntaf fyr-hanes ain waith a dioddefaint y Gwardwr yn nyddiau ei gnawd, ac yna'r effaith o hyny ar gredinwyr ac ar yr Eglwys. Mae'r dullwedd a'r ymadroddion yn gaboledig i'r eithaf, a'r gynghanedd yn gywraïn a swynol; ymddengys fod cynghaneddu mor naturiol i'r awdwr ag anadlu. Mae'r gynghanedd bron yn rhy hawdd iddo, fel yr oedd hi i Pedr Fardd. Od oes dim diffyg yn yr Awdl hon, diffyg cryfder ydyw. Ond nid oes fodd fod Awdl felusach na mwy dilyn. Un o'r cyfansoddiadau goreu yn yr iaith. Mae hi braidd yn rhy amleiriog yn y toddeidiau.”

Nid ydym yn dweyd fod yr awdwr wedi cael cam, ond pa sawl awdl a fu yn aflwyddianus mewn cystadleuaeth Eisteddfodol a ystyrir erbyn hyn yn mysg trysorau gwerthfawrocaf yr iaith, tra y mae yr awdlau gwobrwyrwedig er's blynyddau yn nhir anghof?

Anfonodd Ioan yr Awdl i feirniad y meddai bob hyder ynddo—un ystyria y beirdd ei ddyfarniad yn derfyn iddynt ar bob ymryson—a dywedai ef

“Yn wir awdl odidog iawn ydyw, gogystal yn ddiau a'r odidocaf a feddwn, ac ar y testyn godidocaf y canodd dyn nac angel arno erioed. Teimlwn iasau yn fy ngherdded wrth ei darllen.”

Nid oes amddifadrwydd o “gryfder” mewn Awdl sydd yn cynnwys amryw ddarnau tebyg i'r llinellau canlynol:—

“Deuai'r mawr wyntoedd, draw y môr yntau
Ergydiai i anwar gynddeiriog donau;
Gorlifai anian—rhwygai'r elfenau,
A dig arwyddion yn gordoi 'u gruddiau,
Mellt cochion gwylltion yn gwan—'n frawychus
A sw'n truenus yn y taranau.”

Mor ragorol yw yr Englynion a ganlyn—

Crist ger bron Pilat—

“Y Duw dirfawr, diderfyn—bu ryfedd
Ei brofi gan adyn;
Un fu 'n llunio tafod dyn
Yn fud o flaen prydyn!”

Crist fel Meddyg—

“Pob cur a dolur drwy'r daith—a wellheir
Yn llaw'r Meddyg perffaith;
Gwaed y Groes a gwyd y graith
Na welir mo'mi eilwaith.”

Caledwch y Galon—

“Er y llefain a'r llafur—a'r ysgwyd
Fu ar esgyrn natur,
Iach ydoedd y pechadur
A'i deimlad e' mal y dur.”

Y Saint Gwaredol—

“E ga'r didwyll gredadyn—gydchwareu
Gyda cherub clærwyn,
A rhodio'n ddifyr wedy'n
Efo'r Brawd fu ar y bryn.

Ond ni amlheir enghreifftiau. Os dywedir fod ôl brys ar amryw o'r llinellau, ac nad yw yr awdl fel cyfanwaith mor berffaith a rhai o gywyddau yr awdwr, cydnabyddir fod ynddi rai darnau melus odiaeth, y rhai a fyddant yn nghôf ac ar leferydd llawer Cymro tra fyddo ei iaith yn fyw.

Nid ymddengys fod aflwyddiant ei awdl wedi peri llawer o ofid i'r bardd. Os gwnaed cam, gwyddai ei fod mewn cwmni anrhydeddus; os oedd yn y gystadleuaeth awdl ragorach na'r eiddo ef, yr oedd ganddo ormod o barch i gyfiawnder i rwgnach o herwydd ei dedfryd. Ond nid ymgeisiodd ar ol hyn am anrhydedd Eisteddfodol.

Nid Nicander oedd yr unig feirniad a gymharodd Ioan Madog i Pedr Fardd. Ac yr oedd llawer o debygrwydd rhyngddynt Yr oedd y ddau yn Eifionwyr; os oedd tad y naill yn llenor a phrydydd cymeradwy, felly hefyd yr oedd tad y llall; yn enillodd y ddau fachgen yn ieuanc feistrolaeth lwyr ar y gynghanedd; gallasai y ddau ddyweyd fel y dywedodd un o honynt—

“Nid oes faws na dwys fesur
O un baich i awen bur.”

Yr oeddynt yn gyffelyb yn symledd ac eglurder eu llinellau, ond mewn nerth a newydd-deb, ac yn wir yn “nhri anheggor awen,” fel y gwelir yn hawdd wrth ddarllen eu prif

gyfansoddiadan, rhagorai Ioan Madog. Ond ni ddeil penillion yr olaf i'w cymharu âg emynau swynol a phoblogaidd Pedr Fardd. Cyfansoddodd Ioan Madog o dro i dro lawer o benillion, ond ni lwyddodd erioed i ragori yn y Rhydd-fesurau. Rhodiai ef yn fwy heinyf ac anadlai yn fwy rhydd yn ngwisg swyddogol y gynghanedd Gymreig.

Er mor hoff ydoedd o'r gynghanedd nid ymddengys fod ganddo serch gormodol at y "Pedwar mesur a'r hugain." Nid oes yn yr oll o'i waith dros bedwar neu bump o'r mesurau gwarantedig. Nfdd yw yn debyg iddo erioed gyfansoddi "Clogyrnach" na "Gorchest y Beirdd." a'u cyffelyb; nid am na allasai, ond amcanai ef yn benaf at naturioldeb ac eglurder, a gwyddai nas gellir

"Cloi synwyr mewn clysiheb"

yn rheolau caethiwus y mesurau hyny. Yn ol ei farn ef dylid diddymu rhai o'r mesurau o herwydd eu gwrthuni.

Yn ei awydd i fod yn syml a naturiol byddai weithiau yn gollwng o'i ddwyllaw linellau gweiniaid a diafael, ac nid yw ei brif gynyrchion yn lân oddiwrthynt. Mewn rhai darnau teimlir fod undonedd poenus. Ond pan oedd yn nghanol ei ddyddiau ystyridd ef yn mysg beirdd enwocaf y genedl. Pa beth fydd barn arosol darllenydd ei gyfansoddiadau am dano, amser yr hwn "a brawf waith pawb" a ddatguddia. Magodd a meithrinodd Eifionydd awenyddion eangach eu gwybodaeth, mwy bywiog eu dychymyg, a chryfach eu hathrylith nag ef. Nis gallasai gyrhaedd arucheidd na nerth anwrthwynebol rhanau o awdlau "Elusengarwch 'a" "Dinyst Jerusalem." Ond mewn tynerwch a thlysi a naturioldeb—am linellau pert prydfarth yn argraffu eu hunain yn annileadwyary côf—efallai na chydnabyddir yn holl hanes llenyddiaeth y Cymry nemawr un rhagorach na Ioan Madog.

Yr ydym wedi ymdrin ag ef yn hyn o Gofiant yn benaf fel bardd, am mai yn y cymeriad hwnw yr adwaenid ef gan y wlad, ac y cludir ei enw i'r cenhedlaethau a ddeuant. Gallem ddwyn tystiolaeth i'w garedigrwydd i'r ieuanc, i dynerwch ei galon, a'i gywirdeb fel cyfaill; ond nid oedd yn ei hanes ddim o ddyddordeb cyhoeddus yn annibynol ar ei gysylltiad â barddoniaeth Gymreig.

Bu farw o'r *Bronchitis* ar y 5ed o Fai, 1878, yn 66 mlwydd oed. Dilynodd tyrfa luosog a galarus ei weddillion i fynwent Ynyscynhaiarn lle y claddwyd ef yn

agos i borth yr Eglwys wrth fedd ei gyn-athraw a'i gyfaiH
ELLIS OWEN.

Cynygiwyd gwobr o £2 am Feddargraff i Ioan Madog, a
barnodd Clwydfardd a Beuno (brawd Ioan Madog) y Toddaid
canlynol o waith MR. JOHN THOMAS (Eifionydd), Caernarfon,
yn oreu o 36 o gyfansoddiadau :—

“ Deigron gofidiau geir yn gafodydd
Am farw ein IOAN ! Mor drwm fu'r newydd !
Un brofa'i hunan yn brif awenydd,
Nes cerfio'i enw'n mysg cewri Eifionydd :
Celfyddwr cyflawn, o ddawn gwyddonydd,—
I wir ogoniant Dyfais ro'i gynydd :
Tra urddas ar Farddas fydd—yn ein tir,
Ein gwlad a frithir a'i glodfawr weithydd.”

ADGOFION AM IOAN MADOG.

At Gyhoeddwy'r Gweithiau Barddonol y diwedd ar Ioan Madog.

FONEDDIGION,

Da iawn genyf fi, (a chan laweroedd fel finau), oedd cael ar ddeall eich bod yn ymgymeryd a'r gorchwyl o ddodi ar "gof a chadw" weithiau y diwedd ar fardd rhagorwyoh Ioan Madog : y rhai a fyddant yn foglynuau gemog ar fynwes llenyddiaeth Cymru, i'w chyfoethogi a'i phrydferthu o hyn allan.

Gwnaeth Eifionydd er dechreu y Ganrif hon fwy, a mwy o lawer hefyd nac a wnaeth un parthfan arall o'r Dywysogaeth, er dyrchafu a chyfoethogi llenyddiaeth Farddonol ein gwlad. Dyna Dewi Wyn o Eifion, R. Ab Gwilym Ddu ; Pedr Fardd, yr hwn yntau oedd Eifionwr ; Sion Wyn o Eifion ; Ellis Owen, o Eifion ; Eben Fardd, etto ; Emrys etto,—ac yn ddiweddar, Ioan Madog, oll yn feirdd —

"O'r un waed a'r awen wir"

a'r nifer fwyaf o honynt yn gyfryw na welodd Cymru hyd yma eu rhagorach, ac ni byddai iddi achos i gwyno pe na welai eu rhagorach mwy, os caiff rai hafal iddynt. Byddai "Beirdd Eifion yn y bedwar-edd Ganrif ar bymtheg" yn destyn rhagorol i'n llenorion i ysgrifenu traethawd arno mewn cystadleuaeth pe gwelai pwyllgor un o'n Heisteddfodau yn dda gynyg gwobr deilwng i'r un a fernid yn ofraf.

Ni raid i gynhyrchion awenyddol Ioan Madog wrth lythyrâu canmoliaeth oddiwrth na bardd na llenor. Y mae pawb sydd yn gwybod dim am ansawdd a hanes barddoniaeth yn Nghymru yn adnabyddus o honynt eisoes i raddau, ac yn eu maswrhau. Cânt bellach, wedi y delont allan o'r wasg, fantais i wybod mwy a pho fwyaf a wybyddir am danynt mwyaf oll yr edmygir ac y gwerthfawrogr hwynt.

Llwydd i'ch anturiaeth.

Ydwyf, foneddigion, eich ufudd wasanaethydd,
Caerleon, Gorph. 29, 1880.

G. HIRAEHTHOG.

PERSONDY, LLANGWM, CORWEN, *Gorph. 27ain, 1880.*

GAREDIG SYR,

Y mae fy adgofion am Ioan Madog yn ychydig, a'u dyddiad yn mhell yn ol. Un o'r beirdd hoff a adwaenwn yn fy ieuengtid oedd, ond collais ei gymdeithas bersonol yn llwyr fwy nac ugain mlynedd yn ol. Erys ef yn fy nghôf fel un o'r trioedd a haner addolwn yn fy machgendod. Y ddau arall oedd yr anfarwol a nef-enein-

iedig awenyddion Emrys ac Eben Fardd. Lle y cyfarfyddai y tri hyn mewn cyfeillach farddonol rhwng 1849 ac 1854, dilynwn innau et camrau fel edmygydd. Diau mai y mwyaf diddan, syml, ac agosaf at yr ieuange o'r tri, oedd Ioan Madog. Yr oedd tawedigrwydd, a thuedd encilledig Eben Fardd, ac fe allai grym arfer ei swydd, yn cadw pellder athraw a disgybl rhyngddo a'r ieuange, fel rheol; yr oedd urddas personol, a moesgarwch boneddigaidd Emrys, drachefn, yn gosod gradd o bellder urddas rhyngddo yntau a'r ieuange; ond yr oedd symledd gwledig, ac ireidd-dra chwareugar meddwl, Ioan Madog, yn dileu pob pellder rhyngddo ef a phawb. Ymdoddai i'r gymdeithas ddiddan a phur pa le bynag yr elai. Er y byddai yn fynych yn enaid yr ymddiddan, a ffynhonell y mwynhad, ymgollai pob peth personol ynddo, fel nad wyf yn cofio iddo fod yn saeth-nod cenfgen. Symledd a diymhongarwch oedd ei addurniadau uwchaf. Yr oedd yn foneddigaidd, yn llednais, yn goeth ei ymadrodd, ac yn gwreichioni o'r dalent farddonol, ac yn gyflawn feistr ar fydryddiaeth Gymraeg, ond ymddangosai yr oll fel doniau naturiol iddo, ac nid cynnyrch efrydiaeth, dysg, a diwylliaeth. Y tro cyntaf i mi ei gyfarfod ef oedd ar y ffordd i Eisteddfod Aberffraw yn 1849. Cefais yr hyfrydwch o deithio yn ei gwmi ef a'i frawd Beuno o Benygroes, Llanllyfni, i'r Aberffraw. Siaradai mewn cynghaneddion ar hyd y ffordd. Pan yn nesu at Aberffraw, ac oll yn flinedig, safodd i ofyn i amaethwr pa faint o ffordd oedd i Aberffraw. Gwedi derbyn yr ateb troes attom ninnau gan ddywedyd,

"Mae etto hir filldir faith
I'n i droedio o'n drudwaith."

Yn Aberffraw ennillodd ar gywydd "Amddiffyniad Gibraltar gan General ELIOT."

Cefais lawer o'i gymdeithas ar ol hyny ar y ffordd yn ol a blaen i Ruddlan, yn 1850, lle yr ennillodd ar "Gywydd Coffadwriaeth y DR. MORGAN." Gwelais lawer o hono drachefn wrth gyhoeddi Eisteddfod Porthmadog, ac yn yr Eisteddfod hono yn 1851, lle yr ennillodd ar "Gywydd Coffadwriaeth ROBERT AP GWILYM DDU." Gallwn dybio fod y Bardd Awengar ar y pryd yn ei lawn nerth a hoenusrwydd, a gallai fy mod innau yn yr adeg hono ar fywyd pan y derbynir argraphiadau yn rhwydd, ond pa beth bynag am hyny, bu i'r gymdeithas foreu hon ei anwyleiddio i'm holl serchiadau, ac ystyriaf ef yn un o'r dynion *puraf*, a *mwyaf caredig* a anadlodd erioed. Nid rhaid i'w farddoniaeth wrth ganmoliaeth. Y'mae yn syml, yn goeth, yn dryloew, difyrus, chwareugar, a llon, fel ffrwd y mynydd dan heulwen haf.

Yr eiddoch yn gywir,

ELIS WYN O WYRFAL.

Cefais y fraind a'r hyfrydwch o ddyfod i gyfeillach ac adnabyddiaeth gyda Ioan Madog, er's yn agos i haner can mlynedd, wef yn y flwyddyn 1832. Cefais y cyfleusdra hwn pan yr oeddwn yn rhablas dedwydd, y diweddar JOHN WILLIAMS, Ysw., o'r T'wnt i'r bwlch, yn aros am ysbaid tair wythnos, o flurfio cymdeithas gyda ei Ddod ac yntau a'r teulu; yn gymaint a'u bod yn deulu awengar a galluofyddol. Yr oedd

y ddwy elfen yna yn hanfodol yn y tad, a'r meibion, a chan fy mod inau i ryw fesur, o dan ddylanwad yr un elfenau, hawdd iawn ydoedd ini lithro yn naturiol i gyfeillach a'n gilydd.

Parhaodd fy ymweliadau mynych a Phorthmadog yn nglyn a'm galwedigaeth am amryw flynyddoedd, a thrwy hyny cawsom gryn lawer o fanteision o sylweddoli yr hen wireb hono o eiddo Selyf "mai fel yr hoga haiarn haiarn, felly gwr wyneb ei gyfaill."

Yn y flwyddyn 1836 derbyniwyd Ioan Madog i gyfrinach Gorsedd Beirdd Ynys Brydain, mewn Gorsedd a gynhaliwyd ar fin Llyn Tegid, gan fy hybarch gyfaill, Gwalchmai a minau.

Cawsom brofion digonol ei fod yn deilwng o'r urddas oruchel hon, ei fod yn wir fab anian, ac yn wir fab awen, ac yn gyfaill mynwesol, pur, a diabsen, ac nid wyf yn petruso d'weyd, iddo yn ganlynol i hyny barhau i esgyn tua chopa mynydd *Parnasus*, nes iddo gyraedd y raddfa oruchel, o fod yn un o Brif feirdd mwyaf talentog ac athrylithgar ei oes, a phe buasai wedi gwneyd cyflawnder a'i awen, a'i dalent fawreddog ar dir cystadleuol, drwy gystadlu am y Cadeiriau, nid wyf yn ameu am funud, na buasai ganddo gynifer o Gadeiriau a Hwfa Mon. Ond anhawdd iawn oedd cyffroi ei feddwl a'i awen i'r ymdrechfa anturiaethus, er galluoced ydoedd. Yr wyf yn cofio yn dda, pan yr oeddwn yn Nhremadog, yn y flwyddyn 1848, yn gosod yr Awrlais ar yr Eglwys, imi ei anog yn daer i ganu ar un o Destynau Eisteddfod Freiniol yr Aberffraw; sef "Cywydd ar ddiffyniad Gibraltar gan y Cadfridog ELLIOT;" y cefais lawer iawn o drafferth yn ei symbylu i addaw cyfansoddi ar y Testyn: ond yr oedd genyf y fath gred yn ei alluocedd, nes imi sicrhau iddo, y byddai yn sicr o'r wobwr, ac felly y llwyddais iddo wneuthur yr anturiaeth; a chredwyf yn ddiysgog, na buasem yn feddianol ar y Cywydd gorchestol hwn, oni bai i mi ei symbylu am nosweithiau lawer, nes y gafaelodd ynddi o ddiffrif, ac y cyflawnodd y gwaith gorchestol, yr ennillodd y wobwr, ac yr ychwanegodd hyn at ei fri a'i urddas goruchel yn nghyfrif Beirdd, Llenorion ac Awengarwyr penaf ein gwlad: ac mae hyn yn destyn gorfoledd i minau, fy mod wedi bod yn achlysur o'i anog a'i symbylu i gynyrchu y Cywydd ger-gampus hwn er coffa gwroldeb ELLIOTT yn amddiffyn Gibraltar.

Yr wyf yn falch o glywed fod gweithiau barddonol fy ngor-hoffus gyfaill ymadawedig yn y wasg, ac nid oes genyf yr amheuaeth leiaf na bydd eu derbynwyr yn dra lluosog o herwydd gwyr Cymru ben-baladr am y diweddar Ioan Madog ei fod yn un o brif feirdd enwocaf ei oes.

CLWYDFARDD.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Aberffraw, yn y flwyddyn 1849, y cefais yr hyfrydwch o weled Ioan Madog gyntaf. Yr oedd yn edrych yn gryf a heini y pryd hwnnw, ac yn orlawn o arabedd farddonol. Y mae yn hysbys i luaws o'r beirdd i Talhaiarn golli yn ei ymgais am y Gadair yn yr Eisteddfod hono, ac iddo gael ei raddio yn lled isel yn yr ail ddosbarth gan Eben Fardd, un o'r beirniaid. Oherwydd y siomedigaeth hon, cythruddodd Talhaiarn yn aruthr; a phan ar y llwyfan yn areithio, ac yn adrodd darnau o'i Awdl, ymrodd yn ei

chopi a rhwygodd ef yn ddarnau o flaen y dorff, ac yr oedd yr olwg arno fel dyn lloerig yn malu ewyn! Pan oedd Tal yn gwneyd hyn, dywedodd un o'r beirdd yn nglust Ioan, —

"Gwelwch Talhaiarn yn darnio—Yr Awdl,
Y mae rhyw ddiawl ynddo."

Ac ebai Ioan, mewn eiliad, —

"Hwdwch hiddyg! dewch iddo,
Dyna gamp y dyn o'i gô!"

Y tro cyntaf i mi ei weled ar ol hyn, oedd yn Eisteddfod Genedl-aethol Rhuddlan, yn y flwyddlyn 1850. Côf genyf fyned gydag ef, ac un neu ddau eraill o'r beirdd, i dafarny bychan oedd ar ochr yr heol i gael gwydriad o gwrw, ac erbyn myned i mewn, pwy oedd yno ond "Wil Ysgeifiog" wedi meddwi, ac yn gorwedd ar wastad ei gefn o dan y bwrdd. Wrth ei weled yn y fath gyflwr, gofynodd Ioan iddo, er mwyn tynu rhyw ddyllau ar ei awen, —

"Oes 'sgyfaint gan Wil 'Sgeifiog?"

"Oes," ebai Wil, mewn moment, —

"Ddwy gref, i grochfloeddio croc."

Lle cyfarfyddais ef ar ol hyn, oedd yn nhŷ HUGH EVANS, Cyfrwyrwr, Llangefni, yr hwn ydoedd yn berthylhas iddo. Yn y gyfeillach, gofynodd un o'r prydyddion i Ioan, wrth weled ei wallt yn troi ei liw —

"Pa le mae'th wallt, hir-wallt du—a'i hardd-deb?"

Ac mewn moment, ebai Ioan, —

"Hyd ochr y gwyneb mae'n dechreu gwynu."

Yn Eisteddfod Pwllheli yn y flwyddyn 1875, y cyfarfyddais ef ddiweddfaf. Pan oedd ef a minau, yn aros i gychwyn i'r orymdaith, fore diwrnod y Gadair, — pwy oedd yn sefyll yr ochr arall i'r heol ond "Taliesin o Eifion," yr hwn oedd yn cario ei holl dlysau ar ei fynwes; ac yn yr olwg arno, dywedodd Ioan yn fy nglust —

"Gwelwch chwydd fron, gawlfon gau,
Taliesin dan y tlysau."

Diau na bu yn Nghymru fardd mwy ffraeth-bert, a mwy naturiol ei gynghaneddion na Ioan Madog; ac y mae ei holl waith yn profi hyny.

Y mae ei Englynion, ei Gywyddau, a'i Awdlau, fel cofgolofnau o farmor gloew, yn cadw ei goffadwriaeth i fynu, ac edrychir arnynt gyda mawrhad, gan yr oesau a ddeuant. Teimlir yn chwith yn yr Eisteddfodau heb Ioan Madog, a galerir yn chwerw dost wrth feddwl ei fod yn ei fedd.

Hyawdl od mewn Awdl ydoedd,
Angel Nef am Englyn oedd.

Llundain, Awst fydd, 1880.

HWFA MON.

A W D L A U .

Y GWAREDWR A'I DEYRNASIAD.

Iôn ro'i i Addaf arwyddion—o'i gariad
Yn ei gerydd tirion;
Awr ddifrif o brif brofion
Iddo a'i hil ydœedd hon.

Gwawr bur y Cyngor borau—a welid
Drwy niwl y cysgodau;
Duw o'i ras hyd yr oesau,—roi 'n gyson
Fyw addewidion, a rhyfeddodau.

Ond yn ei wydd dyn a aeth
I ddilyn gau addoliaeth;
Y berffaith Gyfraith ar g'oedd
Wrthodai,—nid gwerth ydoedd,—
I ffwrdd ai i'w ffordd ei hun
I addoli 'i dduw-eulun;
Ow! i Israel adael Iôn,
A'i ddewisawl dda weision;
Diystyrodd dosturi
Duw y gras wrandawai gri.

Pan oedd prif luoedd y wlad
Yn druain mewn dirywiad,

Y werin oll yr un wedd'
 Yn aros mewn anwiredd,
 Tywyllwch dybryd, hollol,
 Yno 'n cau yn mlaen ac ol,

A didawl draddodiadau—'r henafiaid'
 I'r nefoedd yn boenau;
 A Seion wan dan dônau,
 A'i llais a'i gwedd yn llesghau.

©'i lŷs hardd heibio'i haul a sêr,—heibio 'i
 Wiblog lu'r uchelder,
 Drwy fydoedd, luoedd lawer,
 I'n byd ni daeth Mab Duw Nêr!

Ac o'r rhoddion tég er Addaf—a gaed
 O law gu'r Goruchaf,
 Ei Fab anwyl fu y benaf
 Rodd hael, yn ol gwir ddelw Naf.

Ef erddom mewn nef-urddiant,—ddiosgodd'
 Wisg ei fawr ogoniant;
 Ai o'i fodd mewn ufuddiant
 I le blin ei anwyl blant.

Yn ei adeg dég y daeth—yr Iesu
 I risyn dynoliaeth;
 Rhoi bri i'n natur ni wnaeth
 Ei deilwng ymgawdoliaeth.

©'n hachos ni chwysu wnaeth,—deuai'n waed'
 Yn ei ing anhydraeth;
 Selyf y ne 'n sylfaen aeth
 Dan waelod drwg dynoliaeth.

Pa oes a ddirnad y pwys oedd arno,
 Loesau 'i gorff egwan dan feichiau dynol,
 A grym ei ddolur garw, meddyliol
 Yn ing y noson drom, anghynesol!
 Ei enaid santaidd, unol—mewn ofnau,
 A roes hyd angau yn ddarostyngol.

Hawdd ydoedd i'w Dduwdod—daro y byd
 I'r bedd ag un dyrnod:—
 Yn lle cledd, dyg wledd o glod,
 I ddrysau'r ddaear isod.

O! fendigedig Geidwad,—efo dyn
 Fe daniodd ei gariad
 Nes dangos ei ostyngiad
 I ddwyn Trefn maddeuant rhad.

Diferai mŷr hyd fawr a mân—o'i wedd
 Bu'n wir nawdd i'r truan:—
 Rhag ei ddir agwedd eirian,
 Ffoai'r dieifl mewn cyffro i dân.

Bu'n ngwyneb pob angenion,—heb un man
 I'w ben myg am noson;
 Drwy'i ras bu'n was i'w weision,—agwleddoedd
 Ei rad oludoedd ro 'i i dylodion.

Gwel ei effaith ar gloffion,—bu Dduw i'r
 Byddariaid a'r deillion;
 A'i law fu 'n dwrdiaw y dôn,
 Adferai gysglyd feirwon.

Er Iddo wneyd arwyddion—daionus,
 A dwyn gwyrthiau mawrion;
 Gwawdio 'i fri, gwaedu ei fron,
 Gai 'n y byd gan abwydion.

Aflan fu i'w lân fywyd,—ei werthu
 A'i wrthod yn wawdlyd,
 Herio'i ddwyfol urdd hefyd,
 A'i ffyrdd bân,—cyffrôdd y byd.

O! yr a'mharch mawr yma,—a gofid
 Gafodd y Messiah;
 Am ddim aeth plant Abra'm dda
 I ryfel â'r Jehofa.

Er i elyniaeth orlenwi—Satan,
 Bob sut i'w wrthbrofi,
 Cymerodd bob camwri
 Yn llawen yn ein lle ni.

Ei berlawg eurawg goron—newidiai
 Am wawd a chabledion;
 Dewisai'r poenau dwysion,
 Hoffai wel'd y waewffon.

O! wele dorf mewn poethlyd-wŷn—lluaws
 Fel llewod i'w erbyn,
 A Philat—ffei—ei elyn
 Llawn o dwyll, yn llai na dyn.

Dyma ddigio'n Tad maddeugar,—a dal
 Ei Fab doeth yn watwar;
 Ond pwy ddeil ddwys bwys, a bâr
 Dwrn Duw pan dery'n daear?

Ei swydd yn nwyllaw Suddas—erch ei fryd,
 Wnai'r archfradwr Judas;
 Aeth ei gudd elyniaeth gâs
 Yn ei enaid yn wynias.

Yn ystryw ei anonestrwydd,—a'i warth,
 Am werthu ei Arglwydd
 Ai'n ddieffyn, dan ddu aflwydd,—a melldith
 Ei hyfawr ragrith i fôr euogrwydd.

Ymryson am yr Iesu—yr oeddynt,
 Gan warthruddo 'i allu;
 Yna 'i ddwyn dan gollfarn ddu
 Nes i Ion ei hun synu!

Eu bloeddiau, a'u cableddion,—oedd erwin,
 Gan gynddaredd ereulon;
 Mellt aethus eu melldithion
 A wibia fry heibio 'i fron.

Mynai Duw am hyn eu dëol—o'i dir
 Dan lidiogrwydd dwyfol;
 A bai o wŷrni barnol
 Ar eu hâd byth ar eu hol.

Y diafol godai, ufelog ydoedd,
 Yn orwych, lawen, anerchai 'i luoedd:—
 “Heddyw dyrswn Addewid yr oesoedd,
 “Ys cawn y rhyfel sydd er's canrifoedd.
 “Ha! cyn tair noson y cawn y teyrnasoedd,
 “A'r cenedlaethau, llwythau'r holl ieithoedd,
 “Cawn y byd i gyd ar g'oeedd,—cawn heb ffael
 “Yn fuan afael ar nef y nefoedd.”

I'w harweinydd hagr wyneb,—hyd angau
 Hwyl dyngent ffyddlondeb,
 A'u meddwl am ddial heb—byth wŷro,
 Na throi i ildio er pob cythreuldeb.

Ar ei fyddin rhyfeddai,—y gelyn,
 Eu golwg ganmolai;

A'i gân oedd mor rwydd y gwnai
Droi y fantol drwy 'i fintai.

Ei udgorn seiniai, gollyngai'r llengoedd
Oll o'r diwaelod, dywyll ardaloedd;
Wrth agor bolltau dorau'r dyfnderoedd
I'w arfog gedyrn, mor fywiog ydoedd;
Ac ar feirch fflamawg gynddeiriawg yroedd,
O berfedd annwn bwriai 'i fyddinoedd,
Yn llwon ei holl luoedd,—drwy'i dwyll hen
Ai heibio i Eden gan herio bydoedd.

Yn ei wylltineb melltenai,—heibio
I bob peth symudai;
A chaddug uffern chwyddai—'i gasineb,
Rhag ei arw wyneb y ddaear grynai.

Deuai'r mawr wyntoedd, draw y môr yntau
Ergydiai 'i anwar gynddeiriog ddnau;
Gorlifai anian,—rhwygai'r elfenau,
A dig arwyddion yn gordoi 'u gruddiau,
Melltcochion, gwylltion yn gwau—'n frawychus
A sw'n truenus yn y taranau.

Dacw y miloedd hyd y cymylau
Oll am ennill yn chwifio 'u llumanau,
Llu ÷on erfawr yn llawn o arfau,
O flin diriogaeth aflan y drygau;
Gyda'u rhyfedd gableddau—heb ofn neb
Ant draw i wyneb Tad y taranau.

Ond wele Iesu yn dal i'w wysiad,
A'r ergydion trymion ar bob tremiad;
Caru ei eiddo 'n fwy cu a'i roddiad
A wnai wrth farw yn nerth ei fwriad;

A chyfiawn drechai ei fwyn edrychiad
 Gythreuliaid lliidiog, tònog eu tyniad;
 Yn mawredd ei gymeriad—rhoi'r dydd hwn
 I arfau annwn fythol derfyniad.

Y byd mawr, blinfawr ei blâ,—holl allu 'r
 Ellyllon a'u trahâ
 Wynebodd, dygodd, er da,
 Eu gwaethaf ar Golgotha.

Ni chilioedd yr archelyn
 Heb ei dâl gan Fab y dyn.

Dynesu at dân ysol—ni feiddiai
 Er ei fyddin nerthol;
 Hwnt o'r ffau ei antur ffol
 Oedd ynfyrdrwydd anfeidrol.

Yno ysigo ei siol—a gafodd,
 Yn gôf o'i gwymyp uthrol,
 A dianc yn andwyol,—a gwanach,
 A'i le 'n boethach yn y llynclyn bythol.

Y Duw dirfawr, diderfyn,—bu ryfedd
 Ei brofi gan adyn!
 Un fu 'n llunio tafod dyn
 Yn fud o flaen pryfedyn!

O! daew Ef, a'i Dad cyfion—wedi ei
 Adael i'r llofruddion;
 Ac wele gwaedai calon
 Y nef fry wrth wanu 'i fron.

Y nef a dduai yn anfoddhaol,
 Wedy'n y nwyfre a daniai 'n wefrol,

A gwregysau yr hen greigiaw oeso!,
 Yno yn tori yn annaturiol,
 A Judea 'n andwyol—yn siglo
 Nes ciliai meirwon o'u cysgle marwol.

O! dyma len hardd Deml Nêr
 A hynod rwyg drwy 'i haner.

Er y llefain a'r llafur,—a'r ysgwyd
 Fu ar esgyrn natur,
 Iach ydoedd y pechadur
 A'i deimlad e' mal y dur.

Dirmygu Iesu, a'i weision—a wna'r
 Annuwiol yn ōn,
 Er iddo gael ei roddion—yn dawel
 A byw 'n ddiogel ar ben ei ddigon.

O! dy wlad—genedl lliog—wedi dwyn
 Bywyd y dieuog;
 Diengai 'r haul,—Mab-Duw 'nghrôg
 Dan hoelion fel dyn halog!

Y dwyfol lid, a'i ofwy—wynebodd
 Heb neb yn gynhorthwy,
 I'w enaid trist fyned trwy
 Afon Eden ofnadwy.

Heb un bai deuai drwy 'i daith—hyd eithaf
 Melldithion y gyfraith,
 A phwysau beiau pob iaith
 Ar ei enaid ar unwaith.

Yn ei gorff anwyl agor ffynon—wnaeth
 I wneud myrdd yn wynion;

Hedai'r lleidr o'i drallodion
I'r hardd baradwys drwy hon.

I derfyn rhedai 'i arfaeth,—a rho 'i ben
Ar bob proffwydoliaeth;
Ysigai dywysogaeth
Angeu sŷn a'i ddurfiing saeth.

Ei gorff heb ôl argraff y bedd—ddyrchai
Mewn ardderchog fawredd,
Ac ar ei iach, hawddgar wedd
Foreuliw anfarwoledd.

Rhoi 'i ddelw, a'i urddoliaeth—ar ei waith
Wnai 'n Nhrefn Iachawdwriaeth;
Yn ngawl ei Gyfryngoliaeth
I'w aur lys i eiriol aeth.

Yn eu gwisg harddlân gosgorddlu—nefol oedd
O'i flaen yn cydganu;
Ni ddarfyddodd dydd rhyfeddu
Ei angeu loes gan engyl lu.

Chwyfiodd mewn goruchafiaeth—wên faner
Ei fwynaidd lywodraeth;
Ffordd rydd o'r newydd a wnaeth
Yn nhaliad ei Iawn helaeth.

Yna daeth ei fendithion,—a'i allu
Drwy'r holl apostolion
Hyd wledydd,—i dylodion
Fyw 'n ngwledd ei efengyl lon.

Duw roe ogoniant ar gynnydd—i'w Drefn
Drwy'r Ysbryd Glân beunydd;

O'r wyl* fawr ei leferydd—mewn mwyndra
A glywai Asia,—amlhai Eglwysydd.

Ha! dyma ryddid mawreddog—i gaeth,
A gwisg i'r noeth euog;
Arian llawn heb bryn na llôg
O fryniau 'r nef arianog.

Yn ei glwyfau i gleifion—y mae balm
O bob gwir gysuron;
Difyr waith hyfryd ei fron
Aileni ei elynion.

Dyry nerth, gwna'r dŵr yn win—i gyanael
Y gwanaf bererin;
Gwrendy o'r nef ar lef flin
Y dylaf ar ben deulin.

I'w weision pur, dewisol—dyry nerth
I drin eirf ysbrydol;
Gan rym ffydd gwna'r mwyaf ffôl
O'i fyddin yn rhyfeddol.

Hwylia'i i ddwyllaw eiddilion—i ryfel,
Myn brawf o'i orchestion,
Rhag llwfrhau gwellha 'i fron
Ag olew gras i'w galon.

Deil ei gledd â dwylaw glân,—fe rwyga
Frigog deyrnas Satan;
Tŷr bwys holl deirw Basan,
Dyry dwyll y byd ar dân.

*Gwyl y Pentecost.

Ar allu'r Graig a ddrylliwyd,—a'i i'r ffau,
 A'r ffwrn boeth heb arswyd,
 Mewn dwfr a than ei gân gwyd
 I'r Siloh a groeshoeliwyd.

Pob cur a dolur drwy'r daith—a wellheir
 Yn llaw'r Meddyg perffaith;
 Gwaed y groes a gwyd y graith,
 Na welir moni eilwaith.

Derfydd twrf, cynhwrf pob cād,—a daw dydd
 Dedwyddol orphwysiad;
 O'i holl ing caiff ollyngiad
 I we'd Iôr, ei anwyl Dad.

Wedi'r holl frwydro o hyd,—i wyneb
 Yr Iorddonen enbyd,
 "Iddo Ef" am byth hefyd
 Fydd y gân ryfedd i gyd.

Cof o arw angyfwrdd'r Cyfryngwr,—yr Iawn
 A roes y Gwaredwr;
 Duw a dyn, y gwaed, y dŵr,
 Ryfedda wir grefyddwr.

Prif addurn pob rhyfeddod—i Gerub
 Fydd ei gariad hylod;
 Saint â'u mawl gânt fythawl fod
 Yn ddedwydd yn ei Dduwdod.

I rai isel mewn mawr eisiau—dygodd
 Degwch gras i'r golau;
 Drws aur ei lawn drysorau
 Egyr Ef gan drugarhau.

Ni fina Ef lawenhau—ei lu mawr
 Mewn mil myrdd o lwybrau;
 Yn rhwymyn hedd ceir mwynhau
 Hyfrydwch ei fwriadau.

Hedd ddilyna ddylanwad—daionus
 Ei dyner deyrnasiad,
 A bywiog lwydd ymhobgwlad—fydd drwyddo
 Yn mwyn flaguro mewn nefol gariad.

Ar feusydd daear foesawl—a'i mwyniant
 Cesglir manna nefawl;
 I'r Iesu mwy 'n ngwres y mawl
 Hoenusa'r bryniau oesawl.

E ddyry'r coedydd irion—wir dyner
 Dônau'n llawn o swynion;
 Tardd lloniant drwy ddillynion
 Gwanwyn tîrf gogoniant Iôn.

Sia mel-wefus aml afon—ei glod
 Drwy'r glân ddolydd gwyrddion;
 Ail loewi hen alawon—eglwysig
 I'n Hiôr mawreddig wneir am ei roddion.

Yn merw'r tònau mawrion,—yn y trwm wynt,
 A'r mellt fflamlyd, llymion,
 Yn nhrwst taranau, yr Iôn—a folir,
 A'i rym mawr welir drwy'r amrywiolion.

Gwirionedd gair ei enau—a darfa
 Derfysg llywodraethau;
 I'w law fân ceir elfenau
 Y nefoedd yn ufuddhau.

Dawn ei ras sy'n dwyn yr isaf—o'r llwch
 I'r lle ardderchocaf;
 Yn ddyn rhydd, newydd i'w Naf,
 A'i enaid yn ddianaf.

Treiglo fydd trwy gelfyddyd—wybodaeth
 O'i danbeidiol ysbryd,—
 Drwy'r trydan fuan fywyd
 Ei Air & i bob rhan o'r byd.

Teyrnasoedd truenusawl—oleuir
 Yn ei lewyrch nefawl;
 Rhed afon cariad dwyfwl,
 O fôr i fôr, yn fawr fawl.

Yr Iuddewon adre' ddeuant—a'u cred
 Yn Iawn Crist a'i haeddiant,
 A'r cenedloedd ar g'oeidd gant
 Haf-wleddoedd y milfwyddiant.

Deil cyhoeddiad am y Ceidwad,
 A dylanwad ei lawenydd,
 Yn dystiolaeth o'i ddwyfoliaeth,
 A'i ddynoliaeth, hardd aneilydd.

Ond tyn y byd hwn i ben—ei yrfa,
 Derfydd oes yr heulwen;
 Arwyddion uthr rydd y nen—y dydd hwnw
 O'r dirfawr dwrw, drwy fôr a daearen.

Y deyrnas fawr gadarnaf—ysgydwir
 I'w chysgodion pellaf;
 Diddim yw'r bydoedd mwyaf
 I yry 'n ol eiriau Naf.

Y Barnwr cyfiawn, uniawn ei enau,
 Heddyw a welir mewn newydd olau,
 Byw lywodraeth ei ddwyfol belydrau
 A dreiddia i engyrth ddyfnderoedd angau,
 Yn mawredd grym ei eiriau,—y gweryd
 Allan a esyd weddillion oesau.

Er ei rym mawr, yr awrhon—rhy anhawdd
 I frenin y meirwon
 Fydd dal yn mherfedd y dôn
 Ei filoedd mewn gafaelion.

Tŷr rhwymau 'r dyfroedd trymion,—a'r môr mawr
 Murmurol o'i eigion
 Fwria 'i aneirif feirwon
 I'r munyd ar amnaid Iôn.

Iesu 'n holl urddas y nef—a'i osgordd
 Ddisgyn o'r oleunef,
 Daw 'r ddeu-lu gyda'r ddolef
 I'r Farn oll ger ei fron Ef.

Rhed gofid y ddedfryd gyfion—drwy enaid
 Byd yr anwir ddynion,
 I'w suddo a'u troseddion
 I dònog wae dan ŵg Iôn.

Yr annuwiol i'w garchar newydd—droir
 Drwy warth a chywilydd;
 A gair y Farn gywir fydd
 Ar ei go' yn dragywydd.

Yn awr y lôn dyner lef—a eilw
 Anwyllion Crist adref,
 Eu dydd o'r boen a'r dyoddef
 Wawria 'n iach awyr y nef.

Yr Iesu 'i hunan yn nghlyw pâr seiniau
 Gyrcha 'i saint anwyl gorŵch sŵn tônau,
 Y dorf waredol ddwg drwy 'i fwriadau
 Yn dêr, gyfunwedd i'w lôn drigfanau,
 A'i wledd bur a'i hedd i barhau—rydd Ef
 Ar fwrdd y wiwnef fry i fyrddiynau.

Hwy oll heddyw 'n llu addas—arbenig
 Dderbyniant y Deyrnas;
 A'u gwedd, drwy ryfedd rad ras,—o'r newydd
 Fydd fel y wawrddydd mewn nefol urddas.

Ar lân y pur lawenydd—cânt edrych—
 Cânt adrodd eu tywydd,
 A choffhau ymdrech eu fydd—ddiffuant,
 Trwy iesin fwyniant ar Seion fynydd.

Dirgeledig dreigliadau—olwynion
 Rhagluniaeth a'i throiau
 Welir oll yn eglurhau
 Dybenion byd o boenau.

Cael difyrus roi clodforedd—o'u cur
 Mewn cariad diddiwedd,
 A thrafod mawrwaith rhyfedd
 Iesu glân felysa 'u gwledd.

Dyma'r dydd y bydd pob iaith—yn y nef
 Yn un teulu perffaith,
 Na wel neb liw anobaith
 Na dim mwy ond gwynfyd maith.

Adda ac Efa, dêg wedd—a sŷnant
 Mewn swynol orfoledd
 Wel'd o'u hil mewn gwlad o hedd
 Afrifol dyrfa ryfedd.

O! dyrfa fawr ddiderfyn—a chwery
 Ei chywrain aurdelyn,
 Nas gall y craff Seraff sŷn
 A'i dalent gref ei dilyn.

Ar ddoniau 'r natur ddynawl—yr Iesu
 A roes urddas bythawl,
 I'w Hiôr mwyn pereidd-dra'u mawl—mor gynes
 A swyna fynwes y nef awenawl.

O! mor glir yn mawrhau 'i glod—y byddant,
 Nes boddi mewn syndod;
 Nefoedd byth yno fydd bod—yn mwynhau
 Ei ryfeddodau di rif a'i Dduwdod.

Drwy feusydd dirif oesau—goleuddydd
 Gwleddant ar y ffrwythau;
 A'u dedwydd fyfyrdodau
 Hyd afon hedd yn dyfnhau.

'E ga 'r dedwydd Gredadyn—gydchwareu
 Gyda Cherub claerwyn,
 A rhodio 'n ddifyr wed'yn
 Efo'r Brawd fu ar y bryn.

Rhodio 'n dêg ar edyn dydd—hyd fryniau 'r
 Wlad freiniol ysblenydd,
 A chân falch o'i enau fydd—yn oriel
 Y rywiog awel i Dduw 'n dragwydd.

GALLU A DAIONI DUW.

NOAH rodiai 'n waredol,—a'i deulu,
 Uwch y dylif barnol,
 A suddai 'r byd troseddol,—i'w gellau,
 A chuddiai 'i dônau bob ymchwydd dynol.

Lot gynt, gai engyl tég wedd—i'w arwain,
 O dir y gwastadedd;
 I anwariaid anwiredd
 Llaw Duw fu 'u gwneud tanllyd fedd.

A pha ŵr fel Pharaoh fu,
 Trwy un oes yn teyrnasu?

Er iddo gael pob arwyddion,—yn ddidawl—
 Rhyfeddodau mawrion,
 Uwch llef yr Aipht, ei erchyll fron
 A galedai i'w gwaelodion.

Yn ei wlad, plant anwyl Iôn—gaethiwai,
 Ar wae crechwenai, er cri a chwynion;
 Trymhau eu beichiau 'n ddi baid,
 Cryf firwyno 'r corph a'r enaid,—
 A thramawr hir orthrymu,
 O flaen barn fel hyn y bu:—

A'i ryfeddol, gref fyddin,—ar eu hol
 Yrai 'r creulawn frenin;
 Gyrai 'n erlidiog erwin,—
 Tyrfae 'i wlad drwy 'i natur fin.

Ond troe 'i ofer hynt, ryfedd,
Yn chwerw siom, echrys wedd.

Yno llaw 'r Arglwydd mewn llið,
Yn ei faeddu ganfyddid,
Ei feirch, a'i agwrdd farchogion,
Hyrdid i gynddaredd y dòn;
Gwel'd Duw yn amlwg wgu,
A fferodd waed Pharaoh ddu;
Ei gamsyniad ofnadwy,
A wnai 'i ddûr galon yn ddwy,
A'i gyflwr euog, aflan,
Yn y dwfr âi 'n uffern dân.

Yma 'n awr am anwiredd—ei einioes,
Terfynai 'i holl fawredd;
Daw i farn o'i ddyfrllyd fedd,
Yn adyn duaf nodwedd.

Mewn pryd, i'r munyd, y môr—welid i'w
Waelod yn ymagor,
Nês i'r làn âi Israel Iôr
Yn ddiotal rhwng y ddeufôr.

Mor lòn yr oedd y mawr lu,—yn gôr llawn,
Ger y lle 'n molianu;
Yn yr adwy fawr, Duw a fu—'n hybys,
Yn ei ewyllys, a'i gadarn allu.

Y Duw fu 'n agor y dwfn eigion,—eto
All atal gelynyon,
A rhoi du orweddle'r dòn,—aruthrawl,
Yn dir dewisawl dan draed ei weision.

Arafa 'r gwyntoedd cryfion,—a'u rhu mawr,
Diffodda'r mellt llymion,

A rhag ei fraw, ger ei fron—crÿn seiliau'r
Oesawl fynyddau, benau cribwynion.

Hawdd i'r Iôr droi'r môr, a'r tir maith,—yn un
Enynawl wyllt oddaith,
A chau dôr gwyddor pob gwaith,
Yn nhrp anian ar unwaith.

Neu gall Naf yn ddigllawn hefyd,—rwygo
Gwregys yr eangfyd,
A chladdu beilch luoedd byd,
Pe mynai mewn pum munyd.

Yn lle hyn, pob llawenydd
Yn ei ras i ni a rydd;

Trwy ei gariad rhagorol,—rhoes ei Fab,
Dros fyd truenusol,
A dylanwad adlonol—ei ysbryd,
I wir adferyd yr edifeiriol.

Hedd a mawl ydoedd ei ymweliadau,
A'n daear isel, ar hyd yr oesau;
Mawl gwiw a rodder mewn amlwg raddau,
I Lyw rhagluniaeth, o lwyr galonau;
Yn ei Drefn dirion dyry fwynderau,
Hin dymherus, a ffrwythlawn dymorau,
Ac yn yr adeg, âg angenrheidiau
Hulia fwrdd anian hael, i fyrddiynau;
Er llu gorthrymus, a'r holl gerth rwymau,
Ef o'i hynawsedd a gofia 'n heisiau,
A ffola synwyr y dyn ffals enau,
A drino 'i roddion, drwy anwireddau;
Enfyn ddwysion rybuddion o'r beddau,
I'r annuwiol, sy'n arwain i waeau;

Try'r balch chwyddedig, a drig mewn drygau
 Hyd wamal fywyd, i deimlo 'i feiau,
 A thrwy geryddon, a thrugareddau,
 Ei einioes doddir gan dân cystuddiau;
 Daw'r cristion tawel o'r isel ddrysau,
 Yn rhydd o'i flinion, dŷnion gadwynau;
 Daw hoen ireiddiol i'w lwydion ruddiau,
 A daw gorpheniad i gur a phoenau;
 Drwy 'r hen Iorrdonen Duw rydd ei wenau,
 Wna i'w saint anwyl ganu 'n sŵn tònau;
 Sail ei wir rasol eiriau,—trwy Grist sydd
 Yn fyw lawenydd yma i filiynau.

Doeth erioed, a da 'i weithredoedd,—yw'r Iôn,
 Goruwch yr holl nefoedd;
 A'i fawl tragwyddawl, ar g'oedd—sy'n parhau
 Ar fyw dafodau afrifed fydoedd.

Dirgeledig dreigliadau—rha gluniaeth
 Iôr glân ddaw i'r golau;
 I fewn o hyd ânt dan fwynhau,
 I Dduwdod rhyfeddodau.

GOLYGIAD AR Y DYDD MAWR DIWEDDAF.

WELE ym moreu galw y meirwon,
 Y dua'r haul a'i belydr hylon;
 Ys aruthr egwyl syrth i'r eigion,
 Y bywlawn odwymp dêr blanedion;

A'r eres sêr a roes Iôn—syrth i lawr,
 Yn eirias hyfawr o'u gorsafion;
 Dirgryna'r ddaear gan dduon—loesau,
 O'i huthyr seiliau a'i throsolion.

O ddiwrnod! hynod enwi,—oriau barn—
 Meirw byd yn adgodi;
 Rhwyg i anian, oer gyni
 Drwy y nef a'n daear ni.

O'u deddf, ac eu greddf griddfan—y bydoedd,
 A'r bodau yn druan,
 A gwyllt, gwâr daear drwy dân
 Eلفenawl o fyw anian.

Dydd diweddiad amser, rhediad,
 A gollyngiad o gell angeu;
 A dymchweliad byd o'i drefniad
 Diadferiad; hynod foreu!

Ein daear lwysgu a'i da orlogant,
 A'i holl erf weithydd yn llwyr a fethant;
 Mynyddoedd, brynoedd, mewn ewybr anian,
 Trwy'r gwres ofnadwy o'u gorsaf neidiant;
 A'i heres wythi ariant,—yn gyflym
 A syrth i'r diddym; ys aruthr doddant!

Yn ffrwd ofnadwy, rhuadwy rhedant
 I'r eigion erfawr; ei ddeifr gynhyrfant,
 Iê, 'r holl foroedd a erchyll ferwant,
 A hyd yr awyr yn ffroch dyruant;
 Hynod droellau anian,—trwy'r nef uchod,
 A'r ddaear isod a lwyr ddyrysant.

Ar fyr egyr y mawrfôr eigion,
 Ei grombil gwelw i fwrw ei feirwon:

Y ddaear hithau ddyry weithion,
 I fyny ei meirw, fân a mawrion:
 O udgorn nef rhed gair ein Iôn—yn glau,
 O fewn eu dorau i'w dyfnderion.

Hen gloiau gweryd yn glau agorant,
 A lluoedd hynod heb ball ddihunant;
 Mewn daear isod mwy nid arosant;
 Un naws a'u beddau byth mwy nis byddant,
 I gyd mewn nerth adgodant,—yn dryfrith,
 I dir diymrith ar d'rawiad amrant.

Wedi eu bod yn ngheudod bedd—oesau 'n
 Gorphwysaw mewn llygredd;
 Fry neidiant, feirwon odwedd,
 Yn nydd Iôn mewn newydd wedd.

Myrdd, ie, mil myrdd, mal y mân—raian,
 Ddwyrea 'n chwai allan,
 O wythi daear weithian,
 Ger bron Duw byw, y Glyw glân.

Pan fo daear hygar drwy ei heigion,
 Yn dal i grynu mal dail gorweinion;
 O ddydd erfawr! a mynyddoedd Arfon,
 Gywrain, hoffwlad 'n ymguraw 'n yfflon,
 Gwelir mewn tég argoelion,—yn rhyfedd,
 Pwy fedd wir sylwedd—pwy fydd rasolion.

Yr iawn weis ufudd yn y Farn safant,
 Gwiw luon iach, ac a lawenychant;
 Yn wir hoffusawl hwy a orphwysant,
 Ar Graig yr oesoedd, drwy 'r Gŵr garasant;
 Eu dilyth Briod welant—heddyw, 'n fflwch,
 Yn ei lân harddwch, a'i gyflawn urddiant.

Diau gwŷr anwir y byd a grynant,
 Ger y sywiawl Iesu groeshoeliasant;
 I'w cuddiaw 'n dristion o ŵydd Iôn gwaeddant
 Ar y mynyddoedd dirym eu noddiant;
 Heb unrhyw achles lu eres galarant
 Heddyw o'i blegid, ac iddo hwy blygant:
 Hen gawri Eden gwridant,—mewn angar,
 Eithr Duw ddynoetha'r gweithredoedd wnaethant.

Y dilwfr Ynad a dau lyfr union,
 A wir ddynoetha bob rhywddyn weithion;
 Pob drwg i'r golwg a ddwg Iôr gwiwlion,
 A fu er Addaf, ŵr hyfawr roddion;
 I'r goleu daw dirgelion—ysbrydoedd
 A gorddu giloedd, a gwraidd y galon.

Yn awr y Barnydd cofydd, cyfion,
 A ÿrr y naws-wyllt druenusion
 I dywyllwch at anfad wyllion,
 Hen lu ffyrnigawl uffern eigion:
 Tàn lid Duw yn y wlad hon,—dirboenant,
 A byth wylant, anobeithiolion.

Wele 'r Qen a eilw ei wâr anwyllion,
 Iddei nef wenwawr at Dduw Naf union;
 A'r Iesu gwiwras a'r eursyw goron,
 A'u hurdda yngolwg yr heirdd angylion;
 Yn gôr fry byth ger ei fron,—ei foliant
 A wiwdeg eiliant am waed ei galon!

Hoff hoewlu byddant gyffelyb iddo,
 Yn berffaith lanwaith, a goleu yno;
 A chânt fyth breswyl, ac anwyl uno,
 Yn fwyn a'u Modur heb ofn ymado;
 Iach o frêg, mewn gorwech fro,—lle bydd hant,
 A'i dês gloyw, arant, byth yn dyagleirio.

YR YSTORM.

Ddoz 'n heulog ddydd anwylaf,—heddyw blwng
 Dywydd blin erchyllaf;
 Mae gwynebpryd hyfryd haf
 Wedi newid yn auaf!

Mae'r môr a'i sŵn murmurawl,—o'i eigion,
 A'i agwedd yn uthrawl;
 Ei ruad dwys yrr y diawl
 I grynu yn dra gerwinawl.

Curwynt, toredwynt rhuadwy,—ollwedd
 Yn drylliau yn aswy;
 Trŵst rhyfel,—trist yr ofwy,—yn mhob gwlad,
 Rhyw gyfnewidiad a rhwyg ofnadwy!

Rheieidr yn crôch ruaw drwy—hen eltydd,
 Yn wyllt eu rhyferthwy;
 Bâr a thrydar uthradwy,
 Heb ei fath,—ni bu ei fwy.

Rhyw ing dwrwf yw'r ōngderau—maith,
 Fal myrdd o daranau!
 Gweryriad drwy'r gororau,—hyd echrys
 A gwrdd fanau dyrys gorddyfnderau.

Trwy grwn fyd daeargrynfâu,—yn ysgwyd
 Esgyrn yn y beddau;
 Bron na neidiai'r bryniau—megys dydd brawd
 Anhafal ddiwrnawd, yn fil o ddarnau.

Haul a sêr o'u hwyl y sydd,—o'r golwg
 Ar giliaw 'n dragywydd;
 Chwilfriwiaw 'n huchel fröydd,—a fu ar
 Fôr a daear fwy o arw dywydd ?

Pa reswm? a oes prysur—anhwyl yn
 Hen olwynion natur ?
 Ys! daear gain sydd drwy gur,
 Gwedi 'i dal gyda dolur.

Taranau, a'u twrw hynawd,—tra eglur,
 Bron treiglo 'r bydysawd ;
 Cau y nef—dychryn pob cnawd,
 Dyrysu daear isawd.

Mellt draw'n wyllt am hollti'r nen,—gor-rythu
 Dofn grôth y ddaearen :
 Dw'r obry, a du 'r wybren
 I gyd,—ydyw 'r byd ar ben ?

Cilfachau gwanegau y gwyn eigion,
 Diau 'n agoryd yn dônau geirwon ;
 Ac fal mynyddau a muriau mawrion,
 Dyrchu o olwg, hyd yr uchelion :
 Ar fôr a thir y fawrwaith hon,—dinystr—
 A mawredd o ddinystr,—myrdd o ddyinion.

Draw, llengoedd o gandryll longau,—sydd yn
 Soddi i'r dyfnderau ;
 Ac eraill yn mhob cyrau
 Ar led, fal gwybed, yn gwau.

Dacw nhw 'n safnau y tönau tynion,
 Oll yn ymdrechu, mewn llawn ymdrechion ;
 Weithiau ar frigau yr uthr fôr eigion,
 A'u brig rhwygedig hyd fro Caergwydion ;

Wed'yn gan bwys dwys y dòn,—llwyr soddi
I dÿn galedi yn y gwaelodion !

Neud rhyfedd trugaredd gu,
O ganol barn yn gwenu.
Ein noddi ni heddyw wnaeth
Ein Iôr glân â'i ragluniaeth ;
Er ein rhŵth fygwth â'i fâr,
Gwrandawodd gri ein daear.
Adferiad, dychweliad chwyrn,
Cadwodd y gwyntoedd cedyrn :
Mâd alwodd am dawelwch,
Drwy wiw drefn i'n daear drwch.
Ei lafar nerthawl hefyd,
Ai 'n rhyfedd drwy berfedd byd.
Ac ar air doeth Grëwr y dydd,
Mor dawel ai 'r mawr dywydd :
Y mellt gwrdd ymwylltiai gan
Od enyniad yn anian,
A'r daran ffrôch a'i chrôch rŷ
Ar funud yn rhoi 'i fynu.
A thonau 'r dyfnderau dig,
Oedd affonydd fileinig,
Er eu twrf a'u rhŷad heb
Drochioni gan drychineb,
Ufuddhau i ddeddf ei Hiôn,
Ar eiliad wnai 'r awelon.
Ymlusgiaid, nofiaid Neifion,
Mewn cyffraw 'n dawnsiaw 'n y dòn ;
Llu 'r awyr oll i'w rhëawl
I'w Nêr am hyn yn rhoi mawl ;
A gwyllt a gwâr daear dèn,
Yn eu lleoedd yn llawen.
Holl anian mewn llawenydd,
Er hynod syndod y sydd.

Ein Iôn i ddynion anhaeddiannawl,
 Roes ymwared o dynged ingawl :
 Tra chwai gallasai i goll oesawl,
 Fwrw ein byd yn ei fâr enbydawl :
 Ninnau byth yn anobeithiawl,—wedi
 Ein dwyn i oesi i dân ysawl.

O'r nen y fellten folltawg,—a'r daran,
 Drwy dwrw gwyllt cynddeiriawg,
 Ddengys yn hysbys mewn hawg,
 Allu llaw 'r Hollalluawg.

Ar un gair o'i enau i gyd,—hwnt nesant
 Ynysoedd yr holl-fyd :
 Dymchwelant i bant y byd,—a'i eiddo,
 Yn llun y mÿno mewn llai na munydd.

I'w rëol fanol gwna E'r elfenau,
 Yn llawforwynion drwy 'i holl fawr ranau :
 I drwch blaen nodwydd y derch blanedau,
 O hyd a redant eu cylchdroadau ;
 Oll un modd yn llaw Iôn mau—cylch dröant,
 Heb un dyrysiant i ben draw oesau.

A Duw rëola y dewr awelon,
 Ac a ffrwyna gëg y ffyrnig eigion ;
 A phan orchymyna yna 'n union
 Ar lef Iôn llama'r elfenau llymion ;
 Daeaar, nefoedd, dŵr Neifion,—a'u lluoedd
 O hyd yn filoedd dan ei ofalon.

Ac i Náf tég y nefoedd,—y perthyn
 Porthi yr holl luoedd :
 Beth, beth yw, fydd, dyn byth bythoedd—bryfyn,
 Neu wael abwydyn, wrth Lyw y bydoedd ?

CYWYDDAU.

DIFFYNIAD GIBALTAR GAN GENERAL
ELIOTT.

(Buddugol yn Eisteddfod Aberffraw, 1849).

O FRYDAIN glod foredig!
Iach wlad fras uchel dy frig;
Pybyr ynys, pob rhinwedd,
Ddisigl rym o ddisglaer wedd;
Gem aur yn mysg y moroedd,
Dy enw fawrheir, geir ar g'oedd;
Ha! ynysig aneisawr
Yn mysg y teyrnasoedd mawr,
Nodedig hynod ydwyt
Yn wir, er mai bechan wyt;
A'th lywodraeth ddiledryw,
Mor dda a thêg,—mor ddoeth yw,
O'r dwyrain hyfryd araul,
I waelod tir machlud haul.

Dy barch ac uchder dy ben
A fagodd ddwfn genfigen;
Aml un yn dra mileinwedd
Fu 'n ceisio siglo dy sedd;

Ië, r byd terfysglyd fu
 Am danat yn ymdÿnu;
 Miniwyd eirf, ac ymwnaed am
 Ennill dy orsedd ddinam;
 Galwyd, agorwyd gerwin
 Gyngreiriau gan bleidiau blin;
 Codai byddinoedd cedyrn,
 Ac erch oedd eu hyngyrch chwyrn.

Ond er eu chwyrn ymdrech hwy, .
 Glew wyd ac ansigladwy,
 Gorchfygaist deliaist dy dir
 A'th glod toreithiawg ledir;
 Dy âlon er dy elwch,
 Ymgrymant, lyfant dy lwch:
 Grym y byd a gryma 'i ben
 Yn wylaidd i'th deyrnwialen;
 Y Duw bia gadw bywyd
 Yw'th fwyn nawdd o'th fewn o hyd.
 Af ar daith hyfryd weithion,
 Diofn daith hyd fin y dôn;
 Cyfeiriaf, caf fy arwain,
 Nes b'wyf ar Benryn Ysbain,
 I frawdol ddifyr rodiaw
 Trwy od dref Gibraltar draw;
 Yn iach a rhydd uwch yr aig;
 Ar aelgref aruthrolgraig,
 Heb ofn cryfder, hyfder hoedd,
 Llifeiriant yr holl foroedd,
 Sy'n rhuthro heibio o hyd.
 A'u dwfr rhwng dwy wlad hyfryd.

O hen Ddiffynfa hynod!
 Diogel le, mawr yw dy glod;
 Yma drwy ofnadwy nerth,
 Ac ymwriad tég mawrwerth;

Enillai Brydain allwedd
 Môr y Canoldir i'w medd ;
 Oddiar Yspæen ddyrus ei byd,
 Ar lawn ddyddorawl enyd,
 A'i baner annibynawl
 A ledodd, hönodd ei hawl ;
 A'i hawl a roes siriawl wrid,
 Ar ruddiau duwies rhyddid ;
 Agoryd yn hyfryd wnaeth,
 Fynediad i drafnidiaeth ;
 Ac anogai gan agor
 Helaethach masnach drwy'r môr.

Am hyn, rhwng dychryn a dig,
 Teyrnasoedd truain ysig,
 Gan wŷn cenfigen anwar,
 Ymgasglent berwent mewn bâr,
 A llid cyngreirwyr gerllaw,
 Yn uwch oedd yn ymchwyddaw ;
 Ail enyn wnai'r elyniaeth,
 Flin ei gwedd yn filiwn gwaeth ;
 O'r newydd ymgrynhöai
 Enyn nes tanio a wnai ;
 A rhwygai'r fflam wenfflam wyllt,
 Yn nhir Yspæen yn orwyllt ;
 Wele anterth helyntion,
 A brâd cyngreirwyr ger bron ;
 A meddwl am ddial oedd
 Yn llywiaw eu holl luoedd,
 Mewn prif nerth am un prawf nôd
 O'u dewrder a'u hawdurdod ;
 Mynu gwel'd dan rwymau'n gaeth
 Fwyn edyn ein Trafnidiaeth,
 A chau y porth eorth oedd
 Yn nôd i'n prif Farchnadoedd ;

Adenill hon dan ei llŵ
 Er ei mawl a'i thrwm elw,
 Fŷnai y dorf yn ei dig
 Dan ei nwyd enynedig ;
 Holl bigion gwŷr dewrion da,
 Penaf arwyr Hispaenia,
 Yn chwanawg a gychwynynt,
 Yn filain gād o flaen y gwynt,
 Gan addaw gogoneddiad,
 Têg lwydd iddynt hwy a'u gwlad.
 Wele lèng mil o longau
 O'i hamgylch wedi amgau ;
 Milain gau yn mlaen ac ol
 A gweithiaw 'n dra bygythiol ;
 Codi gwarchgloddiau cedyrn
 O amgylch ogyrch yn chwyrn,
 Nes oedd ein gwŷr yn suddo,
 Gan dristwch, trwch ar y tro ;
 A'u holl obaith ymaith ai
 Fel ewynŷn diflanai ;
 Eu poeni wnaeth y 'Spaenwyr,
 Llwfrrhau y goreu o'n gwŷr ;
 Yn cynyg pob amcanion
 I fŷnu hawl o'r fan hon ;
 Llawer ymgais ddyfais ddig
 A lunist yn fileinig.

Pa arwr llawn campwri
 Hoffai 'n awr ei diffyn hi ?
 Pa ŵr dan lŷs Prydain lon,
 O'i haeddawl Gadlywyddion,
 Ddaw i'r goleu 'n ddewrgalon,
 I'r ddwys swydd fawreddus hon ?

Wedi ymholi am hyn,
 Arswydaw, aros wed'yn ;

Wele Flaenawr mawr o'u mysg,
 Rhyglyddawl ŵr goleuddysg ;
 Un âi 'n uwch ac uwch ar g'oedd
 Trwy foliant ei ryfeloedd ;
 Gŵr o wasanaeth gorwych,
 I'w wlad hoff, ein ELIOTT wych ;
 Balch oedd Brydain gain o'r gŵr,
 Anhefelydd hen Filwr.

Pwy i'r prawf o'r campwyr prid
 Addasach a ddewisid ?
 Un hyf dewr—a phwy 'n fwy doeth,
 A mawreddau mor wiwddoeth ?
 I ddeall gwir ddull a gwedd
 Peirianau—a phob rhinwedd,
 Addas i urddas ei waith
 I'w gludo drwy galedwaith,
 Nodedig berchen didwyll
 Gymedroldeb, purdeb pwyll ;
 A chryf arafwch, rhyfedd
 I drin ei glaer gadarn gledd ;
 Y nôs ddwys ni orphwysai,
 Ond myfyrio 'n effro wnai ;
 Yr oedd yn mhob lle yr aeth,
 I'w wel'd ar wyladwriaeth.

I'r hynt aeth ein Gwron tég,
 Ar ddedwydd, ddedwydd adeg ;
 Aeth mewn hedd, pob peth mewn hwyl
 A darpariad i'r perwyl ;
 'Rhyw adeg bwysfawr ydoedd,
 A da iawn i Frydain oedd ;
 Fal hyn y rhagflaenai ef
 Hir ddydd o ddirfawr ddiodef.

Ar ael y tir ELIOTT oedd
 Efo 'i ddawnus fyddinoedd ;
 Wrth law dosbartha 'i luon
 Yn eu trefn i'r antur hon ;
 A sylwai ar anwar w̄g
 Y galon yn y golwg ;
 Eu holl waith, eu nerth a'u llwydd,
 Ystyriai mewn distawrwydd.
 Y gelyn hyf, dysgwyl wnaeth
 I'w gael ef yn ysglyfaeth ;
 Balchiai, bostiai 'n ddi baid,
 Er anog ei wroniaid ;
 Hoffai, mawrygai 'r egwyl,
 Ai, erbyn hyn, bron o'i hwyl,
 Gan danio, h̄erie o hyd,
 Yn hyfach, hyfach hefyd ;
 Yna annelai 'n Blaenawr
 Ffroenau 'r cyflegrau i lawr ;
 Chwythai 'i gād ar doriad dydd
 Erygdion hir gawodydd,
 Nes gyru yn wasgarol
 Y gelyn i giliaw 'n ol ;
 Ac yn awr ei rwysgfawr rym
 A doddai megis diddym,
 A'i holl fawrwaith llafurus,
 A wnaed o'i flaen i gyd fal ūs.

Wedi hyn, y gelyn gau
 Yn y dyrys flinderau,
 Giliai 'n ol i gasglu nerth
 Am oedfa o ymadferth ;
 Chwiliodd, anfonodd am fwy
 O wych nerth a chynorthwy ;
 Er rhoi un myg, gynyg gwych,
 Trwy ymwiad tra mawrwych,

Mynai brawf eto mewn brē
O'i wymp eres gampwri.

Wele 'i anwar lu hynod
Ar hyd y dwfr wedi d'od ;
A llongau 'n llawn arfau oedd
Ofnadwy,—cryf iawn ydoedd ;
Llu Ffraingc a Spaen yma 'n awr
Yn un dorf, mewn gwfn dirfawr ;
Ac wele 'n awr ddigiliaw
Lŷon dreng ar y lân draw ;
Afrifawl dyrfa ryfedd,
Llidiawg wŷr tanllyd eu gwedd.

O ! le perygl, Pa wron
Safai 'n awr dros y fan hon ?
Pa ryw fron greulon heb gryd,
Safai yno dros funyd ?
Ha, dacw ELIOTT, dêg galon,
Heb rus yn barod ger bron,
A'r ychydig warchawdwyr
Wrth ei law yn nerthawl wŷr :
Dych'mygaf wel'd chwim agwedd
Y ddwy gâd mor wrdd eu gwedd,
Ar foreu 'n dechreu 'n ddi dawl,
Ymosod yn rymasawl,
A'u golwg ar eu gilydd,
Mewn llid am enill y dydd.

Dyma 'r ddwygâd mor ddigoll,
I'w bwriad yn barod oll ;
Dyna hwy 'n ergydio 'n wyllt,
Yn eu hagwedd ffyrnigwyllt ;
O fyd tôst ! yr arfau tân
Mor fhwng yn gollwng allan

Bob aeliad y byw belau,
 Fal y mellt yn cyflym wau ;
 Pa iaith ddarluniai 'r poethion
 Beleni heb ri' ger bron,
 Deflid mor danbaid hyflym,
 O'r hen graig, mewn ffyrnig rym ?
 O! y sŵn ymrysonawg,
 A mawr rwysg oedd yma rhawg!
 Brwydro 'n ddi-ildio, gan ddal
 O'r ddeutu mor ddiatal,
 Y trymion fegnwl tramawr,
 Yn eu llawn nerth oll yn awr ;
 Twrf enbyd drwy 'r boethlyd bau,
 Ar unwaith fal taranau,
 Nes siglai 'r graig, hirgraig hon,
 Rhawg wedi rhoi ergydion ;
 Eu rhŷ 'n chwynn ai ar un chwâ,
 Hyd lysoedd Andalusia,
 A'u mawr dwrf dros y môr dig,
 Rhoi gyffraw—rhwygai Affrig.

Ys trynhau wnai 'r storm o hyd,
 A chryfach yr âi hefyd ;
 Gelynyon llymion yn llu,
 Trwy ingoedd mawr yn trengu,
 Gwaed dan eu traed yn y tro,
 Mal afon yn trwm lifo ;
 A'r holl waed yn troi y'llif
 Eigionllawn yn goch genllif ;
 Llongau 'n clecian dan y dig
 Ergydion yn rhwygedig ;
 Rhai eraill ar wâr y lli',
 Heb yr un o'i hwylbreni,
 Yn ysigaw nes agor,
 Yn ddarnau fyrdd i'r hen fôr ;

A'u taclau o'u rhwymau 'n rhydd,
I'w gweled draws eu gilydd.

O ! wres enbyd creision-boeth,
Ac arteithiau 'r pelau poeth !
Ac O ! MORENO* a'i rym,
Yn mrig afwydd mor gyflym !
Llong ysig y Llyngesydd,
Oll ar dân, yn colli 'r dydd ;
Ar ol hon, eraill ar led,
Yn dangos yr un dynged ;
Chwap eilwaith lluchiai pylawr,
Brenau fil i'r wybren fawr ;
Llaw dinystr yn lledaenu
Erchylldod a difrod du,
A chyffro byw yn mhob man,
Nes synai mynwes anian ;
Er rhoi 'r peirianau ar waith,
I geisio huddo 'r oddaith,
Nid oedd ataliad iddo
Un gradd ar ei angerdd o ;
Ai yr eirias mor orwyllt,
Gan ferwi 'r llif,—genllif gwyllt !
Amhwyllai, fflamiai allan,—
Lledai ei ddychrynllyd dân ;
Y môr agwrdd ymrwygai,
Och ! i gyd mor guchiawg ai !
A chau a wnaeth entrych ne'
Gan niwl a mwg anaele.

O ! 'r distryw mawr dwysdrwm oedd
Yma 'n toi y mynteioedd ;
Dyryswch du arosol
Yn y gâd, yn mdaen ac ol ;

* Spanish Admiral.

Pawb un ddrych, y gwych a'r gwan,
 Yn nghanol angeu 'i hunan,
 Yn rhoddi pob arwyddion
 O'r gwae a'r braw mawr ger bron,
 Rhai 'n sŷn ar derfyn y daith,
 A'u gwaedd o ganol goddaith;
 Ac eraill yn mhob cyrion
 Yn llu 'n ymdagu 'n y dôn;
 A chanoedd mewn trychineb
 Yn trengu, na wybu neb;
 Pob cyfyngder briwder bron
 A lanwai y gelynion,
 Wrth eu gweled, drymed dro,
 Tro 'i ELLIOTT draw i wylo;
 O! aflwyddiant, siomiant sŷn,
 Er galar a gai 'r gelyn;
 Iê, daeth dinystr yn dô,
 Am wroniaid MORENO;
 Troes mantol buddugoliaeth,
 Eto o du ELLIOTT y daeth,
 Gorchfygodd, trechodd eu trais
 O amgylch, a'u holl ymgais.
 Esponiai i'r Ysphaenwyr,
 Ar fyr dro fawrhydri 'i wŷr;
 Gwnai 'r cyngreirwyr, bleidwyr blwng,
 I'w rymusder ymostwng;
 Rho'es derfyniad ofnadwy
 Ar eu bôst a'u hymffrost hwy.

Wele wychder, glewder glain,
 Hen Gadfridawg da i Frydain;
 Un gaed mor anghydmawwl,
 O feddwl hŷf, ddaliai hawl,
 Diffynai, daliai, fal dyn,
 Ar yr iawnder, er undyn.

Safai'n wych, nis ofnai wae,
 Yn yr erchyll hir warchae;
 Er iawn lwydd arweinai 'i lu,
 I'w uchel efelychu,
 A'i drefniant o fwyniant fu
 I'w wych edlym warchawdla,—
 Ei ofal dyfal a doeth,
 A'i lywyddiad goleuddoeth,
 A'i lewyrch ar ei luoedd,
 Gorhoff, tuhwnt angrafft oedd,
 Ar ei eres arwryd,
 A'i synwyr bân, synai'r byd.

Wele bur haul y borau,
 Heb un cwmwl gorddwl gau;
 Pob siriolder gloywder glân,
 Urddunawl ar wedd anian.
 Newydd wedd heddyw a ddaeth,
 I chwifiaw goruchafiaeth;
 Gwên a mawl gan y miloedd,
 Tra llon ar Gibraltar oedd;
 A'u swynawl glod yn seinio,
 Gan adsain drwy Frydain fro;
 Doniau fyrdd ar dân o fawl,
 I'r gwron tra rhagorawl.

Ar ei hyglood ddyfodiad,
 Yn ol i'w lon, anwyl wlad,
 Troi'r Senedd ffloywedd yn ffwch
 I dalu ei dyiolwch;
 Gwrid o serch gariadus oedd
 Tra llawen trwy y lluoedd;
 Pob serchóg, gwresog groesaw,
 Heb ball oedd iddo bob llaw;
 Pob mynwes oedd gynnes gu
 At ELLIOTT yn mhob teulu;

Ein gwlad oll, fal goleu dydd
A lanwyd o lawenydd.

Arbed y fan, i'r byd fu
Yn achos llawenychu ;
Yn awr ei Frenin eirioes
Wobrwyai 'i rin, bri a roes ;
Dyrchai 'i was mewn urddas nod,
Yn Arglwydd Heathfield fawrglod,
Yn mrig y Bendefigaeth,
Am y gamp benignamp wnaeth.

Tra fo i wroniaid dêr fawl,
A'u henwau yn enciniawl,
Saif hanes gynes ar g'oedd
Am ELIOTT goruwch miloedd,
Iâ, deil ei barch dilyth
Hyd tra bo GIBRALTAER byth.

COFFADWRIAETH AM Y DR. MORGAN,

ESGOB LLANELWY, A CHYFIEITHYDD Y BIBL CYMREIG.

(*Buddugol yn Eisteddfod Rhuddlan, 1850*).

FY Ngwalia dêg ! fy ngwlad iach,
Erioed ni fu 'th hyfrydach ;
Dy lenyrc'h fu 'n adloni
Llygaid ein hynafiaid ni.
O ! hoffaf ddedwyddaf dir,
Dy glod drwy 'r byd a gludir :
Er dy fri, ce'st ar dy fron,
Do, fagu pendefigion.

Bu it' feibion gwychion gynt,
 Yn eu dydd hynod oeddynt.
 Bro dæg! ar dy lwybrau di
 Y rhodiodd gwir fawrhydi.
 Daeth athroniaeth a rhinwedd
 Yn achles i'th uchel sedd.
 Rhodded Iôr ei wedd dirion,
 Rhoed im' hwyl yr egwyl hon,
 I ddwyn i gof ddoniau gŵr,
 Ddetholedig ddoeth wladwr:
 Y Doctor GWILYM MORGAN,
 Athraw ei oes, wnaeth ei ran
 O les i'w gydgenedl, oedd
 Yn mhellderau mallt diroedd;
 Fe roes, er ei fythol fri,
 Wasanaeth ei oes ini;
 Gweini er mawr ogonedd
 Ei Dduw a'i wlad oedd ei wledd.

Cyn i wawl y dwyfawl dân
 Draw o wyll ddiri allan,
 Mor wael dan dramawr helynt,
 Dan ei gwarth oedd Prydain gynt!
 Pabyddiaeth gaeth, hagr ei gwedd,
 A'i dwylaw 'n llawn dialedd,
 A hyf ddaliodd feddyliau
 Ein gwlad oll dan galed iau.
 Mal y sarph drwy ei haml swyn,
 Ar gannoedd bwriai 'i gwenwyn,
 Ac yna marweidd-dra hir
 Fu ar hyd yr holl frodir;
 A dawn y wlad fu dan len,
 Bu nos hir heb un seren;
 Ond drwy lād Duw Iôr o'i lys
 A wenai ar ein Hynys:

Fe ddygai'r hyf ddiwygiwr
 WYCLIFFE i'r byd, danllyd *r :
 Un oedd ef fal seren ddydd,
 Nodi wnai gyfnod newydd.
 Yna TYNDAL ddyfal ddaeth
 Yn adlwydd i'w genedlaeth.
 A CHOVERDALE wych hefyd,
 Ymröai i bwnc mawr y byd :
 A rhoi a wnaent Air ein Hiöm
 Yn rasusawl i'r Saeson.

Ond nifwl hyd y nefoedd,
 A mawr wyll dros Gymru oedd ;
 Ei meib a gaed yn mhob gwedd
 Yn gwaetu 'n ddiymgeledd ;
 A chwaeth yr oes, anfoes oedd,
 Ac yn is na'r cynoesoedd—
 Nad oedd gan luoedd y wlad
 At addysg un tueddiad ;
 Dilyn ffug chwedleuon fföl,
 Dan awydd hud annuwiol ;
 A magu dychymygion
 Aml eu twyll wnai 'n mamwlad hon :
 A mawrion, glewion ein gwlad,
 Oeddynt heb un tueddiad
 I roddi at unrhyw ddysg,
 I gyrhaeddyd gwir addysg,
 Gan adael y genedl hon
 Yn ng'winedd llym angenion,
 Heb yr un llyfr bron i'w llaw,
 A thueddiad coeth iddaw :
 Ein hanwyl iaith gynhenid,
 Gan falchder llawer a'u lliid,
 A fu dan nych mynych maith,
 Ar ddibyn bro ddiobaith,

Yn edwi mewn dinoddedd,
Yn ddibarch ar radd y bedd.

Ond O !'r hynod drueni !
Wele 'n awr ein cenedl ni
Mewn da wae mwy andwyol,
Yn filiwn gwaeth flaen ac ol ;
Mor aethus resynus oedd
Yma i weled y miloedd,
Egwyl hir, heb gael i'w hiaith
Dêg gofrestr Duw a'i gyfraith ;
Gair y bywyd o hyd oedd
Glöedig, a'i oludocedd
Megys ffynnawn lawn o les,
A meini 'n cuddio 'i mynwes ;
Neu fel haul o nefol wên
Yn ol tuhwt i'r niwlen,
Na allai 'r Cymry 'n hollawl
Wel'd yr un pelydr o wawl,
A phob cwr mewn cyflwr caeth
Enbydus anwybodaeth.

Ond am ein gwlad, mewn gwael wedd,
Hedai sôn hyd y Senedd,
Nes i'w kenaid resynu
Uwch y dwfa dywyllwch du.
Hynaws fu 'r Frenhines fâd,
Iaith amlwg roes i'w theimlad,
A gwnai bob rhyw egnion
I erlid twyll o'r wlad hon,
Trwy fynu lles, trefn a llwydd,
A llyfrau, 'n lle gwyll afrwydd ;
A bu i SALSBRI 'n llawn sêl
Dros ei gydwladwyr isel ;
Lafurio'n hael ei fwriad,
Gan geisio goleuo'i wlad :

O hono' i hun fe wnai ef
Ei ran dros air y wiwnef.

MORGAN ddoeth, ŵr mawr gan Dduw,
Hardd gerddwr ffordd y Gwir-Dduw,
Ti yw y gŵr teg o wedd,
O ganol llwythau Gwynedd,
Ddewisai dy Dduw osawd,
Er dy lwydd, dros Gymru dlawd,
Pr gwaith o faith gyfieithu
Y Bibl llawn i bawb o'i llu.

Rhagluniaeth Iôr, glân a thêg,
Erioed a ŵyr ei hadeg:
Gwyliawg oedd a'i golwg ar
Le dinod o wlad anwar,
I gwnu er gogoniant,
Wr o nerth, o Ewybr Nant,
I ddwyn ei MORGAN ryw ddydd
O'r lle hwn er llawenydd,
I gynnal pwys Eglwys Iôn,
Yn y dyrys flinderion;
Megys Moses gynes gân,
Lywiau i genedl i Ganaan,
Ac a roed i'w gwaredu
Mewn amser o'r dyfnder du;
Ac yn hyf, yn gryf mewn gras,
Yn lew o nerth Elias;
Dyn i'w wlad, yn hael ei wedd,
I'w hadferyd i fawredd.

Ti, Ewybr Nant, bri yn wir
Fyth gefaist, mwy fe 'th gofir;
Ce'st fagu i Gymru gain
Gywir ŵr i'w gwir arwain;
O'i herwydd ef cai hir ddal
Dyddordeb, ddedwydd ardal:

Hen le ! mae 'n dda gan luon
 Roi difyr hynt ar dy fron ;
 A sôn am y gwron gwyh
 O fewn dy gaerau 'n fynych.
 Mwynder hoff yw myn'd i'r hen
 Fynyddig drigfan addien,
 I wel'd y man y ganed
 Araul ŵr mae 'i fawl ar led,
 A chael mewn mwynwych helynt
 Wel'd llwybrau ei gamrau gynt ;
 Hen drigle Awdwr hygiod,
 Er ei fwyn caffed hir fod.

Am egwyl dychymygaf
 Ei weled dan nodedd Naf,
 Yn iach gynnar fachgenyn,
 A'i braidd hyd y llwybrau hyn ;
 Ac yna y bu ganwaith
 Ar ael y fron siriol fraith,
 Fal Dafydd, fugeilydd gynt,
 Yn hwylus yn ei helynt,
 Wrth arwain yn gain ar g'oedd
 Y dilyn ddiadelloedd ;
 A chynes serch yn y swydd,
 Yn oedran diniweidrwydd.
 Llawer munyd hyfryd iawn
 A dreuliai ef yn drylawn,
 Gan arfer ei gynhyrfiol
 Orwech ddawn goruwch y ddôl :
 Dadganai, areithiai 'n rhydd
 Yn ei ieuanc lawn awydd ;
 A'i farddol, fugeiliol gân,
 Fwyn swynai fynwes anian ;
 Troi hefyd at yr afon,
 A chydrodio hefo hon

Wnai ef yn ei gartref gwych,
 Er mwyniant, yn dra mynych :
 Ymfawrhau mewn myfyr rhydd
 Hyd ei glân goediog lënydd,
 A chôr mwyn y llwyn gerllaw
 Yn grasol seinio 'i groesaw.
 Boreu gwanwyn brig einioes,
 Dilynai fyd o lân foes,
 Fel y dewis flodeuyn,
 A'i arogl iach ar y glÿn ;
 Aiddgar oedd i gyrhaeddyd
 Gwybodaeth helaeth o hyd ;
 A'i wawl boreuawl heb rus
 Gynnyddai 'n ogoneddus ;
 A threfn Rhagluniaeth yr Iôr
 Ddi w̄g wnai iddo agor
 Holl ddorau dyfnderau dysg,
 Gwreiddiai ef mewn gwir addysg,
 Nes cyrhaedd y ddysg orau
 A fedd ein prif athrofâu.
 Yn Nghaergrawnt, dringai 'r gŵr hwn
 Am olud dysg, uwch miliwn ;
 A chalon hyf chwilio wnaeth
 Holl neuaddau llenyddiaeth ;
 Yno 'n myfyrio o'i fodd,
 At wraidd pob iaith y treiddiodd :
 Y *Galdaeg* a'i golud oedd
 Yn llaw ei fawr alluoedd ;
 Gwelai drefn yr hyglood *Ryno*,
 A llwybrau 'r dywell *Ebryno* ;
 Rhin y dëg *Ladin* ddadglodd,
 A'r *Syriaeg* a drysorodd.
 Parotoi 'r oedd Duw 'r pryd hyn
 Ei hoff w̄r yn offeryn
 I wneyd y gwaith hynodawl
 Oedd iddo 'n fudd—i Dduw 'n fawl,

Wedi hyn, er dywenydd,
 A pharch i Awdwr ei ffydd,
 Rhoddai arwydd hardd eirioes
 O'i ffydd gref—hoffodd y Groes ;
 A safai i'r Eglwys fâd
 Oll yn hardd mewn llawn urddiad,
 Dan eneiniaid unionaf
 O briod nerth Ysbryd Naf.
 Llafurio 'n effro a wnaeth
 Yn ei dæg weinidogaeth,
 Gan ddechreu dwyn goleu gwych
 I mewn i Drallwm anwyoh ;
 A chadr yn Llanrhaiadr rhoes
 O'i brif fawredd brawf eirioes ;
 Yno yn nerth doniau Naf
 Y gwnaeth ei egni eithaf ;
 Ei sawrwaith mawraf eres
 A fu i'w wlad yn brif lea,
 A'i rin yn Llanfyllin fu
 Yn llâd iawn yn lledaenu,
 Byw i'w Iôn, achub enaid
 Oedd ei bwnc byth yn ddi baid.

Er gwrthasafiad anfad wŷr
 Hudoledig gydwladwyr,
 A chyffroi ffol blwyfolion,
 Gariai frath i'w gywir fron,
 I'r maes aeth mewn grym a sêl
 At yr achos tra uchel,
 A pharhau 'n effro o hyd
 Y bu am Air y Bywyd
 I ran y Cymro uniaith,
 Bu 'n ymdrechgar gyda'r gwaith ;
 A hygar fu gwŷr o fawl
 I'w noddi ef yn haeddawl.

Wele 'n awr yn gyflawn oll
 Ei ddeg gyfieithiad digoll,
 Ac ef yn *gyntaf* hefyd
 Dro'i 'r ddwyfol gyfrol i gyd
 O'r wreiddiol ddyeithrol iaith
 Yma i'r hen Omeriaith.
 Buan y daeth bendithion
 Hynod drwy yr antur hon ;
 Dydd eres a dyddorawl
 Ydoedd hwn, & dedwydd wawl ;
 Dydd llewyrh dyddiau llawen,
 Goleu Haul uwch Gwalia hên.
 Dedwydd gyfnewidiadau
 Yn mhlith y llu fu 'n amlhau ;
 Gair ein Duw gai wrandawiad
 Mewn rhyfedd, rhyfedd fawrhâd ;
 Tân y Gair tywynawg oedd
 Yn cynneu 'n mynwes cannoedd ;
 A dygodd rym diwygiad,
 Gan lenwi Eglwysi 'n gwlad.
 A llaw Duw yn neillduol
 Wedi hyn fu 'n gwneud ei hól ;
 'E fu hon yn adfywhâd
 O rew yr oer ddirywiad,
 Er agor maes i'r Gair mwy
 I dd'od yn gyrhaeddadwy ;
 A chan agor chwaneu
 Bendith at fendith a fu,
 I'r tylodion gwaelion gael
 Y fath gyfoeth i'w gafael—
 Trysor mād anmhrisiadwy,
 Yn eu plith, pa fendith fwy ?

Y gwyll a'i erchyll orchudd,
 Fu 'n parhau yn annhrefn prudd,

Giliai i'r goleu eirian
 Lewyrchu i Gymru 'n gân,
 Fal yr heulwen ysblenydd,
 Llawn o dân, yn llunio dydd,
 Nes yw 'n awr yn ein hoes ni
 Mor lawn o'r mawr oleuni :
 A chedyrn ymdrechiadau
 Pur o hyd sydd yn parhau,
 I Air Duw a'i hyfryd wawl
 Daenu yn gyffredinawl,
 At alwadau tylodion
 Yn mhob gwlad, drwy rad yr Ion.

O! gymwynas urddasol,
 Ni fydd ei heilydd o'i hol ;
 Gwir waith o fri gwerthfawr oedd,
 Er llesiant i'r holl oesoedd :
 Am ei enwog gymwynas,
 A'i lafur o haelfawr ras,
 Buan rhoed pob anrhydedd
 I urddo 'n gwron teg wedd ;
 A'r hen enwog Frenhines,
 Dan fâd ddylanwad ei les,
 A'i air da, yn hwyr ei dydd,
 A godai 'n prif ddysgawdydd
 I'r Esgobol, swyddol sedd,
 I goroni gwir rinwedd ;
 Am hyn trwy bob man y trig
 Ei chlod yn ucheledig.
 Wele ddoniol dduwinydd,
 Heb drais, o gydwybod rydd,
 A theilwng fu 'i etholiaeth
 Am yr hyn i Gymru wnaeth ;
 Llanwai ei swydd yn llawn sêl
 Yn achos yr Iôn uchel :

Ond mil mwy o wobrwyn wir
 Gai i'w gydwybod gywir,
 Yma iddo ddwyn moddion,
 Drwy law yr Anfeidrol Iôn,
 At agoryd teg eirioes
 Ffordd rydd i grefydd y groes.

Bu'n Esgob uchel o'baith
 Yn llaw Duw drwy ei holl daith:
 Yn Llandaff ei argraff oedd,
 Er ei foliant, ar filoedd ;
 A bu yn ddrych gwych o'r gwaith
 Yn Llanelwy'n llawn eilwaith ;
 Rhoddai enwog urdduniant
 Ar y swydd, orddysglaer sant :
 Dyn i'w wlad anwyl ydoedd,
 Angel yr efengyl oedd,
 Ddygai i'w fro gaddugawl
 Allwedd i gudd gelloedd gwawl.

Ond er hyn, ein Hawdwr aeth
 I'r gweryd diragoriaeth !
 Ti, dawl Fynwent Elwy,
 O dy fewn ni roed ei fwy.
 MORGAN wych ! ŵr haelwych rhydd,
 Aneisor gymwynasydd,
 Gresyndod ddarfod dy ddydd
 Ar ganol dy fawr gynnydd !
 Ac ow ! na roesai Gwynedd,
 Er dy fwyn, faen ar dy fedd !
 Ac ow ! na chefaist ti gan
 Dy anwyl fro dy hunan
 Un gyfeiriol gofarwydd
 O'th farwol le, a'th fawr lwydd !
 Ond dy faith fawrwaith a fydd
 Ar dy ol, ŵr dieilydd :

Ti gyfodaist gofadaid
 Dy hun, na syfla ei sail :
 A thra bo'r iaith a'r Brython
 Oll i fawrhau Llyfr eu Hiôn,
 Dy gofion, wron araul,
 A fydd hoff tra fyddo haul.

O! yr hyf angau rhyfedd !
 Dy law byth sy'n dal y bedd !
 Pwy sydd yn gwybod pa sawl
 Mawreddog Gymro haeddawl
 Ddiosgaist, gan ei ddisgyn
 Dan glo cadwynau y glyn !
 Ond daw adeg dattodir
 Holl gloion dyfnion dy dir ;
 A daw MORGAN lân o lwch
 Y gweryd mewn hawddgarwch,
 Efo'r dorf hyfryd erfawr,
 A'i ddwyfol wedd fel y wawr ;
 A'i fawl yn rhyfeddawl fydd
 Yn y lan drigfan lonydd,
 I'w fendigedig Geidwad
 Am ddwyn trefn maddeuant rhad.

COFFADWRIAETH AM ROBERT AB GWILYM
 DDU O EIFION.

(*Buddugol yn Eisteddfod Madog, 1851*).

A MI gan gyni yn gaeth,
 Rhyw foreu, 'n fawr fy hiraeth,
 Symudais, megis meudwy,
 Fa'i 'n gul ei wedd, dan ddwfn glwy ;
 Esgynais, gan ddwys gwyno,
 I iach fryn, goruwch y fro ;

O sw'n y byd camsyniol,
 A'i finion drafferthion ffol ;
 Yno'r haul dywynai'n rhydd
 Ar fynwes tir Eifionydd ;
 Adar cerdd yn cyd roi cân,
 A gwyneb serchog anian,
 A'i theg wên a'i chyfoeth gwych,
 Dan ei hurddiant, yn harddwych ;
 A'i chwiwiawl ysgeifn chwäon
 Yn chwarau ar frigau'r fron.—
 Ond er yr olwg dirion,
 A chathlau y lleisiau llon,
 Tremiai hiraeth trwm, marwol,
 Y dydd hwn, i'r dyddiau'n ol ;
 Eifion deg, er dy fwyn di,
 Yr wylwn ddagrau heli ;
 Brodir iach lle bu hir drig
 Ein hen dadau nodedig ;
 Dillynaf gwmwd llonydd
 Fu'n Athen yr awen rydd ;
 Ond yn awr newid a wnaeth,
 Yr olwg er mawr alaeth ;
 Am dy feirdd, trwm yw dy fyd,
 Diweddodd dy ddedwyddy ;
 Dy DDEWI bur ydoedd ben,
 A bri holl feib yr awen,
 Roed yn gaeth, yn awr, dan gel
 Yn y du fedd yn dawel ;
 Arwron, ddawn eryrawl,
 Ai fry i gudd fro y gwawl,
 Ac a'i rywiog oroian,
 Awdur dewr, rhoi'r byd ar dân :
 Ei ddawn ddihsbydd, enwyllt,
 Hydrawg oedd fal rhaiadr gwyllt,
 Neu daran ffroch, a'i chroch ru,
 Yn erfawr ymgynhyrfu.

A PHEDR FARDD, hoff awdwr fu,
 Yn ogoniant i 'th ganu ;
 Er ei enwog, fawr rinwedd,
 Dirym yw, daear a'i medd ;
 Gwr feddiannodd gryf ddoniau
 Yr awen wir i'w hiawn wau ;
 A thêr fardd ysgrythyrol,
 Cywir fu—caraf ei ol.
 O! fy unig Eifionydd,
 Saeth ar ol saeth, iti sydd,
 Dy ROBERT, awdwr hybarch,
 Oedd uwch law beirdd, uchel barch,
 Yr hynaf fardd, drwy Wynedd,
 A'i ddawn fwyn, sydd yn ei fedd,
 Adsain per ei dyner dôn
 Angelaidd swynai 'ngalon.

Cyn i gyf-ddydd ei ddydd o,
 O'r dwyrain hyfryd wawrio,
 Nid oedd fawr o ddedwydd feirdd,
 Yn gryfion o'n goreufeirdd,—
 Agorwyd teg wawriad dydd
 O fwyniant i Eifionydd ;
 A rhin y glaer awen glws,
 Heb atal, âi i'r Betws,
 A'i hurddas, hardd dduwies hen,
 Arwedda'i'n hawdwr addien ;
 Ei heneiniad, drwy fad fodd,
 Ar ei ben a dderbyniodd ;
 A delw ac ysbrydoliaeth,
 A rhinwedd hon arno ddaeth ;
 A thân ei dawn, raslawn rodd,
 Yn ei enaid enynodd
 Yna, 'n nghychwynfa 'i wych oes,
 Hyd wanwyn hyfryd einioes,

Ei dyner, frwd awenydd,
 A'i gwrid iach fal gwawr y dydd,
 Foreu a hwyr, fu'n ymfawrhau ;
 Addurn oedd i'w rinweddau.
 Ofer a fu i'w riaint
 Geisio difrio 'i fraint,
 A rhoi atalfa, 'n mhob rhith,
 Ar oleu ei athrylith ;
 A bwrw ei ddawn beraidd o,
 A'i chyngan i lwch ango' :
 Ai ym mlaen, gan ymlenwi
 A phleser^u i'w harfer hi,
 Yn ei ddysg ar gynydd aeth,
 Trwy gyrhaedd at ragoriaeth ;
 A dygai 'i gân deg ei gwedd,
 Brawf eirian, o brif fawredd ;
 Yna 'n ddyn, talddyn cryf teg,
 Newidiai yn ei adeg ;
 A'i delaid lygaid dulas
 Yn dwyn gwir ôl dawn a gras ;
 A gwedd yn dwyn delw a gwawl
 O fawredd syn myfyriawl.—

Ei weled dybiaf, eilwaith,
 Yn rhodio, myfyrio 'n faith,
 Yn dilyn hyd lanau iach,
 A difyr afon Dwyfach,
 A'i rhydd a glwys ddyfroedd glân
 Ar rywiog wely o raian,
 A'i pharhaus si 'n cyffroi 'i serch,
 Hyd lenydd hyfryd lanerch ;
 Prydyddwyr per, a dyddan,
 Y llwyni coed, yn llawn cân ;
 A'r rywiog, dyner awel
 Yn dwyn eu mwyn dônau mel,

Anian lawn, a'i hunol lu,
 Megis yn ymgusanu—
 Fal hyn, bu'n dilyn ei daith,
 Yn gynes yno, gànwaith—
 A'i le siriawl fal Saron
 A swynai 'i lwys awen lon.

Ffrwyth ei ddawn, drylawn ei drych,
 A anfonai, yn fynych,
 I'r Seren (a)—a'i thrysorau
 Gai'r byd eu hyfryd fwynhau ;
 A thân ei goeth awenydd
 Yn aros yn eirias sydd—
 A diwyd fu, uwch llu 'n llawn,
 Yn treulio blwyddi trylawn,
 Yn llon amaethon, llawn mawl,
 Yn ei dyddyn dedwyddawl,
 Yn byw'n gu, heb unrhyw aeth,
 Yn ei deulu dialaeth ;
 A gwên Rhagluniaeth a'i gwawl
 Oedd arno yn addurnawl.
 Yr oedd gwledd trugaredd gu,
 A chân yn ei gylchynu :
 A chyrchu wnai llu yn llon
 Ar ofwy i fro Eifion,
 Yn fynych, i edrych am
 Y doniol fydrydd dinam ;
 Mor iach, yn cyfeillachu,
 Fyddai ef a DAFYDD DDU ;
 Dau ddyddan, dedwydd oeddynt
 Yn nyddiau eu gwyliau gynt ;
 Yn trin y iaith, trwy iawn wedd,
 A thrafod ei nerth rhyfedd ;

(a) Seren Gomez.

A thrin gwaith yr enwog wyr
 Profedig, a'n prif awdwyr,
 A gwres cynes eu canu
 I'r wlad, yn adfywiad fu.

Ha! brif ŵr, bu, er ei fawl,
 A'i ddywenydd barddonawl,
 Yn arwain awen eirioes
 DEWI WYN ym mlodau'i oes,
 Dau gymydog yno, gynt,
 Mor ddyddan, uwch myrdd oeddynt;
 A PHEDE FARDÐ hyfedr hefyd,
 Yn nechreu ei foreu fyd,
 Hoffai rym ei awen ffraeth,
 A rhinwedd ei hathroniaeth;
 GWYNDAF (*b*) a CHAWEDAF, (*c*) wych ŵr,
 A PHERIS, (*d*) dreiddgraff arwr.
 IONAWR, (*e*) danllyd awenydd,
 A SION LL'YN (*f*) ddiachlyn ei ddydd,
 Ac IEUAN (*g*) deg a HYWEL, (*h*)
 A'r tyner SANDERS (*i*) lawn sêl
 Oll oeddynt gyfeill iddo,
 Yn nwf'n serch ei fynwes o,
 A haeddol awdwyr heddyw
 A llu o heirdd feirdd sy'n fyw,
 Hoffent hen Seraff ein tir,
 A'i glod ef ganddynt gludir.

Ei briod, hyglood ei hoes,
 Ddyddanai ddydd ei einioes,
 Ac er lles, agorai 'i llaw,
 I roi grasol wir groesaw,
 Drwy siriol, hyfrydol fryd,
 I bawb yno bob enyd;

*b*Gwyndaf Eryri. *c* Gwilym Cawrdaf. *d* Gutyn Peris. *e* Dafydd
 Ionawr. *f* Sion Lleyn. *g* Ieuan Lleyn. *h* Hywel Eryri. *i* Dafydd
 Sanders.

Ni rodd bro, o'i gwraidd i'w brig,
 Wraig, erioed, mor garedig,
 Ac mor hoff o Gymru hen,
 A'i hyawdl iaith a'i hawen.

Och! Chwith yw cyrchu, weithian,
 At ei dŷ a deutu 'i dân,
 I gael lles, nag un gwawl llon,
 O'i ddoniawl ymddyddanion ;
 Er ein braint, rho'i ger ein bron,
 Raddau a threfn Derwyddon ;
 Ac enwog lwythau Gwynedd
 A'u helynt, gynt, yn mhob gwedd ;
 A chwiliai i hen achau 'i wlad,
 At eu hurddas a'u tarddiad ;
 Sylwai ar wreiddiau seiliol
 Yr iaith, ei heffaith a'i hol,
 A chywrain eglurai 'n glau
 Lawn, fythol benafiaethau.
 Fe ddygai, yn fuddugawl,
 Wybodaeth helaeth i'w hawl ;
 Goleu rhydd i eglurhan
 Iaith wir yr Ysgrythyrau ;
 Esboniai, a dygai 'n deg,
 Bur wyddiant, ar bob broddeg ;
 Pob pennod ac adnod oedd
 Yn llaw ei fawr alluoedd ;
 Ac o'i flaen ef, gyflawn wr,
 Dwl wywai pob dadleuwr.

Pan fai beirddion, waelion wyr,
 A'r gwamal ffol rigymwyr,
 Yn ofera'n wag fwriad,
 Ac yn prysur lygru'r wlad—
 Rhag eu hafiach ddrwg ofwy,
 A'u holl gyfeillachau hwy,

Yn dawel ymneillduodd
 I fysg rhai f'ai wrth ei fodd :
 A rhodiai mewn ysbryd mawl
 Drwy faesydd daear foesawl ;
 Rhodio efo rhai difoes,
 Ni fynai ef, yn ei oes ;
 Cashâf rodres, gormes gaeth,
 Roddai niwl ar ddynoliaeth—
 Dyn ydoedd yn dwyn nodau
 Graslawn i'w ffyddlawn goffhau.—
 Degau o Weinidogion,
 Blin eu taith, anwyl-blant Ion,
 A gawsant ganddo gysur,
 A glân barch, o galon bur ;
 Gwir groesaw, gwresawg a rhydd,
 A derbyniad, ro'i beunydd ;
 Yn mhob gwedd, ymgeledd gu,
 Ei dŷ oedd, i'w dedwyddu ;
 A rhwydd gyfranai 'i roddion,
 O wych sêl, at achos Ion ;
 Chwith i'r fro ei gofio, gynt,
 Yn llawn hwyl, mewn llon helynt,
 Efo'r llu, difyr a llon,
 Egin ter o gantorion ;
 Ganwaith, yn hirfaith arfer,
 Cydleisio, cydbyncio'n ber ;
 Yn seinio mor gysonawl
 Salmau PRYS, felys ei fawl ;
 Rhoi iddynt addysg wreiddiawl
 Am natur mesur pob mawl,
 A'i waith, fal peroriaethydd,
 O leshad i luaws sydd.

Ond byr o hyd i barhau,
 Yw gwawr oes, er pob grasau ;

Angau 'n chwai a honai hawl,
 Ar ei eneth dirionawl,
 Nes gwywo, llwyr gilio 'i gwedd,
 Er galar i argeledd ;
 Ac fal tad hoff, teimladol,
 Yn gaeth, gan hiraeth o'i hol,
 Dyroddai lif dwyrudd wleib
 Ei awenydd brudd wyneb,
 Yn anwyl i eneinio
 Ei henw'n brid yn ein bro ;
 Cofio'r adeg hyfrydol
 Y byddai ar grib y ddôl—
 Cofio 'i gwel'd, ac efo 'i gwaith,
 A'i gwenau siriol ganwaith ;
 Cofio 'i phiano, a'i pher
 Danau yn seinio 'n dyner ;
 Mwyn fiwsig, ei mein fysedd
 Chwareuai 'n gywrain bob gwedd ;
 A'i chofio mewn dyrchafiad,
 Eneth hoff, yn nhŷ ei thad :
 Edrych ei llyfrau mydrol,
 A'i heirdd ysgrifau o'i hol—
 "Chwilio'r celloedd oedd eiddi,
 A chwilio heb ei chael hi,"
 Oedd ofid anoddefol
 I'w daro o hyd ar ei hol.

Syn oedd heb ei Sian, heddyw,
 Ffoes ei lon obeithion byw ;
 Collai ei ferch hyserch, wyl,
 Ei unig eneth anwyl,
 Ddenai 'i fryd, oedd iddo 'n fraint,
 Yn nghanol ing a henaint ;
 Ei lad ddeheulaw ydoedd,
 Ei lygaid a'i enaid oedd ;

A hoffder, mwynder ei mam
 Oedd yn ei beroes ddinam ;
 O bob colled, yn mhob man,
 A gafodd ef yn gyfan,
 Ac uthr brofedigaethau,
 O'i amgylch, a fu 'n ym gau,
 Yn nydd gwae, hon oedd i gyd,
 Y fwyaf yn ei fywyd ;
 Ac i waelawd ei galon
 A'i rhwygiad du 'r ergyd hon.
 Ei brudd Alarnad ger bron,
 Drwy y lliidiawg drallodion,
 A wnaeth mewn alaeth i ni
 Yn dyner gof am dani,
 Wna i'r ddi-freg ddur ddwyfron
 Ddrylliaw 'n hir wrth ddarllen hon ;
 A deil hon tra byddo 'n bod
 Iaith Eifion ar ei thafod.

Ha! ROBERT, fardd arabawl,
 Difyr a fydd dy fawr fawl ;
 Hoff dy gofio, Gymro gwych,
 Uchel awdwr tra chlodwych ;
 "*Gardd Eifion*," yr hon, yr hawg,
 Erys ini 'n rhosynawg ;
 Llawn ardd mewn dillyn urddas,
 O liwdeg wrid, blodau gras ;
 Ac aeron teg yn gorwedd,
 A gwin a ddwg newydd wedd,
 Yn lloni myrdd, yn llawn maeth,
 A da nodd Duwinyddiaeth ;
 I gynal y rhai gweinion,
 A gloewi Saint Eglwys Ion ;
 Llawer Cristion, bron, heb wres
 O fewn ei drymlyd fynwes,

A'i feddwl mewn cwmwl caeth,
 Yn nhrom awyr amheuaeth,
 A'i brofiad, a'i deimlad o,
 Wedi haner edwino,
 A brofai bur gysur gwych
 O'i fwynion odlau 'n fynych;
 A phob cadernid i'w ffydd
 I dawel ddal ei dywydd.

Dyg ei law i Walia wen
 Amrywiol emau 'r awen;
 Rhoi i lawr fawr fyfyrion,
 Y bu am ddoethineb Ion;
 A dygiad ei waith digoll
 Yn creu dyn—a'r cariad oll—
 Ei ddwyfol fawredd hefyd,
 A'i allu heb ball o hyd,
 Yn dyfal gynal ar goedd
 A'i law aneirif luoedd;
 A rhoi lawn brudd ddarluniad,
 O suddiant dwys Adda'n Tad;
 Ac am yr lawn a'r cymod,
 Oedd oddi wrth ei Dduw i dd'od,
 I lu o'i hil gael ail haf,
 Trwy lwyddiant yr ail Addaf;
 Hedai 'i awen dra diwyd,
 Dros oesau'r cysgodau i gyd;
 Ac o feddwl cyfaddas
 Rho'i dro drwy holl drefn rhad ras,
 A myfyriai am fawredd
 Gras Duw oll drwy Grist a'i hedd—
 A gwnai 'i awen gân newydd
 O fuddugawl fawl a fydd
 Gan dyrfa wen, ysblenydd,
 Ddi rif yn cyfodi fydd

Uwch loes i uchel leisiau
 "Iddo Ef," y dydd a ddaw ;
 Darluniai drwy lawenydd,
 Am gydgan, gorioian rydd,
 Y ryfeddol dorf addien
 Y sydd wrth yr Orsedd wen,
 Yn troi o gylch trwy y gwawl
 Ar adenydd trydanawl ;
 Ei brudd enaid barddonol
 A fu 'n hiraethu ar ol
 Ei dra hoff gyfaill di rus
 O Ramoth, awdwr grymus ;
 Hoff dir ei goffadwriaeth
 I ni 'n gysegredig wnaeth,
 A chofion mynych hefyd
 O lwyr barch ro'i nwyllaw'r byd,
 Am lawer drwy brudd-der bron,
 Gymerid i fysg meirwon.
 Ac i eraill, a garai,
 Ddillynion anerochion wnai ;
 A rho'i ef, er ei hir fawl,
 Gywyddau teg a haeddawl ;
 Deil ei deg Awdlau digoll,
 A'i Englynion heirdion oll,
 Yn bur fudd, yn brawf o'i ol,
 O'i gywrain ddawn ragorol.
 Ac o'i holl destynau i gyd
 A garai i'w hagoryd,
 Ac afrif bynciau hyfryd,
 O fawr werth, fu 'n dwyn ei fryd,
 Mynwes gardd Gethsemane—
 Y chwys—y llys, a phob lle—
 Y dirif gyfyngderoedd,
 A'r gwawd a'r dirmyg ar g'oedd,
 Yn mhob dull, gai Mab Duw Ion,
 Yn nwyllaw annuwiolion,

A rhoi y dewr filwyr dig
 I ffosi ei gorph ysig,
 A'i roi ef, fal yr euog,
 I angau, rhwng dau y'nghrog,
 A chofio'r groes a'r loesion,
 O'i fodd, ddyoddefodd ei Ion;
 A'r gwaed oll, drwy'r ergyd a
 Lifeiriodd ar Galfaria,
 Oedd enaid ei ddyddanwch,
 A hoff wledd ei awen fflwch;
 Ei goethlawn, felus gathlau
 Yma'n hir gant eu mwynhau.

Ei ddawn ydoedd ddeniadol,
 Fal afon dirion mewn dôl,
 Yn eirian lithro'n araf,
 O dan heirdd gysgodion haf;
 Dolenai, a delw anian
 Yn glws ar ei gwyneb glân;
 Gweuai dlysog Awdl iesin
 Gwnai newydd Gywydd fal gwin;
 Trwy degwch natur dygai
 Ei oleu bwnc heb ôl bai;
 Ac â chryfder, uchder iaith
 Urddunai ei farddonwaith,
 Yn lân oll, a'i linellau
 Wedi 'u gwych blethedig wau;
 Cloi synwyr, mewn clysineb,
 Yn hynod wnai, 'n anad neb;
 Dawn Seraff, daniai siroedd,
 Y'nghalon ei Englyn oedd.

Wedi amwain hir dymawr
 O'i oes fyw 'n y Betws fawr,
 Deuai cymylog dywydd,
 Iddo ef, yn hwyr ei ddydd,

I'w siomedig symudaw
 O'i hen ddyddan drigfan draw ;
 Yn ei waeledd, mewn alaeth,
 Draw i'r Mynachdy yr aeth ;
 Yno, yn ei benwyni
 Dan goron hyfrydlon fri,
 Adnewyddai dawn addien
 Ein Patriarch hybarch a hên,
 A'i loew awen, fal ôs,
 A ganai yn eigion nôs ;
 Rhoes i fyd, ar ris ei fedd,
 Nefol fyfyriol fawredd.—
 Eilio i ras hael yr Iesu,
 Ei oes faith, yn felys fu ;
 A'i deilwng fyddriad olaf,
 Yn ei oes, a fu i'w Naf.
 Ac yna, mewn gogonedd,
 Yn llawn hwyl a llawen hedd,
 Ei awenydd dywynawl
 A hedai i gu wlad y gwawl.

Ar dy ol, fwyn Athraw da,
 Fy awenydd riddfana ;
 A chystudd prudd sy'n parhau
 Dan wraidd ei llwydion ruddiau ;
 Iê, ôl galar welir
 O fewn dy hen Eifion dir.—
 Wyla doniau'th wlad anwyl,
 A'i thelyn aeth o lawn hwyl ;
 Yn mynwes gynnes Gwynedd,
 Deil dy barch hyd waelod bedd :
 A balch a fydd Cymru byth,
 O'th deilwng weithiau dilyth.

O! borth Cawrdaf* olaf fan,
 Is heulfyd, brudd noswylfan,

* Mynwent Cawrdaf, lle claddwyd ef a'i ferch.

Am unwaith, gad im' anerch,
 Yr hen fardd, a'i dirion ferch;
 Ond ynot ni'm hadwaenir,
 Ar ol d'od i'th farwol dir,
 O'i obry wely olaf,
 Emyn na cherdd, mwyr ni chaf;
 Ni chaf ond gwlychu ei fedd,
 A chwyno uwch ei anedd;
 Treigled deigron afon Erch
 Ar lenydd ei oer lanerch;
 Wylofus awel Eifion
 Chwifio'n awr, uwch y fan hon,
 Gan fynych ddwys gwynfanu
 O herwydd dwyn ei Bardd Du.

Boed iddo huno mewn hedd
 Hyd foreu 'r hyfryd fawredd,
 Pan y cwyd, heb boen nac aeth,
 O waelod bro marwolaeth,
 I lawenydd diflinaw
 Yma ryw ddydd mawr a ddaw;
 I'w weddw lwyr yn nydd ei loes,
 Ar lân ei hwyrol einioes,
 Ei Hion doeth a fyddo 'n Dwr
 A phenaf Amddiffynwr.

CWYN YR AWDWR O HERWYDD CYFANSODDI
 CERDD WAGEDDUS.

Och! awen addien heddyw,
 Neud pechod dy fod yn fyw!
 Haeddianawl, er dy ddoniau,
 Dy yru i gell daear gau:

Gwna i ŵr da a dien,
 Dynu y byd yn ei ben.
 Na dyfod i wneud ofer
 Ganiadau 'n lle pynciau pêr,
 Gwell a f'ai 'th golli o fyd,
 I boeth elfen bytholfyd!

Ŵst! gormod, gormod o gam,
 Cloi ei doniau clau, dinam :
 Gwir syn wyf! gresyn hefyd
 Yw hyn i bêr Fanon byd :
 Morwyn Nêr, dyner ei dawn,
 O gyneddf rywiog uniawn,
 Anhafal ei rhin hyfawr,
 Ddawn wen fwyn, gwna ddyn yn fawr ;
 Pêr yw ei cherdd, par ei chân
 Lawenydd drwy gôl anian.

O'm hamod gwneuthum yma
 Gam beunydd o'i defnydd da ;
 Ei bwrw o'i syw wiwbur sedd,
 Yn forwyn i oferedd!
 Ei boddi, llwyr golli 'i gwedd,
 Yn mrig eigion môr gwagedd.

Dwyre gyne dduwies dda
 Yma 'n ol, a mwyn eilia :
 Yn foreu fy nifyrwech—
 Dy hoff lais, a'th dafod fflwch ;
 A fy anwyl brif fwyniant
 Hyd y dydd yw swm dy dant.

Clod i Dduwdod yn ddi-dawl
 Dy lwyswych odlau oesawl ;
 Hardd sywiawl gerddi Seion,
 I ereshau yr oes hon.

Derfydd bardd o dorfoedd byd,
 Ac â i lawr y cul weryd ;
 Awen firain anfarwol,
 Hed adref i Nef yn ol
 Ynfydrwydd mawr anfeidrawl
 I brydydd roi 'i ddydd i ddiawl,
 Ac i ddi ffawd wagedd ffol
 Ro'i ei ddoniau urddunol.

Minau fu'm wan fy 'menydd,
 A'm hawen deg i'm hun dydd,
 Yn eiliaw heb iawn olwg—
 Annoeth dro yn eitha' drwg—
 I ddyn ifanc oedd nwyfawl
 Foreu 'i oes yn fyr ei wawl ;
 Dwl a distadl ei destun,
 Ehedai i ffwrdd gyda ffun.

Duw fy Ior edifarwyf
 Achos hyn, tra ochus wyf.

Aed ei fydriad i fadru,
 I ingaf dwll anghof du :
 Na ddeued didduw awen
 Yma mwy i mi, Amen ;
 Ond awen fwyn a'i dawn fact
 O gain erfai gynhyrriad ;
 Nefawl ganeuon hyfoes,
 A fydrwyf fi drwy fy oes ;
 Tra'm hawenydd trwy'm heinioes,
 F' unig rym fo Iawn y groes ;
 'E ddaw o hyn ddaioni,
 I fy rhan drwy Dduw, fy Rhi.

Derfydd rhodiaw daearfyd,
 A'i bleserau gau i gyd ;

Af ar fyr i'r difrif fedd,
Fro eres i frau orwedd.

Oferedd ni fyfyriaf,
Troï yn ol o'r tir a wnaſ,
A dychwelyd i chwiliaw
Beth a fydd rhyw ddydd a ddaw :
Cofiaſ 'r wyf y cyfrifir
Fy holl gamrau gau a gwir ;
Geiriau ofer digrefydd
Yn y farn i'm herbyn fydd.

Hyf ymgydiwyf am gadarn
Wiw Noddfa yn nydd y farn ;
Dal gafael, cyn del gofwy,
Yn yr Iawn mawr, yn Nuw mwy ;
Heb ofn y ddofn afon ddu,
A'i llwythawg dòn i'm llethu !

Mwy byddaf fel mab addien,
Trwy iawn barch i'm tirion Ben ;
Byw i Dduw 'r hwn bia ddawn
Fy enaid yn fwy uniawn ;
Byw ronyn mewn ber einioes
I gael gwledd diddiwedd oes ;
Rhoddaf fi reddf fy awen,
I Dduw mawr hyd fedd, Amen.

ANERCHIAD I AB ITHEL.

(Yn y flwyddyn 1859, cynygiwyd gwobr gan Bwyllgor Eisteddfod Corris, am yr Englyn goreu i'r "Cwmwl." Dyfarnwyd y wobr i awdwr y Cywydd canlynol ; ond yr oedd tuallan i gylch y gystadleuaeth. Ar ol yr Eisteddfod, anfonwyd y Cywydd i'r Beirniad).

CHWI AB ITHEL, uchel ŵr
Yw yr addas geryddwr,

A'r goraf wr geir i fod
 Wedi cam i wneyd cymod.
 Yn awr, na chosbwch fi 'n ol
 Fy unig fai awenol,
 Ond rho'wch eich maddeuant rhydd
 Am unwaith i'm hawenydd.

Du, a drwg yw'r byd a'i dro,
 Heb ryddid i'w bereiddio ;
 A nos hir yw'r einioes heb
 Lawnder o win boddlondeb :
 Ystyriwch, gwnewch dosturi,
 Efo 'ch brawd ddyrchafa 'ch bri.
 Ond er hyn, hyd derfyn dydd,
 Myn awen gael man newydd ;
 A throed ei hathrylith rydd
 Ar lydain ddyeithr wledydd.

Rhyw foreu, mewn gwir fawredd,
 Ai yn ei gwisg lân ei gwedd,
 I'r nen, lle mae 'i helfen hi,
 A'i swydd yn urddas iddi :
 Cai olwg ar deg heulwen,
 Dillyn fyd llu y nef wen ;
 Ac amlwg olwg ar gas
 Fro annwn, yn fawr wynias ;
 Ac âi ar aden corwynt
 I oer gell y rhew, a'r gwynt ;—
 Golwg gai ar ddirgelion,
 Gwaith bysedd rhyfedd yr Ion :
 Llon oedd gyda llu y nen,
 Wrth lwybro'r nerthol wybren ;
 Adfywhad iddi fu hyn
 I'w swyno, nes ei henyn
 I gludo uchel glodydd,

Am haul a'i dân, am wawl dydd,
 Am loer, ser, a'u lleufer llon,
 Oruchel danbaid wreichion ;
 Am wyllt dwrf y fflamlyd dân,
 Yn ymdori 'n drom daran,
 Am y llaith gwmwl llwythawg,
 Am wres, a gwynt, ar hynt rhawg,
 Am li y môr, am wlaw mân,
 O bwrs enwog bras anian.

 YR AWEN GYMREIG A'R UN SEISNIG.

(Wrth weled y clod a roddid i ISA CRAIG oherwydd enill o honi y
 webr am y gerdd oreu er coffadwriaeth am ROBERT BURNS).

GWRANDAW Gymru gu, deg wedd,
 Ar uniawn lais gwirionedd ;
 Er fod genyt hynod wŷr
 Yn gedyrn, ddoniawg awdwyr,
 A llawer bardd galluawl
 I'th enw a fydd byth yn fawl ;
 Mae gwleddoedd, mae gwawl addysg,
 Iaith, dawn, gwybodaeth, a dysg,
 Dy awen di a'i bri, bron
 Heb nodedd ein boneddion :
 Ni ro'nt nerth o werth i wan,
 I loni 'i farddawl anian ;
 Na rhith pris am ffrwythau pren
 Y fywiawl irdwf awen ;
 Mae urddau heirdd mawredd hon
 Is sylw ein hurddasolion.
 Mae hi a'i phlant mwyaf fflwch
 Yn y niwl—mewn anialwch ;

Rhaid i'r cyfryw fyw, hyd fedd,
 Ar hanner gwerth eu rhinwedd,
 A marw yn annhymorol,
 Yn resyn i'r oesau 'n ol:
 Diwedda 'u holl dywydd hwy
 Yn yr un bedd a GRONWY!
 Ond awen y Sais diwyd,
 Sydd lon, a boddlon ei byd,
 Mewn hedd, yn mwynhau heddyw
 Ddigon o foddion i fyw ;
 Urddas ar fawredd ei swydd
 Ddodir, i'w gwneyd yn ddedwydd.
 Albanwyr uchel benau
 Am ei rhin wnant ei mawrhau,
 A'i dyrchafu 'n gu ar g'oedd
 O'r lle isaf i'r llysoedd.
 ISA CRAIG, yn ngwres a gwrid
 Ei gwên anwyl gynenid,
 Yn ugain oed enwogodd
 Ei hun â pharch, mewn hoff fodd ;
 Hon gai haner can' gini,
 Am iawn brawf o'i dawn mewn bri ;
 A chafodd ymgyrch hefyd
 Efo beirdd mwyaf y byd,
 Gyda 'i chân o fwynlan fawl,
 I ROBIN BURNS arabawl:
 I ddawn y bardd hwn y bu
 Rhoi dydd o anrhydeddu,—
 Mwyn son am ei enw swynawl,
 Hedai 'n gynt drwy'r byd na gwawl!
 Nes oedd mynwesau heddyw
 O fawl ban yn ufel byw!

MARWNADAU, PENILLION, &c.

MARWNAD

MARY EVANS, merch hynaf Mr. JOHN EVANS, Pentre'r-felin, Eifionydd, yr hon a fu farw Mai 6ed, 1833.

OCH dristyd! ergyd hirgwyn!

Och! dwyn i'r llawr mae angeu mawr;

Ow! torwyd i'r distaw-rfch

Flodeuyn gwych teg wawr!

Mor ryfedd! MARY EVANS,

Oleulan syw, o dir y byw

A yrwyd i lom orwedd

I geufedd marwol gwyw!

Ow MARY, darfa d'yrfa,

Byr fu parhad dy redfa rydd;

Rhoes angeu syn, y teyrn erch tyn

Chwai derfyn ar ei dydd:

Ai yw dyn i flodeuyn,

Neu ryw lysieuyn irlwys wedd—

Y boreu 'n bêr, blodeuol dêr,

Brydnawn yn nyfnder bedd.

Och, angeu llym arswydus!

Echrydus yw i bob dyn byw,

Nid ydyw'r gwycha' i'w erbyn

Ond gwyfyn gwael a gwyw;

Troi 'i gwyneb a'i thirionwch

I lwch daa glo, trwm ydyw'r tro

Yn mlodau 'i dyddiau diddan,

I druan gryd y gro.

Un oleu, gall, anwylaidd,
 I oeraidd rŷch mor foreu roed ;
 Aeth obry i'r bedd yn wael ei gwedd
 Cyn cyrhaedd ugain oed.
 Syrth tegwch hardd blodeuol
 I ddu oer gôl y ddaear gudd ;
 A diwedd pwys pob nychder dwys,
 Yw'r bedd, orphwysfa brudd.

I'w hoff rieni anwyl
 Mae arwyl mawr am guddio gwawr,
 Mewn pruddaidd oeraidd weryd,
 Anhyfryd lychlyd lawr !
 I'w brodyr a'i chwiorydd,
 Carenydd cu, cyfeillion lu,
 Mae dolur a du alar
 O'i rhoi i'r ddaear ddu.

Is haul nid hir preswylodd
 Fry ymaith 'hedodd hi cyn hir,
 A'r babell frau i'r culfedd cau,
 Hyd foreu goleu clir :
 Bydd byth 'r 'ym yn gobeithiau
 Yn seren siriawl nefawl nôd,
 Yn ngwlad y gwawl yn seinio mawr
 Didawl, rhyfeddawl glod.

Adfywia, deilia'r dolydd,
 A'r gwŷdd i gyd yn hardd eu pryd ;
 'R asgellog gôr heb golliant
 Bêr byngciant i Grewr byd ;
 Yr heirddion lwysion lysiau,
 A'r blodau pêr, a wnaeth ein Nêr,
 Yn hollwych ddeuant allan ;
 Tywyna'r huan têr.

Y llwyni 'n syw feillionant,
 Fry deuant oll o'n daear den ;
 Pob dyffryn teg, yn hardd ddi-freg
 A gwiwdég, gwyd ei ben ;
 Ond MARY 'n ddiau 'n dawel;
 Llwy'r huna 'n isel yno 'n awr ;
 Ni ddychwel fry o'i marwol dŷ
 Nes egwr lletty'r llawr.

Er hawddfyd, iechyd gwychawl,
 Er siriawl wedd a hyfryd hedd,
 Fe'n bwrir oll ryw enyd
 O dwrwr'r byd i'r bedd ;
 Rhai ydym ar ymadaw—
 Ar fyr daw'r pryd, awn oll i gyd,
 O'r einioes fer derfynawl,
 I'r annherfynawl fyd.

Rhaid gado'r tŷ daearawl
 Er goddef marwawl ingawl loes,
 Yn mhob rhyw le, ar alwad Nêr,
 Ni rusir amser oes:
 Un ydyw ni newidir,
 A fŷn Efe 'mhob man a fydd ;
 Pan arch Ef â y drwg a'r da
 I derfyn eitha' 'u dydd.

Nid oes a estyn gysur,
 Dan lafur loes ar ddiwedd oes,
 Ond Iesu mwyn sancteiddlan
 Fu'n gruddfan ar y groes:
 Y byd yn ol a gilia,
 Ni ddalia ddim y'ngwyneb llym,
 A dwysion ergydiadau
 Yr angeu mawr ei rym:

Yn ebrwydd awn i briddell
 Ac oer gell dywell daear lawr,
 Gan ado'r byd, eî wae i gyd,
 A'i hawddfyd ennyd awr.
 'Does iaith nac un myfyrdod
 Na gwaith yn bod o fewn y bedd,
 Ond pawb dan glo 'n y farwol fro
 Ar ol newidio 'i wedd.

MARWNAD

Ar farwolaeth ANN, merch hynaf Mr. ROBERT GRIFFITH, Adeiladydd
 Porthmadog, yr hon a fu farw Hydref 19, 1840, yn ddeuddeg
 mlwydd oed.

YR Heulwen bur oleua'n byd,
 A daear hen a dry o hyd ;
 Ar ael y fron yr afon red,—
 Ac amser sÿn fel hyn ehed.

Dan wenu 'n fwyn y gwanwyn gwyrdd
 A'i goflaid ferth ddwg flodau fyrdd ;
 Holl anian fawr i'w llinyn fydd
 Yn llawenhau o'i rhwymau'n rhydd.

Yr adar cynar yn y coed
 A gân yrwan fel erioed :
 Daw'r gôg odidog gyda 'i dawn,
 A'i difyr nôd o foreu i nawn.

A'r wenol ddaw yn ol i'w nyth,—
 Ond, Och, ANN bach nis dichon byth ;
 Hi fydd yn llonydd yn y llawr
 Hyd alwad yr ymweliad mawr.

Megys blodeuyn gwyn, teg wawr,
 Dechreuai dyfu i fyny 'n fawr ;
 Ei golwg teg tra lliwdeg llon
 O dyner fryd a dania'r fron.

A denu 'r oedd, drwy 'i dawn a'i rhin,
 Y serch yn glau â'i geiriau gwin ;
 Mewn purdeb moes, callineb llawn,
 Eginu 'r oedd yn gynar iawn.

Ond er mor wych ei drych am dro,
 Fe lwydai 'n brudd—flodeuyn bro ;
 Ehedodd gwrid ei hawddgar wedd,
 I'w dwyn o'r byd i enau'r bedd.

Pan ydoedd araul haul ei hoes
 Yn y Dwyreinfyd, crinfyd croes,
 Machludai, ac olwynai i lawr
 I ail fod mwy mewn eilfyd mawr.

Yn ngwên ei Naf, yn ngwanwyn oes,
 Ei hunig rym oedd Iawn y Groes ;
 A daliai 'n bur hyd lan y bedd
 Yn eiddo hoff i Dduw a'i hedd.

Bu mewn sirioldeb, purdeb hardd,
 Yn Sion gu, fel rhosyn gardd :
 A ffyddiog i'r oludog wlad,
 Ai ymaith o wydd mam a thad.

Ei hysbryd aeth mewn hyfryd hoen
 I fedd byth, o fyd y boen ;
 Gan seiniaw 'n llon, uwchlaw och loes,
 A mwyn i Dduw, mewn newydd oes.

Caiff wisgo ieuenctyd hyfryd, hardd,
 Yn fywiawl yn y nefawl ardd :

Un ffunud a'i gorff hynod Ef,
Heb aeth na nam, byth yn y nef.

Na fyddwn drist, lu athrist lef,
Am rai sy'n huno ynddo Ef:—
I'w phurlan wedd, ffarwel yn awr
Hyd oleu fyd y frawdle fawr.

MARWNAD

Er cof am RICHARD WILLIAMS, fy mab hynaf, yr hwn a fu farw
Ebrill 16eg, 1847, yn 6 mlwydd oed.

Ei ddaionus ymddiddanion
Ddenai ein serchiadau 'n llwyr,
A'i emynau cynes mwynion
Doddai 'n calon fel y cwyr ;
Addurniadau gras y nefoedd
Ymddysgleirient yn ei wedd ;
Iesu Grist yn unig ydoedd
Ei ddifyrwch hyd ei fedd.

Mae ei enaid lle dymunodd—
Gyda Christ yn Nheyrnas nef ;
Una 'n llawen gyda'r lluoedd,
Byth i seinio "Iddo Ef:"
Ydoedd dlws rhy hardd a gwerthfawr
I fod ar y ddaear ddu ;
Benthyg oedd, ac fe'i cymerwyd
Ymaith i'r Baradwys fry.

Am RISIART, fy mir rosyn,—mae hiraeth
Marwol yn fy nilyn ;
Foreu 'i oes oedd fawr resyn
Rhoi 'i wedd glws yn mhridd y glyn.

FY MAB.

O, HUMPHREY! fy machgen mwyneiddlan,
 Hoff blentyn penfelyn ei fam ;
 Mor ddél y dechreuai ymddiddan,
 Cyn iddo braidd gerdded dau gam :
 Wrth gofio ei ruddiau rhosynog,
 A'i ddau lygaid gleision teg wawr,
 A chofio 'i lais anwyl a serchog,
 Mae 'n hiraeth am dano yn fawr.

 Ei ddeufrawd a'i chwaer a'n gadawodd,
 Yn foreu ddilynodd efe ;
 Mae pedwar o'n plant ar y ddaear,
 Mae pedwar o'n plant yn y Ne' ;
 Gobeithiwn cawn eto gydgwrddyd
 Yn llawen i fythol ail fyw,
 Ar fryniau ysblynydd y gwynfyd
 Yn hyfryd gymdeithas ein Duw.

 Cawn yno folianu 'n unfrydol
 Heb eisiau ail gywair i'r gân,
 Y'nghanol digrifwch tragwyddol,
 A'n gwisgoedd yn ddysglaer a glân ;
 Cawn hefyd ryfeddu 'n ddiffino
 Wrth weled Mab Duw fel y mae,
 A bod yn gyffelyb byth iddo
 O gyrhaedd pob gofid a gwae.

MARWNAD

Ar farwolaeth Mr. JOHN ROBERT JONES, unig fab ac etifedd Mr.
 ROBERT JONES, Brondanw, Swydd Feirion.

OH! IOAN fwyn i'r bedd di drefn a droes,
 Y'nghanol nerth a defnyddioldeb oes :

Pan ydoedd dyfroedd dysg yn llanw ei fron,
 A natur gaid yn troi o'i gylch yn llon ;
 Mor iach, a chryf, a hardd yr oedd ei ddrych,
 Gan hoywder oes, yn llawn addurniant gwych ;
 Ac uchel mewn gwybodaeth, rhin, a moes,
 A gobaith llon o gael mwynhau hir oes ;
 Ond, och, mor fyr y bu parhad yr hynt,
 'R'oedd angau llym a'i saethau 'n gwau drwy'r gwynt,
 Ac yn ei threfn wrth ordinhad y Nef
 Ehedai'r saeth yn union ato ef ;
 Y gobaith cryf a droai 'n siomiant dwys,
 Newidia 'i wedd gadawai 'r byd a'i bwys ;
 I'r farwol chwa ni ddaliai 'i einioes wan,
 Edwinai fel blodeuyn yn y fan ;
 Er ei ddyfrhau ar foreu a hwyr o hyd
 Marwolaeth gaeth deyrnasai ar ei bryd ;
 Nis gallai 'r haul a gwres ei gynes gol,
 Na'r awel bêr, ei adfer yn ei ol.

Fy nghyfaill hoff ai gwir dy fod yn gaeth,
 Na chlywaf mwy dy ymadroddion ffraeth ?
 Ai ofer aeth dy ddysg, dy ddengar ddawn,
 Dy gref athrylith a'th gallineb llawn ?
 Yn awr pa le mae'th lais a'th emyn ber,
 A'r Salmau mwyn a genit i dŷ Ner ?
 Ai diffodd wnaeth dy awenyddawl dân
 Enynai'm serch nes dwyn fy mryd yn lân ?
 Y maith dystawrwydd sydd yn tystiaw 'n syn
 Ei fod dan glo marwoldeb, yn y glyn.

Ei ddirfawr boen, ei gystudd maith a'i loes,
 Ddiodefai heb ddweud dim am Dduw yn groes ;
 Gadawodd bawb a'i carent wiwddyn cu,
 Ac ar ei ol y deil argyllaeth du :
 Yn iach mwy am ei fwyn gyfeillach fad
 I sôn am feirdd, a phigion tref a gwlad ;

A sôn am ddull y byd, a gwychder gwaith
 Ein Crëwr doeth drwy'r nef a'r ddaear faith ;
 Ymddiddan am lesoldeb dysg a moes,
 A'r penaf bwnc—adnabod Crist a'i groes ;
 Yr unig gysur pur i'r enaid gwan
 Yw meddu Iesu 'n briod ac yn rhan ;
 Ffyddlonach yw na thad, na mam, na gwraig,—
 I'w blant gwna 'r hen Iorddonen ddofn yn graig :
 Er cuddiaw'r corph am oesau yn y bedd,
 Daw boreu llon o adnewyddawl wedd,
 O ddedwydd ddydd pan gwyd mewn nerth heb gur
 I gynal pwys y maith ogoniant pur,
 Yn un a'r ysbryd mewn gorhyfryd hwyl,
 Mwynhau y wledd, a bythol gadw gwyl ;
 Rhyfeddu trefn rhad ras, a rhodio drwy
 Heolydd aur y Nef heb flinaw mwy ;
 Am waed y Groes per ganu'r newydd gerdd
 Ar fryniau glwysion y baradwys werdd,
 A gweled Crist, bod megis ag y mae,
 Mewn gogoneddus wedd o gyrhaedd gwae.

 MYFYRDOD AR ANGEU.

OFER yw rhoddi serch a bryd
 Ar bethau'r byd symudol ;
 Derfydd ei bleser, mwynder mau,
 Yn oriau angeu ingol.
 Pe byddai 'r aur i gyd i'n rhan,
 Ac arian rif y tywod,
 Un lles ni wnant, er mwyniant mawr,
 Oddeutu 'r awr ymddattod.
 Pe caem bob mawredd y'mhob man
 Tra buan rhed y bywyd,

A rhan y dyn ryw enyd awr
Yw gwyro i lawr y gweryd.

Nis gall y doniau gorau ' gyd
Un enyd estyn einioes ;
Ond rhaid yw myn'd o dir a môr
Ar alwad Iôr i eiloes.

Nid oes er cael trwy 'n hoes lawn hedd,
Anrhydedd a phob rhadau,
Un man y'mhedwar ban y byd
I ddiengyd yn nydd angau.

Boed ini oll, heb oedi 'n hwy,
Fyfyrio mwy am farw ;
Can's nid oes un a wŷr is sêr
Yr hynod amser hwnw.

Ond ini gael y fawr fraint gu
I garu 'r Iesu grasol,
Nid ofnir gloes, na dyfnder glyn,
Na cholyn angau ingol.

Oblegyd Crist, pan dry pawb draw,
A ddaw i'r glyn yn ddiâu,
Yn Ffrynd i gynal pen y gwan
Rhag suddo tan y tdnau.

Arwt 30ain, 1833.

DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF, 1838.

TYDI, O Dduw, yw Llyw y llawr,
A Barnwr mawr y byd ;
I Ti boed mawl rhyglyddawl glân
Yn ddiwahân o hyd.

Er iddo fygwth rhoddi 'i farn
 A'i gadarn allu mawr,
 Yn erbyn barn trugaredd gu
 Wnai orfoleddu i lawr.

Er mor annheilwng yr y'm ni
 Eleni yn ei law,
 Arbedodd ef—cair bwyd i ddyn—
 Fe droes y newyn draw.

Gallasai suddo 'n gwlad yn sara
 Dan lid ei farnol law ;
 A newyn bara yn y byd,
 A'n bröydd i gyd mewn braw.

Ond yn ei law y gwlaw a'r gwllith
 A'i 'n fendith i'r holl fyd ;
 Ei hen gyfamod gyda dyn
 Mewn hedd sy'n un o hyd.

Yn ei drugaredd ryfedd rad,
 Gwarediad gwiw a roes :
 A thrwy 'i Ragluniaeth lluniaeth llawn,
 Yn diriawn, onid oes ?

Gwrandawodd gwyn trueiniaid gwan,
 O'i lŷs, anfeidrol Iôr !
 Mae ynddo gariad yn ddigêl,
 A mawredd fel y môr.

A chalon glau dychwelwn glod,
 Yn lân i'r Bôd dilyth ;
 A cheisiwn oll yn achos Nêr
 Y bara bery byth.

LORD A LADY FIELDING.

(*Byrfyfyr, buddugol yn Eisteddfod Aberffraw, 1849*).

I'n Breiniol Eisteddfod drwy glod tēr a glân,
 Y daeth Arglwydd Fielding, ar gynydd â'r gân,
 A'i uchel Arglwyddes yn gynes a gawn,
 I'n gwledd mae 'n ogoniant, er llwyddiant tra llawn ;
 Pob anwyl dderbyniad, croesawiad y sydd
 I'r ddau o un galon yn rhadlon a rhydd.

Os dyma'r tro cyntaf, nid olaf diau,
 Y gwelir eu gwyneb mewn purdeb i'n pau ;
 Coleddant yr Awen yn drylen oll drwy,
 I ddysg a chelfyddyd rho'nt fywyd fwy fwy ;
 Boed hir oes ac iechyd, a hyfryd fwynhad,
 I'r ddau anrhydeddus sy'n glodus drwy'n gwlad.

- PENILLION A GYFANSODDWDYD NOS
 SABBOTH, EBRILL 17eg., 1853.

Bu'r angelion o wasanaeth
 I mi ganwaith yn y byd,
 Rhoddant nerth a chysur imi
 Yn yr anial maith o hyd ;
 Dagrau 'ngalar a dderbyniant,
 Nefol win ro'nt yn ei le ;
 Ant a'm dagrau yn ofalus
 I gostrelau aur y ne'.

Adnewyddu mae fy ysbryd,
 Ofn a galar ymaith ffy,

Cefais olwg ogoneddus
 Ar fy Mrawd sy'n eiriol fry ;
 Tân y nefoedd a enynodd
 Yn fy mynwes at fy Nuw ;
 Canaf iddo a diolchaf—
 Molaf ef tra byddwyf byw.

Pa'm yr ofnaf yr Iorddonen
 Os caf Iesu Grist yn frawd ?
 Rhodiaf gyda 'i glân yn dawel,
 Heb ofn Satan, byd, na chnawd ;
 Yn ei thônau gorfoleddaf
 Nes bo engyl nef yn syn—
 Canaf am yr afon hòno
 Lifodd ar Galfaria fryn.

Caf fy Iesu yn arweinydd,
 Caf ei gwmni, caf ei law—
 Caf fynediad llawn a helaeth
 Drwy ei thônau i'r làn draw ;
 Caf angelion i fy arwain
 I ardderchog wledd y nef ;
 Caf fy nhelyn aur mewn cywair,
 Byth i seinio " Iddo Ef."

 EMYN.

YN yr anial, ein harweinydd
 Ydyw Llywydd nef a llawr ;
 O llewyrcha Arglwydd arnom,
 Fel y gwelom dy deg wawr ;

Ti yw ffynon pob cysuron,
 A thŵr Seion gadarn sail;
 Ti yw Duw ein hiachawdwriaeth,
 Drwy Eiriolaeth Adda 'r ail.

FY NYMUNIAD.

O! na bawn i yn y nefoedd,
 Yn cydseinio gyda'r saint;
 Gweled Brenin y breninoedd
 Fyddai yn anfeidrol fraint;
 Cael mwynhau yr hyfryd wleddoedd,
 Ffrwythau pur nefolaidd flas,
 A bod yno yn oesoesoedd
 Yn rhyfeddu trefn rhad ras.

Tach. 29ain, 1874.

ENGLYNION, &c.,

AR DESTYNAU CREFYDDOL A MOESOL

MYFYRDOD MEWN AFIECHYD.

YMA dall wy'n myd y llaid,—eisiau gras
Iesu Grist i'm henaid ;
Goleuwr yw, ei gael raid—
Ef all agor fy llygaid.

O! na bai'r Haul glân ei bryd,—a'i wawl yn
Adloni fy ysbryd ;
Truanol iawn trwy 'i enyd
Yw dyn heb wên Duw 'n y byd.

Yn mha le caf haf o hedd
I'r enaid mewn gwirionedd ?
Hir chwiliaf holl dir y Dwyrain,
A'i aur coeth, a'i drysorau cain ;
Och! er edrych a chrwydro,
Fel blin bererin mewn bro,
Nis gwelais i'm dysgwyliad
Lwybr hedd, o fythol barhad.
Af o'r eurog fro araul
I chwilio tir machlud haul,
Nid oes yno i'm dwys enaid,
Hyd y bedd, ond gofid di baid ;
Cyfodaf yn awr, ac af wed'yn
I gloddio i gôl y Gogledd gwyn,
Eto, siomiant sy' yma—
Agwedd lwyd tragwyddol iâ:

Wedi maith grwydro'r De am wir
 Gu fendith, drwy 'i holl gyfandir,
 Yma gwlad lom, a siom sydd
 I'w gael o benbwgilydd ;
 Foreu a hwyr, ofer o hyd
 Oedd chwilio, rhaid i'm ddychwelyd.
 Ymofynaf, pwy am funyd
 A roddai ei bwys ar fawredd byd ?
 Rhyw boenau dirfawr beunydd
 Yn ei siom a'i wênau sydd.

Er cyrhaedd aur ac arian,—ni lanwant
 Wagle enaid truan ;
 Gras Duw 'n rhodd, ei Grist yn rhan,
 A leinw wagle anian.

I'r dyn drwg o dan ŵg Ion,
 Daw aml ofid, mal afon ;
 Digofaint Duw a gyfyd
 Ar ei ben wrth lwybro'r byd.

Daw iddo annedwyddyd,—i'w ostwng,
 Yn nhir cystudd bywyd ;
 Nes y gwel ei oes i gyd
 Yn gronfa geiriau ynfyd.

Ond i'r dyn da, drwy ei daith
 Daw gwawl a hin deg eilwaith ;

Bwytyffrwyth garddesmwythyd,—eilia fawl
 Ar glaf wely adfyd ;
 Yf er beiau ddwfr y bywyd,
 I lawenhau 'i galon o hyd.

Adnabod Duw yn obaith—a wnelwyf,
 Gan wyllo drwy'm hymdaith ;
 Mae dyn ar ei gyflym daith
 O fewn dim i fyn'd ymaith.

Yr edau wan cyn hir a dyr,—a dêr
 Byd arall a egyr ;
 Myn'd i ben mae'm munyd byr—
 Egwan wyf, ac annifyr.

Os caf yr Iesu cyfion—yn obaith,
 Gwynebaf yr afon ;
 Yn ei glwyfau mae i gleifion—win nefawl
 Yn wledd felusawl i leddfu loesion.

I'r crïstion gwan dan gwmwl du,—yr Ion
 Rydd nerth i'w folïanu ;
 Rhoi gras am ras mae'r Iesu
 Nes ei gael i'w Deyrnas gu.

Duw o'i ras sy'n codi'r isaf—o'r llwch,
 I'r lle godidocaf ;
 Wele eto i'r tylotaf
 Obaith o wledd mewn bythol haf.

* * *

Buan hybais, ai 'r boen heibio,—heddyw
 Hawdded gallaf rodio ;
 Wel, mawr fawl i'm Hiôr a fo—
 Chwydded fy niolch iddo.

Tachwedd, 1871.

PAN YN GLAF.

O! fy uchel gryf iechyd,—b'le 'hedaist
 Mewn blodau ieuencyd ?
 Heibio i aur—holl berlau'r byd
 Dwyr'n ol dêr anwylyd.

O! hynod anhunedd—bod yn afiach,
 Byd annifyr ollwedd ;
 Y fonwent fydd fy annedd
 Oni ddaw rhyw newydd wedd.

Gwae droelledig draffodau ;—tros f'enaid
 Troes afonydd angau ;
 Holl waelodion y fron frau
 A lwythwyd âg alaethau.

Ni chël grudd gystudd ac ister—calon,
 Draw cilia pob pleser ;
 Gwae a gofid gogyfer
 Pob dyn sydd—pawb dan y sêr.

Gwÿn fochau gan afiechyd—a gefais,
 Gwyfodd nerth fy ysbryd ;
 Rhoi delw'r bedd ar deulu'r byd
 Mae un oedfa mewn adfyd.

Llaw Duw a aff o dywyllwch—fy nwyn
 I fyw 'n ol mewn heddwch ;
 Neu 'm gyru o'm hygarwch
 A mawr lid i'r marwol lwch.

Holl allu yr ellyllon—nid ofnir,
 Na dyfn rydiau 'r afon ;
 Gyda Duw fe geidw y dôn
 Er gwared ei rai gwirion.

Ar dranc oes nid oes ond Iesu—'n gyfaill
 Uwch gafael pob gallu ;
 Eir drwy 'r hen Iorddonen ddu
 I ogoniant dan ganu.

Fy nhlawd fyfyrdawd a fo—ar Iesu,
 A'i ras i'm perfeithio ;
 Nes elwyf i noswyllo
 Ag iawn gred i eigion gro.

“OFNI DUW.”

(A gyfansoddwyd ar ol gwrandaw pregeth gan y Parch. W. AMBROSE).

OFNI 'R Ion tirion fel tad—a ddylwn,
 A'i addoli 'n wastad :
 O'i felus hedd caf lesâd—o newydd,
 Ac o'i fwyn gerydd caf win ei gariad.

CYDWYBOD.

TRIGLE hedd, neu fedd dyfnaf wŷn,—llais byw
 Llys barn a gorchymyn,
 Ydyw od gydwybod dyn,
 Hyd eiloes yn ein dilyn.

IAITH Y DYN GONEST WRTHO EI HUN.

CAF fendith drwy wneud cyfiawnder,—diboen
 Yw cydwybod dyner ;
 O'r fendith caf wir fwynder,
 Wrth fyw 'n ol cyfraith fy Nêr.

ADFYWIAD YN SEION.

I SEION gyson i geisiaw—eu lle
 Daw lluoedd dan wylaw ;
 Yn eu bryd eu hofn a'u braw
 Wna i ddiogwyr ddiwygiaw.

Nid eglwys wan a dioglyd—a fydd
 Dan faich anesmwythyd ;
 Ond tra buan tŷr bywyd
 Ynddi fel rhyw newydd fyd.

Ei Hiôr anwyl fydd ei harweinydd—i'w dal
 Yn deilwng drwy 'i thywydd ;
 Dylanwad ei lawenydd
 Oddifewn iddi a fydd.

Yr hen geir yn agoryd—i'r ieuainc
 Reol fydd a bywyd ;
 A'i gwryfon geir hefyd
 Efo 'u gwaith yn fyw i gyd.

F'w hanwyl Iôr rhydd Seion lân—ei chlodydd
 Ucheledig allan,
 Pan fyddo'r byd enbyd yn dân,
 A dinystr dychrynlyd anian.

GWEDDI.

TRWY enw Crist a'i rinwedd,—O, fy Ion,
 Erfyniaf drugaredd ;
 Cymer fi, maddeu'm camwedd,
 I ddal hwyl trag'wyddol hedd.

ERFYNIAD MEWN ADDOLIAD.

DY wyneb er dywenydd—ini dod
 Ein Duw mawr tragywydd,
 Yn ysbryd y bywyd bydd
 I'r annuwiol o'r newydd.

CYFAILL CREFYDDOL MEWN ISELDER
PROFIAD.

ER llwydaw gan drallodion—daearol,
 Mewn dyrus ofalon,
 Colli blas ar ras yr Ion—a welaf
 Yn boen uchelaf i ben a chalon.

Rhagfyr, 1877.

GALWAD Y SAINT ADREF.

DEDWYDD alwad y dydd olaf—i gyd
 Ga' Saint y Goruchaf ;
 Hwn fydd eu dydd dedwyddaf,
 A dydd hir o ddedwydd haf.

Y BIBL.

LLYFR y gwawl, uwch llyfrau i gyd,—llusern
 Holl oesoedd y cynfyd
 Gair dwyfawl—Gair Duw hefyd,—
 Sail dda goeth—sylwedd i gyd. :

Trysor aneisor—aed dros 'r ynysodd,
 At genedlaethau, llwythau pell ieithoedd:
 O! mor ddilewyrch yw myrdd o luoedd,
 Un modd a'r anifail am Dduw'r nefoedd!
 Ymdrechwn, gweithiwn ar g'oedd—ein gorau
 I yru Biblau i bob rhyw bobloedd.

Gair Duw Iago a wna'r greadigaeth
 Yn ail i Eden, yn olau odiaeth ;
 Dadwreiddia, tyna Fahometaniaeth—
 Chwilia i bob addysg—chwala Babyddiaeth ;
 Newid Iuddewon o'u du au-dduwiaeth,
 Llu y pegynau—tywyll Baganiaeth ;
 Gwir ostwng holl anghristiaeth—teyrnasoedd,
 I ddwyn y bydoedd i iawn wybodaeth!

Pan welodd yr Awdwr yr uchod mewn argraff, canfu fod gwall
 cynghaneddol (gwest-awdl) yn yr Englyn dechrenol, y llinell gyntaf
 o ba un, yn lle

“Llyfr y gwawl, uwch llyfrau i gyd,”

a amoanasai i fod fel hyn—

“Llyfr i bawb,—Llyfr llyfrau y byd.”

Ar ol gweled y gwall, cyfansoddodd y tri Englyn canlynol:—

Diofal ydwyf, wael awdur ;—rhuaw
 Heb reol na mesur ;
 Brau asio geiriau 'n brysur,
 I ddwyn bai ar y ddawn bur.

Er galar, mawr gywilydd—imi fyth
 Am fod mor anghelydd ;
 Gwrthun fai, a gwarth enw fydd
 Ar wyneb yr awenydd.

Awen sydyn asiadau,—agored
 I gerydd a gwallau ;
 Heb harddwch dirgelwch gwau
 Godidog ehediadau.

 CAETHWASIAETH.

(A gyfansoddwyd wedi darllen "*Uncle Tom's Cabin*," gan Mrs. HARRIET BEECHER STOWE).

MAWR enill i'r Cymro uniaith—fyddai
 Cael ei feddwl perffaith ;
 Ceir hwn yn llyfr cywrein-waith,
 A natur oll trwy ei iaith.

Wele ddrych o feddylddrychau,—a gwir
 Ragorol syniadau,
 Mewn myrdd o ffyrdd yn coffâu
 Am diroedd gorthrynderau.

Wele gedyrn amlygiadau—o lwyr
 Alarus drwm ffeithiau—
 O ffengyll ac erchyll iau,
 Ac o dŷnion gadwynau.

A! dyna wryf dynerol—yn llawn
 O ddillyniant moesol,
 Am oes mewn bro ormesol—yn buan
 Weithio 'i hoes allan yn gaethes hollol,

O! drueni! gwraig dirionol—a'i phriod
 Dan y ffrewyll swydol ;
 O! chwerwfyd carcharol—ddaethi'wrhan ;
 Trist-wyled anian tros y teulu dynol.

Eu plant bach afiach hefyd—a werthid
 I warth a chaledfyd ;
 Ond trwy gur aent i'r gweryd
 O'u holl boen—cawsant well byd.

Dyma ddifrif brif brofion—o driniaeth,
 O drueni'r Caethion :
 O! 'r olwg ar wyr creulon—drwy'u gwledydd
 Y codo cywilydd nes gwaedo 'u calon.

Ar fyrder torer pob tid,—darfydded
 Y rhyfeddol ofid ;
 A'n byd croes heb loes, heb lid,
 Fo drwyddo 'n fyd o ryddid.

Am dra uchel ymdrechion—o deimlad
 Amlwg dros y Caethion,
 Rhodded Iôr ei wedd dirion
 Deiroes i'r Awdures hon.

A'i llaw dyner lledaenodd—wybodaeth,
 A'r byd a gynhyrfodd ;
 Ei henw a'i pharch mewn hoff fodd
 A'i thalent a fytholodd.

AMRYWIAETHOL.

AR ESGYNIAD Y FRENINES VICTORIA I ORSEDD PRYDAIN FAWR.

(Cyd-fuddugol).

Ti, Frydain eirian, wlad lân adlona,—
Wele 'n Banon ein tirion Victoria,
Sydd orieuengaidd i'r orsedd ddringa ;
A! pawb o'r ynys bybyr o wena ;
Hawddamawr iddi yma—medd y byd,
O un llais hefyd mae llys Jehofa.

Nid oes truenus dwrf dwys tarianau
Yma gan alon na swm magnelau ;
Tarian llonyddwch trwy 'n holl aneddau,
Geir i'w hesgyniad o gariad gorau ;
Ail i bur wawl y borau—y cododd,
Natur a wenodd,—dim swm taranau.

Ymerawdwyr y byd a'u mawrhydi
Enwog a roddant y goreu iddi ;
Ei mawl a seinir am eluseni,
Mawr ddiddanwch, a myrdd o ddaioni :
Ynys gain Brydain mewn bri—gwyd er llâd
Mewn môr o gariad mae'n mawr ragori.

O bu 'i henafion yn benau ufydd,
A blodau cryfion i bleidiaw crefydd ;

Hon saith cryfach amgenach am gynydd,
 Lles dybenion, ewyllys da beunydd ;—
 Gwalia fawr yn glau fydd—yn fwy moesawl,
 A Lloegr annuwawl oll geir o newydd.

Gem, doeth sail i Gymdeithasau helaeth,
 Llawn eluseni—llênawl wasanaeth ;
 Hil Owen Tudur, lân waed da odiaeth,
 Drych yw i'r byd drwy wychr wybodaeth ;
 Ugain mil o ganmoliaeth—gaiff yn hir,
 Ei henw gerir tra awen ac araeth.

Dal gwir a moesau, dileu gormesiaeth,
 Lleihau 'r gelynion yn llaw Rhagluniaeth ;
 Gyru hyd eigion y grëadigaeth
 Oleuni i ddeiliaid eilunaddoliaeth ;
 Trefnu edyn Trafnidiaeth—ardaloedd,
 A throi ynysoedd wneir drwy'i theyrnasiaeth

I BONT ABERGLASLYN.

(Buddugol yn Eisteddfod Beddgelert, Ebrill, 1860).

Ar ddialgar hardd weilgi—dyma 'r bont
 Mae 'r byd yn ei hoffi ;
 A'r pysg llon sy 'n llwybro 'n lli
 Y donawg Laslyn dani.

Creig serth a'u penau crog sydd—o'i hogylch
 Yn digio 'r ystormydd ;
 Tra hir dwrf rheiedr drwy 'r dydd
 Yn galw ar eu gilydd.

Ar enau 'r ddwysir unawl—fe erys
 Yn fawredd cofnodawl

Am ein myg dadau, mewn mawl,
Yn asio'r bryniau oesawl.

A WNAED WRTH FYN'D HEIBIO I "BONT Y
GWR DRWG," GER ABERYSTWYTH.

Wele bont uthrawl a bân,—o ddyfais
Hen Ddiafol ei hunan ;
Mae'n hawdd gwel'd nad 'menydd gwan
A'i lluniodd,—ond call anian.

Os efe a roddes fod—iddi gynt,
Fe haeddai gael mawrglod :
I wneyd hon onid hynod
Oedd i Ddiafl y fagddu ddod ?

BEDD GELERT.

Ar ol iddo ladd ar eiliad—y blaidd
Yn y blin amgylchiad,
Edifar oedd gwneud ei frad
Marwol drwy gamgymeriad.

Gwall dynol mewn gwylltineb—dwyn Gelert
Dan geulan marwoldeb ;
Yn un oes ni fu i neb
Gi llawnach o gallineb.

J

O Fedd Gelert ei fuddugoliaeth—droes.
 Iddo draw 'n farwolaeth,
 Dyg y ffol gamsyniol saeth
 I Lywelyn wyl alaeth.

Tarian i faban fu o—ei gryf lid
 Gai arw flaidd deimlo!
 Braw oedd ei ladd a'i briddo
 Yn wyl drwy'r camsyniol dro.

SYR W. W. WYNN, LLYWYDD EISTEDDFOD
 Y BALA, 1836.

SYR WATKIN iesin oesydd,—WILLIAMS WYNN,
 Cwlwm serch y gwledydd,
 Glyw ban ein gwyliau beunydd,
 A glain yr oes galon rydd.

Ifor,—braint y fro a 'i bri,—a gwron
 Gwladgarawl i 'w noddi,
 Byw urdduniant barddoni
 A thwr ein iaith eirian ni.

Paen goludog, pen gwledydd,—a cholofn
 Uchelawg ein bröydd;
 Hen filwr anhefelydd,
 Mawr ei rwysg dros Gymru rydd.

Mewn urdd nod ei glod gwiw a glan—a 'i barch
 Drwy y byd yn gyfan
 A bery tra bo eirian
 Haul y dydd yn oleu dân.

YMADAWIAD SYR W. W. WYNN O'R
EISTEDDFOD.

YMA i'n Glyw mewn gwyl lawen—taler
Teilwng ddiolch addien ;
Mur a gwawl y Gymraeg wen,
A bywyd holl feib awen.

Iddo bo hedd a bywyd—hardd addien,
A hir ddyddiau hefyd,
I lanio ar ol enyd
Uwch y gwae a'r och i gyd.

LLYN TEGID.

LLYN ban i seirian bleseru,—llenyrch
Meillionawg o'i ddeutu,—
Myrdd o adar cerddgar cu
Uwch ei ben sy'n chwibanu.

A'i oludawg waelodion—o'i fawr rin
Mae'n fri i fro Meirion ;
Moria bychain a mawrion
Ddifyr daith ar ddwfr ei ddn.

I'w difyru caed i Fawrion—lwyswych
Lysoedd hyd ei finion,
Er gweled môr gwlad Meirion,
A nofio 'i li mewn nwyf lon.

Llyn tra maith hirfaith o hyd,—a llydan
Droelledig wynebpryd ;
Didwyll y gellir d'wedyd
Wele 'n ben lynau y byd.

ANERCHIAD I MISS MADDOCKS AR EI
DYFODIAD I'W HOED.

(*Buddugol*).

WÈLE bur wawl y borau,—dydd eirian
Dyddorol i'n parthau;
Gwir Aeres ein gororau
Yn llawn oed—boed llawenhau.

Hoenuswch fryniau oesawl,—chwi faesydd
Rho'wch fiwsig serch hudawl,
A'n doniau fo'n dân o fawl
I'n harglwyddes ryglyddawl.

Iachusol fun, merch sylfeinydd—ein tref,
Ein trafod a'n gweithydd;
Amledd serch mawl iddi sydd
Ar gân yn myn'd ar gynydd.

Yr holl faneri allan—a welir—
Twrf magnelau 'n mhobman;
Bywiog yw holl feib y gân,
A'u seiniau'n goglais anian.

Gwledd o arfoll, gwyl ddirfawr—geirheddyw
I bob gradd drwy'r orawr;
Pob calon sy'n neidio 'n awr,
I'r hardd Em rhoi'r hawddamawr.

Trefmadog enwog yn ei chynydd—~~sy'n~~
Seiniau llawn llawenydd;
Difyr sain clodfori sydd
Trwy fynwes tir Eifionydd.

Ei thad goruchelwerth ydoedd,—awdwr
Rhyfeddodau'r oesoedd;

Rhyw wyrth o fri werthfawr oedd
Mawr darian ein mordiroedd.

Llebu rhawgferwawgforoedd—maellenyrch
Meillionawg borfaoedd
Yn gôf o'n gwron ar g'oedd
Wnaeth fywioliaeth i filoedd.

Caed difyr wyl cyd-fawrhau—ei Aeres
Sy'n awr yn ei blodau ;
Llu y Porth a phell barthau
Oll yn un sy'n llawenhau.

ELISA ANN! ei mawl sydd—yn adsain
Mewn cydserch drwy'n broydd ;
Ein gwlad oll fel goleu dydd
A lanwyd o lawenydd.

Doed i wlad ei threfdadaeth,—caiff ffyniant,
Caiff enwog ddyrchafiaeth ;
Muriau a thrin môr a thraeth,
Can adlwydd i'n cenedlaeth.

Ar ei heiddaw a'i thoddion—pob bendith,
Pob undeb yr awron,
Pob mwynhad o rad yr Ion
Trwy ffyniant i'r hoff Fanon.

AR DDYFODIAD T. E. M. LL. MOSTYN, YSW.,
I'W OED, IONAWR, 1851.

HA! foreu adeg hyfrydawl—o wir
Ddyddoriant mawreddawl ;
Dydd o lawenydd unawl
I'n bro gu mewn bri a gwawl.

Gwynedd fo'n serchawg enyn—ei hawen,
 Chwareued pob telyn,—
 Gwir rymusdeg Aer Mostyn
 Yn llawn oed, boed llawen hyn.

Gwr haeddawl o deg wreiddyn,—haelionus
 Linach uchel Mostyn ;
 Heddyw 'n mhob tŷ a thyddyn
 Mae bywyd ail yn mhob dyn.

Mwyn dônau mewn dywenydd—a swynawl
 Seinir drwy'r holl fröydd ;
 A phob mād groesawiad sydd
 I'n gwladwr llawn ei glodydd.

Y benyr chwyfiawg banawl—orhoiant,—
 Rhua'r megnyl nerthawl ;
 Holl fawredd Cymru 'n unawl
 Sy'n derbyn Mostyn mewn mawl.

Ar fynwes gyne Gwynedd—hir oesed
 Mewn gras a thangnefedd ;
 Ac yn ei holl ogonedd
 Ei Dduw a'i wlad fyddo 'i wledd.

CYFLWYNEDIG I ARGLWYDDES HALL.

Bu'r awen mewn rhwysg boröol—ganwaith
 A'i gwyneb yn siriol,
 Wrth fwynhau rhadau rheidiol
 Gwleddau serch Arglwyddes Hall.

Rhoddi gwresawg hardd groeso—yn ei llys
 Mae'n llon i bob Cymro ;
 Ei gu wlad a'i iaith hygloed o
 Iddi sydd yn ddewis eiddo.

Ofyddes uchel foddau—yw'n anwyl
 Gan Wynedd a Dehau ;
 Gan Awdwyr pybyr pob pau
 Adwaenir gwerth ei doniau.

Os gwelir eisiau Ysgolion
 I gael lles a goleu llon,
 Ac eisiau doniau a dysg
 I roddi gwerthfawr addysg ;
 Neu os oes eisiau lleshau
 Doeth iesin gymdeithasau,
 Neu ro'i eiddo a rhoddion
 A thir at wasanaeth Ion,
 Gwenynen Gwent gawn yno 'n gyntaf
 Oll i'w wneud yn llaw ei Naf ;
 Hi yn benaf a gawn beunydd
 Yn rho'i ei haur â chalon rydd.

Un oleu synwyr yw 'n llawn eluseni,
 Yn dileu adwyth a phob dwfn dylodi ;
 Drwy fri olynol ei dirfawr haelioni
 Gwywa 'i thirionwch bob gwae a thrueni ;
 A phwy o uwch rhinwedd gaiff ei choroni
 Gan feirddion, llenyddion, am eu llawn noddi ?
 A'i Phriod hygloed caed hi—nawdd cysgodol
 Eu Hior dewisol i gyd hyfryd oesi.

Am eu rhoddion mawreddawl,—a'u huchel
 Ymdrechion gwladgarawl,
 A chywair mwyn chwareu 'u mawl—bo'r delyn bŵr
 Yn llys Llanofar fel lleisiau llu nefawl.

ANERCHIAD I D. WILLIAMS, YSW., A.S.,
CASTELL DEUDRAETH.

DIWYDRWYDD gwr Castell Deudraeth—a'i fri
Fawrheir gan ddynoliaeth ;
Tori iau drom Toriaeth—wnaeth bob cam ;
Rhyfeddu Gwalia mae'r fuddugoliaeth.

Gwir deimlad y wlad ymledodd,—ac mor deg
Am wr doeth ymdrechodd ;
Yn gyfaill dyn iawn a gafodd,
Dyna werth byd—dyn wrth ei bodd.

A chwlwm serch WILLIAMS yw—ein haddas
Foneddwr diledryw :
A'i gynnes fynwes sy'n fyw
Am ryddid Cymru heddyw.

Iawnderau 'i wlad drwy law Ion—a nodda
Yn Seneddwr ffyddlon ;
Tyr rwymau 'n beichiau trymion,—ac o'r tir
Ein gormes yrir drwy 'n grymus wron.

Ei law wna lu o newydd—yn fendith
Mewn cryf undeb beunydd ;
Ardderchog Farchog a fydd
Yn mro enwog Meirionydd.

Yn uwch yr â masnach rydd,—hyrwyddir
Addysg, a gwir grefydd ;
Ail wanwyn o lawenydd—wawria 'n llon,
Cawn aur a chalon ein cynrychiolydd.

Boneddwr yw 'n byw 'n haeddawl,—hir a fo 'i
 Dêr fywyd defnyddiawl ;
 Caiff y Dolaeth helaeth hawl
 Drwy ei nodded rhinweddawl.

Ei wasanaeth yn y Senedd—a'i lwydd
 Rydd i'r wlad anrhydedd ;
 Yna drwy lawnder a hedd—daw 'n gyson
 Faith elw i Feirion o fythol fawredd.

I MASTER HUGHES (*Blegywryd ap Seisyllt*).

BACHGŶN bach uwch bechgyn byd,—rhyfeddod
 Hir fydd ef i'r hollfyd ;
 Ni bu, ni ddaw neb na ddyd—
 Y goron i Blegywryd.

Nefawl leisia 'n felysig,—a sefnia
 Gysonwawd plethedig ;
 Trwy ei fysedd tŷr fiwsig,
 Hynawd gainc uwch ednod gwig.

Duw yn y bru dawn wiwber roes—iddo
 Yn addurn i'w einioes ;
 Perorydd gwych pur eirloes
 O Gymro yw,—Gem yr oes.

Dwylaw angel i odli engur—fawl
 A fedd, a dawn natur ;
 Chwery 'i law bach reol bur
 Fibau miwsig pob mesur.

I LOVE JONES PARRY, YSWAIN., MADRYN.

PARRY fwyn o'n prif fonedd—● gerir
 Am wladgarol rinwedd ;
 A PHARRY mewn dawn a phuredd—er mawl
 Yw'n hawdr swynawl, a'n dyn da i'r Senedd.

Mewn hardd wasanaeth, mewn urddas union,
 A rhagddo i wirio ei egwyddorion ;
 Ei iaith, ei wlad, ac iawnder i'w thlodion
 Dania i'r gwaelod ei dyner galon ;
 A saif er treiswyr gorbwysfawr trawsion
 Yn nerth a chysur llawn wrth achosion ;
 A'i law dirf dros wlad Arfon—deil er llid
 Dan faer rhyddid, yn fyw 'n ei roddion.

Drwy ei glodus dreigliadau—noddi mae
 Rinwedd, moes, a doniau :
 Yma'n hir y bo'n mwynhau
 Bri dedwydd bro ei dadau.

 ODYDDION.

HYFRYDWCH ini frodyr—ys WILLIAMS
 A HOLLAND yw'n pleidwyr,
 Pwy gawn eu gwell—pigion gwyr,
 A goludog hael wladwyr.

Byddwn selog galonog eleni,
 Ein hardd wasanaeth sy'n urddas ini ;
 Wele ffyddlon foneddion i'n noddi,
 O hyd eu hanian yw gwneud daioni ;

Aelodau nerthawl mygedawl am godi
 Ein Hurdd haelionus i'w hardd oleuni ;
 Awn y'mlaen gan ymloni—gyda'n gwaith,
 A boed ein heffaith i'r byd i'n hoffi.

Daw y byd i wybodaeth—mwy unol
 Am anian Odyddiaeth ;
 O'i du niwl daw dynoliaeth—i fynu
 Yn hyfryd deulu yn y frawdoliaeth.

Glynwn heb ddigaloni—â'n doethaf
 Gymdeithas uchel fri ;
 Gyda 'i nôd ymgadwn ni
 Rhag i eraill ragori.

Tra bo haul araul eirian—a dynion
 Hyd wyneb pedryfan,
 Bydded mawr lwydd rhwydd i'n rhan
 Yn hollol o hyn allan.

AR OL ETHOLIAD 1874.

Gu odidog Geidwadaeth,—y gadwyn
 Gydiol i'n llywodraeth ;
 Mawredd hon i Gymru ddaeth
 Yn binacl annibyniaeth.

ENGLYNION MEWN ATEBIAD I MR. JOHN
EDWARDS (*Meiriadogyn*).

A RHOI iawn farn arnaf fi,—un dwl wyf
A wna dlawd farddoni ;
Awen chwêg sy' genych chwi,
Ac iaith addien goeth iddi.

Anwyl-fardd a mwyn elfen—i fydru
Mor fedrus yn fachgen ;
Tra nerthawl o'ch barddawl ben
Y rhed hoew ffrwd awen.

Yr hen wiw ORONWY OWEN—wyrodd
I'r farwol ddaearen ;
Yn ei le yn haul awen
I loewi beirdd, wele ben.

Diwydrwydd mewn da oedran—rydd enaid
I farddonawl anian ;
Ymarfer goleuder glân
O'i du gell a'i dwg allan.

Enhuddwyd y ddawn addien—trwy'n codwm
Trancedig yn Eden ;
Yna llafur pur y pen
Rydd fywyd i reddf awen.

Difyr beth hyd fôr y byd,—a'i auaf,
Ydyw awen hyfryd ;
A'i thirionwch uthr enyd
Y gauaf fydd haf o hyd.

Nid ynfyd ydyw anfon—i'n gilydd
 Mewn goleu anerchion,—
 Er ein lles rho'wn eiriau 'n llon
 I'n gilydd o un galon.

Awn ar fyr iawn o'r fêr oes—i hunaw,
 A'n henaid i eiloes ;
 Llafuriwn drwy'n holl fêroes,
 A mwyn gred am Iawn y Groes.

Byw mewn bai ym yn y byd,—gwae arnom
 Fod gwyrni 'n ein bywyd ;
 Elfen ein hawen o hyd
 Fo hoewfro y Nef hyfryd.

Harddwaith y dwyfawlfeirddion—yn desawg
 Gwyd isel feddylion
 Goruwch holl gerth drafferthion
 Addoer hynt y ddaear hon.

Heinyf eiliaw mewn nefolwedd—wna fardd
 Yn fwy mewn anrhydedd,—
 Duwiol-fardd yn y dylfedd
 Hoff gofir yn hir mewn hedd.

Mal Awdwyr canmoladwy,—yn gefnawg
 Nac ofnwn ryferthwy ;
 Ceisiwn hynod fod yn fwy
 O'r haner na GORONWY.

Llwydd, iechyd, o hyd a hedd,—fo ichwi,
 Naf uchod i'ch arwedd,
 A nef wen a fo anedd
 I chwi byth goruwch y bedd.

Ebrill 1869, 1835.

ENGLYNION CYMWYS I'R SAWL Y
PERTHYNANT IDDO.

O FLAEN eington mae'n ffin angall—gurwr,
A'i goryn diddeall:
Beth yw'r penbwl dwl a dall
Afrosgo digyfrwysgall?

Rhy rydd ei fenydd yw fo,—er heriaw,
Rhy wirion i weithio;
Ni fu un brwnt o fewn bro
Ei salach,—gwnaed noswylio.

Ni fedr Wil ond rhywfudr waith,—a'iddwylaw
Yn ddilun anmherffaith;
Ni wna'r llymgi chwiwgi chwaith
Un gronyn o gywreinwaith.

Diau baban ydyw heb wybod—dim,
Ond doeth ar ei dafod,—
Nid yw neb yn adnabod
Un mwy ei glul am ei glod.

Un dau eiriog, a di arian—o lin,
A'i lonaid o hunan;
Yn mhob sut mab i Satan
Ydyw'r gwr—greadur gwan.

Lluman dig, i'n lle mae'n d'od—yn fynych,
Fe enyn anghydfod;
Lob penaf, bawaf, mewn bod
Ydyw Wil, a diwaelod.

Mal cyffcler bwngler sur benglog,—hen ffwl,
 Mae'n ffals a chelwyddog ;
 Ail yw hwn, yr annwn rôg,
 I Nabal ddau wynebog.

Hen ddrygwr cynddeiriogwyllt,—hynotaf
 O natur ffyrnig wyllt ;
 A hen asyn anesyllt
 Aeth o'i gôf yn eitha' gwyllt.

Ys ni fu is y Nef wen—ei arwach
 Am yru rhai 'n benben ;
 Canwaith bu'n achos cynen,
 E' dŷn y byd yn ei ben.

Hen ddyhiryn llawn cynddaredd,—a chroes
 Echrysawl ei osgedd ;
 Afanc rheibus, wancus wedd,
 A dŷn dŷn dan ei ddanedd !

FY NGWLAD.

MAE R awen fwyn yn Nghymru'n fyw,—a'n hiaith hoff
 Yn ei theg urddas heddyw ;
 Hen wlad y gân oludog yw,
 A bro ddedwydd y beirdd ydyw.

I "FLODAU ARFON."

WELE dirf "Flodau Arfon,"—a sywiol
 Bwysiau aml liwion ;
 Iachus bersawrus aeron—fydd bythawl
 I'r oesau 'n siriawl, mal rhosyn Saron!

Dyma fawredd byd y myfyrion,—prif
 Faen prawf y prydyddion ;
 Drych o astud orchestion—o'r newydd,
 A gemau Dafydd o gwmwd Eifion.

"GEIRIONYDD."

Os yw gwir addysg eirian,—a dawn bêr,
 Yn dwyn Bardd mawr allan,
 Wele wledd i Walia lân
 O law 'r anfarwol IEUAN.

WRTH DDYCHWELYD "COLL GWYNFA" I
 ELLIS OWEN, CEFN Y MEUSYDD.

COFION am FILTON a fydd—tra byw sant,
 Tra bo sêr ysplenydd ;
 Iawn folawd anhefelydd,
 Yn addas iawn iddo sydd.

Iawn ddeall rhinweddau awen—nid wyf

Onid ail i fachgen;
 Heb iaith fawr na llyfrau llên,
 Na meddwl cyflym addien.

Er cais, nis treiddiais i trwy—rhyw ddu fôr

Idd "Y Farn" ofnadwy,
 Ond amser i 'marfer mwy
 Grëai ynof ddawn G'RONWY.

Diffwrwyth, anystwyth yn oestad—fy nawn,

Heb fyw nerth mewn caniad,
 Oddieithr modd, Athraw mad,
 Ni fedraf wneud iawn fydrad.

'Herwydd amserau byrion—i adrodd

A mydru cameuon,
 Gwaelaidd, a thra digalon
 Wyf o hyd yn y Dref hon.

Wele, ffraeth araeth eirian—ni fedraf

Fi fydru 'n deg weithian;
 Ond ynwyf na fid anian
 I benffol, wageddol gân.

TALHAIARN.

(Yr oedd TALHAIARN yn ymgeisydd ar destyn y Gadair—"Y Greddigaeth"—yn Eisteddfod Aberffraw, 1849. Yr oedd tua haner ei awdl yn ddisgrifiad o Efa, yr hyn a achosodd cyfansoddi yr Englyniou canlynol).

TALHAIARN gadarn ei geudod,—diau

Sy'n deall cerdd dafod;
 I Efa glws rho'i ef glod—
 Efa oedd ei ryfeddod.

K

Mesurai fal chwim Saeryn—hi'n sywdeg,
 O'i sawdyl i'w choryn ;
 A'i gwir rinwedd bob gronyn
 Bwysai ef, bu eisiau hyn.

Ond gwylaidd ferched Gwalia—a goeliant
 Gyda'u gilydd yma,
 Ei fod ef yn ei fyd da
 'N rhy nwyfus wrth drin Efa.

Rhaid oedd ei hanrhydeddu—uwch eraill,
 Chwarae teg i'w ganu :
 Yn eigion ei galon gu
 Cariad oedd yn cordeddu.

Ei grudd hygar oedd ddigon—i'w swyno
 Nes enill ei galon ;
 Na fu 'n un wlad feinwen lon,
 Glysach, a'i llygaid gleision.

Ystyried a thosturio—yn ddilys
 Ddylent hwy, a chwilio
 Am wraig ddèl i'w arddel o,
 Foddus fal Efa iddo.

O! na b'ai un iddo yn bod,—mae'n llanc
 Mewn llon agwedd barod ;
 Byd da 'n llawn bwyd a diod—
 Arian ac aur yn ei gôd.

Atal TAL rhag gwamalrwydd—oeddanhawdd,
 Mae'n ddyn o hynodrwydd :
 Myfyriai am Efa, rwydd,
 A breuddwydiai 'n bur ddedwydd.

Adwedd hyfryd i'w ddwyfron—yn gyfan,
 Gafodd lawer noson,
 Pan f'ai ysbryd hyfryd hon
 Ger ei liwgar olygon.

Daliai sylw ar dlysolion—anian
 Yn ei holl amrywion ;
 Ond Aeres Eden, dirion,
 Oedd yn wledd i'w awen lon.

Ymlenwodd i'w molianu—â chain serch
 Nes oedd beirdd yn gwenu,
 Wrth wel'd bardd, llonfardd pob llu,
 Gwedi 'i fawn lygad dynu!

Hyd ei dyddyn d'wedai i Adda—neidio 'n
 Nwydwyllt ac ysmala,
 Megis cawr mewn blinfawr bla
 Yn ymofyn am Efa.

Gwae mwy i'w Feirniaid gamfarnu—ei waith,
 Pwy byth wnai brydyddu ?
 Am fod gydag Efa gu,
 Garw oedd ei geryddu!

Pa fardd coeth a doeth fendithir—benaf,
 Pwy bynag ganmolir
 Am odlau heirdd,—mae Awdl hir
 Bardd Efa yn bur ddyfir.

Er storm "NICANDER" a'i stwr,—a moliant
 "MEILIR," ac "ADDOLWR,"
 Trwy eu gwaith nid yw'r tri gwr
 Werth nodwydd wrth ein Hawdwr.

Diatal y daw eto—i Ruddlan,
 Yn arweiddlwys Gymro ;
 O'i ogoniant teg yno,
 Rhydd iawn brawf i feirdd ein bro.

Esgyna mewn rhwysg union—i'r gadair,
 Gwedi trechu'r pigion:
 Oferedd mwy i feirdd Môn
 Fyth heriaw y fath wron.

EISTEDDFOD PORTHMADOG, 1851.

Cadeiriad GWILYM HIRAEITHOG am awdl "Heddwch."

HEDDYW ymlonwn, "Hedd Molwynog"—godwyd
 I Gadair Porthmadog ;
 Dyn o lin doniol enwog,—un gydred
 A THUDUR ALED goeth awdwr heulog.

Dyma REES wedi ymryson,—a gwelodd
 Fuddugoliaeth gyfion ;
 Llawn arwydd i'n llenorion—heddyw roes
 Yn ddinam eirioes o'i ddoniau mawrion.

Ein daear bellach a gaiff ei darbwyllo
 O'i chaeth gamsyniaeth i'w chymwys uno,—
 Son am ryfeloedd, a swn ymrafaelio
 O fewn y byd ddaw yn fuan i beidio ;
 Daw irdeg wanwyn, daw yr adeg hõno
 Y chwery natur dan ei choron eto ;
 Daw iraidd ddolydd pob gwlad i hardd ddeilio,
 A nefol dywydd i'w cyflawn fodeuo,

A daw y firithoedd i orhyfryd firwytho,
 A geirdd llysiuawg, rhosynawg i'n swyno;
 Daw 'n haddien fyd yn eiddo—i Dduwies Hedd,
 A'i gwiw addurnedd yn dragwydd arno.

AR ESGYNIAD EBEN FARDD I GADAIR
 POWYS.

EBEN FARDD i'w benaf urddiant—ddyrchodd
 Mewn ardderchog foliant;
 Mawl iddo am ei lwyddiant,
 Berwodd serch bob bardd a sant.

Yn Mhowys grym ei awen—a'i oleu
 Welwyd pan yn fachgen;
 A rhoi 'i wawl fel yr heulwen
 Wnaeth i ni pan aeth yn hen.

Gwir fywyd ei gref awen—a daniodd
 Bob dyn yn Llangollen;
 Dyna fardd—mae dawn nef wen
 I'w adnabod yn EBEN.

Yn ei faith gampwaith i gyd—dyunwyd
 Anian a chelfyddyd:
 Safodd, ac erys hefyd
 Yn feistr beirdd, yn fost i'r byd.

NATUR DDA.

NATUR dda a esyd hardd wedd—ar ddyn,
 Egyr ddôr anrhydedd;

AMRYWIAETHOL.

Siriol darianol rinwedd
Yw er mawl i'r rhai a'i medd.

Dyma enaid amynedd,—a duwies
Flodeuog tangnefedd ;
Mae 'i byw wenau 'n mhob annedd
Yn creu hoen,—mae'n caru hedd.

Lladd llid ac ymlid pob câs—wna o bawb,
Mae'n berl mewn cymdeithas ;
Ac arddull teg o urddas,
Rydd iawn drefn ar ddyn di ras.

Ei gwedd lon a guddia lu—o feiau,
Mae'n fywyd a gallu ;
Tawelwch i bob teulu
Ddaw o'i gwên nefolaidd gu.

BYRFYFYR

Wrth wrando ar ddau yn taeru.

ANNATURIOL iawn yw taeru—er dim,
I'r dymer gynhyrfu ;
Ond siarad mewn cariad cu
Y dylech fel mwyn deulu.

YR HEN LANC.

YN ei agwedd unigol,—ac isel,
Heb gysur teuluol,
A oes un mor resynol
A'r Hen Lanc drwy 'i wirion lol ?

Un diobaith, drwgdybiol,—o feddwl
 Anfoddog hunanol,
 Na fydd ar ei fedd hwyrol
 Gan yr un gwyn ar ei ol.

A'i da i'r Hen Lanc dirinwedd—yw byw
 A bod mewn unigedd,
 Yn llawn gwae mewn llun a gwedd,
 Yn golofn diymgeledd?

Ow! ni fedd ef neb i'w foddio,—na neb
 A wna gydymdeimlo,
 Na thylwyth chwasth i wyllo
 Ar ei fedd byth er a fo.

ARALL I'R HEN LANC.

(Pan mewn tymer wahanol).

DYMA Hen Lanc dymunol wedd,—a dyn
 Daionus llawn rhinwedd,—
 Dyn iawn yn llawn dillynwedd:
 Gwyn ei fyd, un wraig ni fedd!

YR AMAETHYDD.

(*Buddugol*).

PRYSUR ddarparu'r puryd,—a'r moethau,
 Mae'r Amaethydd diwyd;
 Heb ei otal byw hefyd—
 Oll gan boen llewygai'n byd.

YR WYDD DEW.

(Buddugol).

DIDWYLL blu da, nodedig,—ini ro'ir
 Gan yr Wydd dew, bwysig ;
 Ac yn ei chwaeth cawn ei chig,
 Yn deifwng wledd Nadolig.

Y LLWYNOG.

LLYM redwr, lliw marwydos,—yw Llwynog,
 Llòna pan ddaw'r cyfnos ;
 Gwalch tew 'n amgylch teios,
 I ddwyn ieir berfedd y nôs.

A'r nôs yn mhell dros ffosydd,
 'Nol llunio 'i dwyll yn y dydd ;
 Yna trydd i'r creigydd crôg
 I drin ei waith lladronog.

AR FLWCH TREWLWCH.

I DDYN a gâr ddyddanwch—am hiroes,
 Cymered o'r trelwch ;
 Natur i'w lle, trwy y llwch,
 Adferir er difyrwch.

PERORIAETH.

MWYNDER wna'r dymer yn dân,—neu delyn
 Yn hudoli anian ;
 Awen o lŷs y nef lân,—neu dduwies
 Fwyn swyna fynwes y nef ei hunan.

GOLYGFA O BEN MOEL Y GEST.

TANWYF mae dyffryn tyner,—llwyni teg
 Yn llawn twf ac irder ;
 Mynyddoedd luoedd lawer
 O'm deutu 'n cusanu'r sêr.

Y WENOL.

O WLAD bell o wel'd y byd—i'n hynys
 Y daw'r Wenol ddiwyd ;
 Gofwyes wibiog fywyd
 Yw, a'i hoes yn haf o hyd.
 Ymlona yn nheml anian,—a dibaid
 'Hed heibio fel trydan,
 A'i dyddiol hoffder diddan
 Yw bod y'mysg gwybed mân.

Y LLENLEIDR.

Y CYFAILL mwy cofia—i fywyd dyn,
 Fod deddf—"na ladratta ;"

Chwiw lwynog yn chwilena,
Newid dy ddull—nid yw dda.

Na ddyged mwy, mwy 'n un man—i'w foddio,
Ddrychfeddwl na chyngan ;
Yn onest bo 'n ei anian—i dalgryf
Rodio 'n heinyf ar ei wadnau 'i hunan.

Y GWENIETHWR.

O! WENIETHUS ddyn nwythol,—mae 'i wyneb
Fel ymenyn toddol ;
A môr o hylif marwol
Yn ei gudd wenwynig gol.

I'w fwyneiddiol brif noddwr,—yn ei dwyll
A'i wên deg, try 'n fradwr ;
Gan ei waith fel gweneithwr
Mae braw a gwae 'n mhob rhyw gwr.

Brigol sarff beryglus yw,—rhagrithiwr
Drwg i'r eithaf ydyw,
A nyth i bob gweniaith byw
Hyd astrus lwybrau distryw.

Y WAWR.

BLAENREDYDD y belen rodawl—yw'r wawr,
O'r oror ddwyreiniawl ;
Allwedd i gudd gelloedd gwawl,
Yn agor dydd 'chwanegawl.

I'R CRYDD.

(Buddugol).

DEALLUS weithiwr dillyn,—ac enwog
 Yw'r crydd gonest dichlyn,
 A'i wledd yw cael drwy'r flwyddyn
 Dâl da am bedoli dyn.

Y DDAFAD.

(Buddugol).

TROI'R gwlan, croen llydan, a llaeth—y Ddafad
 I ddifyr wasanaeth ;
 A cholofn masnach helaeth
 Ydyw ei chig da ei chwaeth.

Y CWMWL.

(Buddugol).

MYG-DAWCH byw'n ymgodi uwch ben,—o'r môr
 A'r tir maith, i'r wybren ;
 Llong y gwlaw yn nofiaw'r nen,
 A'i hwyliâu 'n cuddio'r heulwen.

Y DARAN.

ENNYNIAD fry yn anian—o orlawn
 Awyrlif a gwefrdan,
 A thwrst rhuthriad tyniad tân
 Drwy y dŵr ydyw'r daran.

I DR. ROBERTS, PORTHMADOG, AR ADFERIAD
YR AWDWR I'W IECHYD.

At ei swydd ROBERTS yw—y gwiw feddyg
O fudd i ddynolryw ;
Drwy 'i rinwedd dygodd heddyw
Yr hen fardd o farw 'n fyw.

Tachwedd 23ain, 1871.

Y PARCH. THOMAS AUBREY.

DYN yw AUBREY dania y wybren,—a'i ddawn
Rydd yni 'n mhob elfen ;
Fe leda 'i ddwyfol aden—
'Hed yn fyw hyd y nef wen.

Y PARCH. L. PROBERT, PORTHMADOG.

GWEINIDOG enwog, unawl,—pur, hybarch,
Yw ein PROBERT ddoniawl ;
A thiroedd ysgrythrawl
Rodia 'fe er Duw a'i fawl.

I MR. EDWARD HUMPHREYS, YNYS WEN.

RHYW hen sant yn yr Ynys Wen—ydyw
EDWARD HUMPHREYS lawen ;
Dyn deallus bwyllus ben,
Da, gonest, a digynen.

I MISS MARY DAVIES (*Mair Eifion*),
PORTHMADOG,

EIN MAIR bert yn moreu 'i byd—yw'r eneth
Dirionaf ei hysbryd;
A dyma ferch dda ddiwyd,
Lon ei bron, a glân o bryd.

I MAIR EIFION,

Ar ei llwyddiant llenyddol yn Soar, Talsarnau, Pasg 1877.

Llaw MARY fu 'n enill mawredd,—a chlod
Uwchlaw merched Gwynedd;
Boreu 'i heinioes byw rinwedd
Awen fwyn i'n swyno fedd.

Arbenig ddawn a dderbyniodd,—talent
Oleu 'i hen daid gafodd;
At wraidd ei thestyn treiddiodd,—
Rho'i waith yn bur wrth ein bodd.

I MR. W. ROBERTS (*Gwilym Eryri*),

Ar ei esgyniad i Gadair Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1877.

HA! fy nghâr, a fy nghoron—yw GWILYM,
Brif-fardd Gwalia 'n gyfion;
Wele wir farddol wron
I ereshau yr oes hon.

Trwy 'i ddawn "Ieuenctid" hardd wedd—eglurai
 Ar glawr y gwirionedd;
 Pwy yn Nghymru 'n fwy a fedd
 Eang enaid cynghanedd?

GALWAD I'R AWEN.

FAL eos, nefawl awen—iawn eilia
 Fanylwaith goraddien;
 O'th waelfyd c'od i'th elfen,
 O'r llaid dyro naid i'r nen.

HIRHOEDLEDD AWEN.

DIWEDD y byd a ddaw i ben,—a daw
 Diwedd ar bob dyben;
 Ond ewybr enaid Awen
 Bery'n fyw tra bo'r nef wen.

Y BARDD TUDWAL.

TUDWAL yn ngwlad ein tadau—adwaenir
 Fel dyn o rinweddau;
 Bardd enwog o bur ddoniau
 Yr awen wir f'w hiawn wau.

I MR. G. GRIFFITHS, LLUNDAIN,

Pan wobrwyyd ef am y Traethawd Buddugol ar "Fywyd ac Athrylith Caledfryn," yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1877.

I FY nai addfwyn ei wedd,—wr haeddol,
Y rhoddaf anrhydedd;
Ganddo 'n iawn cefais lawn wledd
Trwy ei waith tēr a'i ieithwedd.

I'n gwlad oll goleu dillyn—ro'i efe
Ar fywyd CALEDFRYN:
Mawrygaf ef yn mrigyn
Ei siriol oes ar ol hyn.

I DEWI RHAGFYR, TOWYN.

DEWI anwyl, dywenydd—yw genyf
Wel'd dy ganu celfydd;
I'r Ion roes yr awen rydd
Rho ogoniant ar gynydd.

Am fawredd Duw myfyria,—ac na wna
Ganeuon ysmala;
Ceisia hyn—byw 'n ddichlyn, dda,
Hyd derfyn pen dy yrfa.

I MR. D. T. LEWIS, GOF, TALSARNAU.

PUR a chyfiawn yw parch i Ofaint,—dynion
Daionus a chywraint;
Gwŷr o fri mewn gweithgar fraint,
Yn heinyf yn eu henaint.

I MR. ELLIS ROBERTS (*Eos Meirion*).

Telynor Tywysog Cymru.

Am hiroes Eos MEIRION—a fyddo
 I foddiaw plant dynion;
 Hyfryd yw—ei ddifyr dôn
 Gerir gan deulu'r goron.

Mawr enw i blant Meirionydd—a roi'r
 Mewn rhwysg dirfawr beunydd;
 Mawr fawl gan bob Cymro fydd—yn aros
 I'w rhywiog Eos yn dragywydd.

I MR. JOHN LEWIS, BLOCKMAKER PORTH-
MADOG.

Yn ei ddawn cawn ddywenydd,—yn ei waith
 Cawn wel'd dwylaw celfydd;
 A'i lifeiriol leferydd
 O'i fin red fel afon rydd.

Am hwylio 'i gwch fe'i molir;—efo 'i wŷn
 Mae 'n fanwl a chywir;
 Un o'i ail byth ni welir
 Yn tare tân trwy y tir.

Y llwynog call a hynod—i'w ddaear
 Ni ddianc o'i wyddfod;
 Mewn pant a bryn fe fyn fod
 Yn angeu i'r cwingod.

SCHOONER "LUCY," CAPT. E. ROBERTS,
PORTHMADOG.

Er rhuaw o oreuon—a siarad
Seiri llongau Arfon,
A phrawf teg rhydd ffurfiad hon—gampwri
I naw o'n seiri yn oes wyrion.

Ei buander ar grib y wendòn—sy'n
Synu pysg yr eigion,—
Rhyw ddelw hardd ddaiail yw hon,
A chastell y gorchestion.

ANERCHIAD I MRS. THOMAS, "PRINCE OF
WALES," INN, PORTHMADOG.

GWRAIG gall a chywir mewn gwir ragorion,
A mwyn ystyriaeth drwy 'i mynwes dirion;—
Mwynhau 'i hiachus, ber-sawrus gysuron
Wna'r anghenus a'r gwylofus gleifion;
Mae'n gwisgo rhyddid—mae'n gwasgar rhoddion,
I noddi beunydd bob iawn ddybenion;
Dan yr iau caed wenau'r Ion,—i fawrhau
Ei eiriau golau yn bur o galon.

AR BRIODAS

Y Cadben DAVID ROBERTS, o'r Llong "Sydney," o Borthmadog, a
CATHERINE, merch Mr. HENRY JONES, Porthmadog.

DEUODD llewyrch dydd llawen—i ROBERTS,
Wr hybarch, a'i gangen;

Cafodd o lesol asen
O ras ein Ior is y nen.

Dwy galon gyda'u gilydd—a unwyd
Mewn anwyl lawenydd;
Rhyw gysur difesur fydd
Dan awel y byd newydd.

Eu hoes fo'n hiroes o hedd,—a gwyneb
Duw 'n gwenu 'n eu hanedd;
A'u llwyr sail oll ar sylwedd
A bery byth heibio'r bedd.

PRIODAS

Capt. D. EVANS, o'r Llong "Sisters," & Miss CATHERINE MORRIS,
Porthmadog.

MEWN clan amod mwyn yw cylymu—dau
I wneud un mewn teulu;
A diddan cael deuddyn cu
Hyd einioes i gyd dynu.

Deuai y dydd dedwyddawl—i EVANS,
Efo 'i briod siriawl;
Er eu cysur cu oesawl—Duw fyddo'n
Paradwyso 'u byd priodasawl.

PRIODAS

Mr. O. WILLIAMS, Britannia Foundry, Porthmadog, & Miss S. M.
JONES, Neptune Hall, Towyn.

EIN WILLIAMS a'i anwylyd—a unwyd
Gyda geneth hyfryd;

Hoffi 'roedd ei gwedd a'i phryd
A'i chalon ddifrycheulyd.

Os haeddawl wraig dlos addien—i Adda
Oedd Efa yn Eden,—
I'w foddhau cafodd OWEN
Un lân fyw o law nef wen.

Dau o'r un ffawd, dau o'r un ffydd—deilwng,
Yn dilyn gwir grefydd;
Un galon lon a'u gilydd
A fo'r ddau drwy 'u difyr ddydd.

PRIODAS

Y Parch. D. GRIFFITH, ieu., Bethel, & Miss JONES, Pen-y-caerau.

Y DYDD hwn, DEWI ddoniol—a unwyd
Gyda'i ANN brydweddol;
Mwy un yw'r ddau mewn aur ddol,
Drwy ddewisiad urddasol.

Daioni a dywenydd—ddilynont,
Dan ddylanwad crefydd;
Boed gwyneb Duw a'i gynydd
Efo'r ddau drwy 'u difyr ddydd.

AR OL GWRANDAW Y PARCH. W. WILLIAMS
(*Caledfryn*) YN PREGETHU AR "Y REDFA
GRISTIONOGOL."

I GYRHAEDD uchel goron—da ddaliwn
Hyd ddylaith yn ffyddlon;

Rhaid araws fel rhai dewrion
Yn y llwybr i enill hon.

Ein holl eirf i'w henill hi—raid arfer
I derfyn drwy weddi:
Rhedwn nes cael mawrhydi,
A chael braint uchel a bri.

Rhedwn mewn cariad brawdol,—yn deulu
Fo 'n dilyn y rheol,
I gyrhaedd y ragorol
Goron aur a geir yn ol.

Daw boreu da heb arwyl—na gofid
I'n gafael un egwyl;
Ceir unaw á'r Côr anwyl
Gwedi y gwaith i gadw gwyl.

Gwyl i Dduw a gwledd awen—gu i'r Oen
Goruwch y daearen;
Lle bydd y llyw byw, addien,
A mil myrdd 'n rhoi mawl. Amen.

I'W OSOD UWCHBEN DRWS ADDOLDY.

CADW dy lygad, gwylia dy galon
Yn Nhy Dduw beunydd, ág iawn ddybenion;
Ystyria gariad Crist a'i ragorion,
A'i eiriau grasol drwy 'i gywir weision; .
A'i enw glân ac union—a ofni,
Ac ef addoli, mewn gwiw feddylion.

I DDWFR.

GWLYBYR iach a gloywbur yw,—gwin anian
 Gan Iôn i ddynolryw :
 A didwyll ddiod ydyw
 Dŵr i bob creadur byw.

MEDDWDOD.

MYRDD a myrdd trwy 'i ffyrdd tra ffol—a ddenodd

I ddinystyr tragwyddol ;
 Ni fedra dawn anfeidrol
 Nodi ei ofnadwy ôl.

Rhyw ddu niwl roes ar ddynolryw,—gyrodd

Gewri byd i ddistryw ;
 Tra melldigedig ydyw,—
 Hyll ddrwg yr holl ddrygau yw !

Dwyn dyn yn elyn a wnaeth,—er dinystyr,

Dan ei ddrwg lywodraeth ;
 Dwyn y byd i gyd yn gaeth,
 A dwyn elw dynoliaeth.

Llawer o Seion âi'n llwyr, ysywaeth,
 Er gwarth a galar i dir gwrthgiliaeth ;
 Ac er dialedd caru 'i hudoliaeth,
 A byw 'n Iuddewon mewn ban au-dduwiaeth ;
 Mal hyn oll miliwnau aeth—yn feddwon,
 O gell eu Dagon i golledigaeth.

Byddai IOAN MADOG yn fynych yn adrodd y ddau englyn canlynol o waith ei dad ar y testyn uchod.

Hen arfer ofer afiach—yw meddwi,
 Oes moddion erchyllach ?

Gwae a fydd o'r gyfeddach—annuwiol,
A'r swyn farwol wna'r oes yn ferach.

Gwrthuni a gwarth anian,—a dylif
O hudoliaeth Satan;
Drwy dylodi rhawd lydan
I uffern dost a'i ffwrn dân.

R. W.

ENGLYN I'W GOFIO.

Y BLODYN wyneb lwyda,—a'r rhosyn
I dir isel wywa ;
Dyn un wedd o'i hoew-wedd a
I oer fedd, a darfydda.

IAITH YR AWDWR WRTHO EI HUN.

Y MAE cyfeillion mwynion i minau,
A dig elynion tanllyd galonau ;
Rhai a theg wyneb rhagrith a gwenau,
A gwelw wenwyn ar eu cudd golynau ;
Eraill hyd engyrth dir oerllyd angau
Lynant, gan ddyfal ddal fy meddyliau ;
Ond yn yr olaf ddonau—Jesu mad
A'i dirion gariad ydyw 'r un gorau.

Ionawr 2, 1872.

BEDDERGRYFF, &c.

DEWI WYN O EIFION.

DYMA fedd, diwedd DEWI—WYN, Eifion,
A fu'n tra rhagori ;
Prif gethlydd broydd, a'u bri,
Is daiar yn distewi.

Mawr odlwr â môr o hyawdledd,—pen
Pinael dysg a rhinwedd ;
Ac ang enaid cynghanedd
Synai y byd, sy'n y bedd.

Llafurio 'n effro wnaeth—o ochr heddwch,
Rhyddid, a gwybodaeth ;
Dileu rhodres, gormes gaeth,
Roddai niwl ar ddynoliaeth.

I'w deg wlad dug oludoedd—awen gain
F'ai yn gudd er's oesoedd ;
Rhodd Naf o ardd y Nefoedd,
A gem aur i Gymru oedd.

Agorai ddorau y gerdd eirian,—dygai
Degwch natur allan ;
Ag â'i rywiog orhoian,
Awdwr dewr, rho'ir byd ar dân.

Gwel ac wyla o galon—ar dŷ oer
DEWI WYN o Eifion,
Y dewraf o awduron
Gyrhaeddai deg wraidd y dôn.

Gemau 'r awen Gymröawl—oedd yn ei
 Ddoniau anghydmawl ;
 Rhinweddoldeb gwyneb gwawl
 Oedd arno yn addarnawl.

Prif awdwr puraf ydoedd—o fyg reddf
 Goruwch y prif oesoedd ;
 Athraw hudawl weithredoedd
 Pen y gamp awenawg oedd.

BEDDARGRAFF DEWI WYN O EIFION.

(*Buddugol*).

O DDAEAR isel prif fardd yr oesoedd
 Gyrhaeddai nwyfawl gerddi y nefoedd ;
 Sain ei gain odlau synai genedloedd,
 Hir fydd llewyrch ei ryfedd afluoedd ;
 Oeswr a phen seraph oedd,—pen campwr.
 Ac Amherawdwr beirdd Cymru ydoedd.

GUTYN PERIS.

ING athrwm angau uthrawg,—ucheldrem,
 Roes chwildro 'n Mraich-Talawg ;
 Gan ei rym, gwae ini rhawg,
 Chwalodd ein Twr uchelawg.

Bardd PERIS goris y gweryd,—gwedi
 Gadael pethau'r bywyd ;
 Gwywodd awen gu ddiwyd
 Yn dwyn firwyth da yn ei phryd.

Diwreiddiwyd hardd gedrwydden—fu liwdeg

O flodau yr awen:

Eos byd, ei oes i ben—

Ol adwyth marwawl Eden!

Gwae! eto 'n ol GUTYN aeth,—llynyddwr

Llawn aidd a gwybodaeth;

Iawn addurn awenyddiaeth

O dan y gŵys, yn dŷn gaeth.

Fe ddarfu'r haf; O ddirfawr ofwy!—daeth

Dwthwn du ofnadwy!

Marw Awdwr cymeradwy,

A mawr na fu fawr ei fwy.

Manylfardd mwyn ei elfen—a fydrai 'n

Fedrus er yn fachgen;

Nerthawg a bywiawg o'i ben

Y rhedai hoew ffrwd awen.

Cain odlwr y cenedloedd,—gwir Ofydd

O gryfion alluoedd;

Gem yr iaith, digymhar oedd,

Yn addurn i'w flynyddoedd.

Dyn i ddyn oedd GUTYN gall;

Dyn i Dduw, dyna oedd well;

Emynu dim mwy nid all,

Aeth i'r gau a dieithr gell.

Ffarwel lyw a pherl awen,—angelion

Fo 'n gwyllo 'i dywarchen;

A lili, bwysi ar ben

Ei ddaear dan werdd Ywen.

Yma, er nerth a mawrion wyrthiau,—dysg
 A doeth wybodaethau,—
 Gwegi i gyd, gwag a gau,
 Yw gwr pan ar y gorau.

IEUAN GLAN GEIRIONYDD.

(Buddugol).

FEL Bardd rhagorol, ddoniol Dduwinydd,
 Bu 'n fri i'w genedl, bu 'n fawr ei gynydd;
 Ac mewn nefol swyn fel mwyn Emynydd,
 Ei ddawn bêr, rywiog, wefreiddia'n bröydd;
 A byw yr erys fel gwych Berorydd,
 A diwall hynod Feirniad, a Llênydd,
 A thyner wllith Awenydd—Cymru wyl
 Fydd ddagrau anwyl ar fedd Geirionydd.

ELLIS O. ELLIS, BRYNCOCH.

(Buddugol).

Ow! dan oer leni rhoed iawn arlunydd,
 Nas bu ei lawnach o ddawn ysblenydd;
 Un a'i heirdd luniau roddai lawenydd
 I'w wlad a'i genedl wrth wel'd ei gynydd:
 A'i "Oriol" anhefelydd—a geidw
 Glod ei fyw enw tra gwlad Eifionydd.

EDWARD JONES, MAES Y PLWM.

Os hen gânau Seion genir,—enw mwyn
 Fardd Maes y Plwm berchir ;
 Athroniaeth gras feithrinir
 Yn ei waith a'i awen wir.

Ei fawr awen yn forëawl—a urddai
 Mewn harddwch santeiddiawl,
 A rhoes ei oes rasmusawl
 I'w Iôr i fyw er ei fawl.

Drwy 'i einioes codai rinwedd—a moesau
 Yn meusydd anrhydedd ;
 A thrafod mawrwaith rhyfedd
 Iesu glân oedd rhwysg ei wledd.

O fyw fôr ei ddwfn fyfyrion—yfaï'r
 Nefawl bererinion ;
 Dillynaidd ffrydiau llawnion
 Yn llawenhau Gwinllan Ion.

Mae ei anwyl Emynau—yn tynu
 Tân Duw i'n serchiadau ;
 Y mae eu rhin yn mawrhau
 Iaith wir yr Ysgrythyrau.

Ffrwythau 'i ddawn gyflawn ar g'oedd—a barhânt
 Yn bêr eu blâs bythoedd ;
 Un ro'i Naf o fro'r nefoedd
 Yma i wneud Emynau oedd.

SION WYN O EIFION.

(Barnwyd y ddau Doddaid canlynol yn gyd-fuddugol).

SWYN awen nefawl SION WYN o Eifion
 Ddyry fyw fawredd ar ei fyfyrion ;
 Gwiw athraw hynaws, ac ieithwr union,
 A da dduwinydd fu i'w gyd-ddynion ;
 Yn ei dynerwch dan ddonau oerion,
 Yn mawl ei Iesu cai falm i'w loesion ;
 Ei lwybrau 'n neddfau glân Ion—a gofir,
 A'i wir les welir i'w oloesolion.

ARALL.

AETH Bardd gorweddog Chwilog uwch alaeth;
 Cofio 'i dynerwch gyfyd ein hiraeth,—
 Chwiliai neuaddau 'n huchel lenyddiaeth,
 Agorai ddyrys gloiau'r gerddoriaeth ;
 Trwy ei ddoeth addysg treiddiai i ieithyddiaeth,
 A'i ddoniau addas ro'i i dduwinyddiaeth ;
 Drwy ei enwog ymdriniaeth,—Crist a'i groes
 Garai hyd einioes mewn gwir grediniaeth.

DAFYDD IONAWR.

GAIR Naf yn benaf beunydd—oedd enaid
 Ei ddoniau ysplenydd,
 A gwir argraff seraph sydd
 Ar ei fwyn gref awenydd.

ELLIS OWEN, CEFNYMEUSYDD.

(Buddugol).

DIWEDDAI harddwch, a dedwydd hirddydd
 Y cyfiawn moesawl Fardd Cefnymeusydd ;
 I'n hiaith a'i hurddas bu 'n addas noddydd
 Yn ysbryd hynaws ei bert awenydd ;
 Rho'i wledd a chroesaw—bu' n llaw a llywydd
 O fawr dda fwyniant i feirdd Eifionydd :
 Ffrwyth ei ddawn faethlawn a fydd—arosawl,
 A'i fawl yn fythawl fel Hynafiaethydd.

HUGH BREESE (*Hugh Medi*), LLANBRYNMAIR.*(Buddugol).*

YMA er alaeth i blith marwolion,
 Mudwyd i orwedd HUGH MEDI dirion,
 Oedd lwys awenwr o dduwiol swynion,
 O gryf ddihalog dreiddgar feddylion,
 Fu 'n gwasgar goleu ei foreu fyfyrion
 O air Duw beunydd mewn purdeb union ;
 Gloes hir fydd i eglwys Ion—am symud
 Y cywir, astud, hardd, ieuanc, Gristion.

WRTH FYNED AT FEDD HUGH MEDI.

AF yno 'n wyl fy hunau i wylo—ar fedd
 Y crefyddol Gymro ;
 Ei enw a'i lwch anwyl o,
 A'i farddas barchaf erddo.

MR. WILLIAM OWEN, TREMADOG.

(Buddugol).

AM ein mwyn WILLIAM mae'r wlad mewn alaeth;
 Rhoddai 'i iawn haeledd fri i'r ddynoliaeth;
 Bu 'n para i arwain meibion peroriaeth,
 A'i gôr hudolus enwogai'r dalaeth;
 Ac ôl ei addysg helaeth—fydd eto
 Yn fawl llawn iddo tra fo llenyddiaeth.

ER COF AM JOHN ROBERTS, BRYNTRION,
MAENTWROG.

O FERION deg! fawr yn ei dydd,—dygwyd
 Dy degwch ysplenydd;
 Aeth seren yr awen rydd,
 A'i choron dan ei chaerydd.

Enaid y gân o dy gôl—wedi myn'd
 I'r byd mawr trag'wyddol;
 Lle nad oes, llun dewisol,
 Obaith o neb byth yn ôl!

Gyfaill clau, mwynhau mewn hedd—gobeithiaf
 Gei bythoedd heb ddiwedd;
 Byw 'n eirian heb anwiredd,
 Fry & Duw mewn hyfryd hedd.

Gan nychdawd hynawd hunodd:—ow! bêr hynt
 I barhâu a gafodd;
 Ei ddu boen a ddybenodd,—
 Niwaid fu newid ei fodd.

O wydd angeu a'i ddu ingoedd—fe aeth
 I fyd yr ysbrydoedd:
 Hynod fachgen addien oedd,
 A llawer o allucedd.

Duw Iôr byw roes, hyd o'r brù,—ddawn iddo
 Yn addurn i Gymru:
 Mawr, fawr fardd, mor foreu fu!
 Hir a fydd i'w ryfeddu!

CYNDDDELW.

CYNYDDAWL oes eirian CYNDDDELW siriol
 Wedi hir fwyniant ddeuai 'n derfynol;
 Oedd fardd ac ieithydd, duwinydd doniol,
 A mawr hanesydd amrywion oesol;
 A meddai olud doniau meddylol,
 A'i weinidogaeth fu 'n wledd fendigol;
 Wrth y Groes mewn nerth grasol—pregethai,
 A gwir ryfeddai Gymru grefyddol.

JOHN ROBERTS (*Ioan Twrog*), MAENTWROG.

(*Buddugol*).

AM IOAN TWROG, fardd mwyn naturiol,
 Hir leinw hiraeth ei fro lenorol;
 Oedd un nodedig, o ddawn hediadol,
 O ddilwgr addysg, a meddwl gwreiddiol;
 Ac yn ei iraidd wanwyn cynarol
 Fe roddes ini wir farddas swynol,
 Ac yna aeth o'u canol,—mewn goleu,
 I'w urddo 'n foreu gan feirdd anfarwol.

Y PARCH. JOHN JONES, TALSARN.

GWRES santaidd tanbaid ei enaid doniol
 Oedd yn newr fyddin ei Dduw 'n rhyfeddol;
 A'i ymadroddion mewn grym hydreiddiol
 Yn siglo meirw o'i cysgle marwol;
 A bu ei lafur bywiol—dros grefydd
 Yn fywyd newydd i fyd annuwiol.

Y PARCH. LL. SAMUEL, BETHESDA.

Mewn daiar yma 'n dawel—yr hunar
 Hynaws Barch. LL. SAMUEL;
 Dyn i'w oes oedd—yn dwyn sêl
 Yn achos ei Dduw 'n uchel.

Gŵr hoffai'r nef o graff farn oedd,—a mawr
 Mewn gras a gweithredoedd;
 A'i ddawn yn gyflawn ar g'oeedd
 Yn felus swynai filoedd.

ER COFFADWRIAETH AM JANE, PRIOD Y
 PARCH. JOHN JONES, TREMADOG.

Yr hon a fu farw Ebrill 11eg, 1837, yn 54 mlwydd oed.

ANGAU sŷn a'i eang saeth—ddirymodd
 Rwymyn y ddynoliaeth:
 Morwyn Nêr, Ow! marw a wnaeth,
 I'r gweryd diragoriaeth.

Ffyddlon o galon fwyn gu,—yn uchel
 Yn achos Crist Iesu:
 I'r Ysgol Sabbothol bu
 Yn addurn—hir weinyddu.

O dan ofal Duw y Nefoedd,—i'w bedd,
 Bu fyw 'n ddiargyhoedd;
 Yn ei bywyd, diwyd oedd,
 A bendigedig ydoedd.

I d'lodion gwaelion eu gwedd,—beunyddiol
 Bu 'n nawdd ac ymgeledd;
 Cyfranai,—côf o'i rhinwedd
 A fydd byth tra fyddo bedd!

Gwraig oleu gywir galon,—Duw 'n obaith
 Adnabu, a digon:
 Wel, yn iach mwyach am hon,
 I groesawu gwŷr Seion!

Trwy ddirifedi fydoedd—adref aeth,
 Darfu 'i holl flinderoedd:
 Sail ei phroffes hyles oedd
 Ar Iesu, craig yr oesoedd.

Na bod yn ôl yn ein byd ni—mewn nych,
 Mae'n well filwaith iddi
 Y'ngwledd fras, angelaidd fri,
 Golud glân gwlad goleuni.

Yno o dwrf blin daearfyd,—mewn hedd
 A mwyn hwyl i'w hyspryd,
 Iawn eilia i'w hanwylyd,
 Ag awen bêr, gwyn ei byd.

Gŵyr yn awr i gywir nôd—beth yw byw
 Byth heb boen na phechod,
 Y'ngwawl yr anfeidrawl Fôd
 Mor ddedwydd a'r mawr Dduwdod.

Y PARCH. JOHN JONES, TREMADOG.

Hir draddodi'r gwir ar g'oedd—yma fu,
 Am fawr ras y nefoedd ;
 A'i bert ddawn fwyneiddlawn oedd
 Yn felus wledd i filoedd.

I MR. JOHN EVANS, *Farrier*, PENTREFELIN.

(*Buddugol*).

YN ben Mil-feddyg bu 'n mawl ei foddion,
 Yn rho'i o'i brifwaith gelfyddgar brofion,—
 A'i lês i'w wlad drwy ei fâd ymdrafodion
 Gododd ei enw i serch ei gyd-ddynion ;—
 A ffyddlawn roes ei hir einioes union
 I waith ei Iesu, bu 'n nerth i'w weision :
 O'r byd aeth yn ngherbyd Ion,—a geiriau
 Y nefoedd olau 'n lloni 'i feddylion.

I'W BRIOD, MRS. CATHERINE EVANS.

Ow! gwywodd daiar wraig dda a diwyd,
 Ei llatur dyfal oll fawrhâi deufyd ;

Dilyn yr Iesu y bu drwy 'i bywyd,
 A'i Air glân, dyddan, oedd ei dedwyddyd ;
 Fel mam dwymn galon, dirion hyd weryd,
 Cofir ei haddas deg gyfarwyddyd :—
 Os hen i'w bedd troes o'n byd,—o'i llanerch
 Daw 'n wridog wênferch, dan radau gwynfyd.

I'W MERCH, MISS MARY EVANS.

AETH MARY i blith meirwon—yn mlodau
 Ei dyddiau dedwyddion ;
 Gwael ei gwawr yw yr awr'on,
 Oer a mud yn naear Mon.

Ffarwel i dawel flodeuyn,—oer fedd !
 Darfyddodd fel gwyfyn ;
 Aeth yn fwyd i'r abwydyn,
 O'i hurdd glwys i bridd y glyn.

Er hawddfyd hyfryd a hedd,—er iechyd,
 Er uchel anrhydedd,
 Bwrir ni bawb i orwedd
 O ferw'r byd ar fŷr i'r bedd.

GEORGE CASSON, VSW., BLAENYDDOL.

(*Buddugol*).

DOETH a da wladwr, fendithiai d'lodion,
 A'u nawdd a'u cysur mewn ing oedd CASSON ;
 Pob cŵyn chwiliai, dileai ddadleuon ;
 Hedd fu dywenydd ei fywyd union,

Drwy ein holl frödir fe welir olion
 Ei law ddaionus ar lu o ddynion ;
 Am ei lês saif melus sôn—gan filoedd
 Tra berwo 'n moroedd, tra bryniau Meirion.

MISS G. M. PHILLIPS, UNIG FERCH MR. J.
 PHILLIPS (*Tegidon*), PORTHMADOG,

A fu farw Medi 28ain, 1861, yn 24ain oed.

Ow! bër oedd y daith, i bridd du—&i un
 Oedd anwyl gan Iesu:
 Maith ddolur rwymai' theulu
 Mewn mawr gwyn am un mor gu.

Gwryf wyl hawddgaraf wedd,—hynod oedd
 Mewn dysg, moes, a rhinwedd ;
 Ymaith aeth,—caed esmwyth hedd
 Efo 'i chwaer fach i orwedd.*

Ond pwy fyth all wybod pa faint—yw gwerth
 Ei gwir oruchelfraint ?
 Ail wanwyn heb ol henaint,
 I'w haros sy'n nghwmni'r saint.

MR. HUGH ELLIS, LLETY.

(*Buddugol*).

MAE ein HUGH addfwyn mewn hedd—troesei boen
 Tros byth yn orfoledd ;

* Yn mynwent Llanycil.

Mawrhai 'i enw mae ' rinwedd,
A'i hardd foes sy'n urddo 'i fedd.

A difrif fron cadwai 'i fawr fri—heb fwch,
Heb falchedd na gwegi ;
Duw ei grêd wrandawai gri
Ei hydreiddiol daer weddi.

Ei fanwl yrfa union—orphenodd
Ar hoff fynwes Seion ;
Ac ar ei groes, a'i goron,
Y cerfiodd werth crefydd Ion.

MRS. EVANS, PRIOD Y PARCH. E. HERBER
EVANS, CAERNARFON.

Os dydd dwys mewn cystudd du—a welodd,
Daliai 'i ffydd heb ballu ;
Ei holaf awr yn elw fu
Yn ngrasol angeu'r Iesu.

Os gwanwyn clws ei gynydd—a gafodd
I gofio 'i Chreawdydd,—
Haf o lawn nef-lawenydd
O'i phridd oer a gaiff ryw ddydd.

TRI O BLANT MR. EVAN JONES, CON-
TRACTOR, PORTHMADOG.

MAL y brau gwmwl borŷol—y bu
Eu bywyd daearol ;
Draw ffoisant, dri hoffusol,
Yn fuan i'r nef yn ol.

JANE MINNIE, MERCH HYNAF Y PARCH.
T. OWEN, PORTHMADOG.

Ei hardd a denol rudd dyner—wywodd
Awel boreu amser ;
A myn'd a wnaeth i'r mwynder,
At dorf o saint rif y sêr.

ELIZABETH, MERCH CAPT. W. HUGHES,
"ARIEL," PORTHMADOG.

EIDDO Iesu oedd isod,—a'i eiddo
Yw heddyw 'n ei wyddfod,
Efo 'r iach dorf fawr uchod—
Yn eu gwledd sy'n taenu 'i glod.

ELLEN ROGERS, UNIG BLENTYN CAPT.
MORRIS ROGERS, PORTHMADOG.

Ei swynol lais a'i hanwyl wedd—oeddynt
Iddi yn anrhydedd ;
Ow! wyro 'n foreu i orwedd—
ELLEN bach dan gloion bedd.

Holl seiniau ei llais swynol—hir gofir
Er gwyfo 'i gwedd siriol ;
Gan hiraeth ai'n gynarol
I fro y nef fry yn ol.

JOHN JONES, GLANGWYNANT.

(Buddugol).

GWEL unig annedd JOHN JONES, Glangwynant,
 Hen flaenor duwiol o oesol lesiant ;
 Am waith ei Arglwydd mewn uchel lwyddiant
 Bu'n hir ofalu—bu'n ŵr o foliant ;
 Fel enwog swyddog a sant—bu'n gweithio
 Yn ddyfal erddo drwy ddwyfol urddiant.

CADBEN JOHN EDWARDS, PORTHMADOG.

OH! am ein EDWARDS oedd ddyn mwyn odiaeth
 Yma yr erys cŵyn a mawr hiraeth ;
 Am rinwedd uchel ei synwyr helaeth
 Ei enw teilwng a barcha'n talaeth ;
 Ar y môr heli 'n ngrym ei reolaeth,
 Bu 'n Llywydd cyflawn drwy iawn ymdriniaeth ;
 I oer dir y beddrod aeth—priad mād,
 A dyn i'w alwad yn llawn dynoliaeth.

CADB. EVAN WILLIAMS, IEU., SCHOONER
 "LORD PALMERSTON."

Y BYD o'i ogylch ar enbyd eigion
 Am hir a hwyliai mewn mawr awelon,—
 Oedd ddoeth ei eiriau—ddyn hardd a thirion
 A feddai loew feddyliau ÷on ;
 Ond trwy lif du 'r olaf ddn—buan aeth
 O'i rym er alaeth i fro marwolion.

CADB. LEWIS DAVIES, LLYWYDD Y "JANE
AND MARY," PORTHMADOG.

Ow! fe droes LEWIS, oedd fedrus lywydd,
I angau 'n wywol o'i hardd long newydd;
Un difyr, diwyd, a da fordwydd,
Fu 'n llawn ymdrechion, byw 'n union beunydd;
Ond awel deg ei dywydd—dymunol
Ddarfu ar ganol ei ddirfawr gynydd.

JOHN DAVIES, TREGUNTER ARMS,
PORTHMADOG,

Yr hwn a fu farw Awst 4ydd, 1874.

Ow! yn mrig oes un mor gu—wywai 'n llwyr
Yn llaw ei fwyn deulu;
Cuddio 'i wedd mewn dyfnfedd du
Wnai i laweroedd alaru.

Yn hynaws lanc, tâl, heini,—fe gaiff ef
Ei goffâu a'i hoffi;—
Gwir gyson brofion er bri
O'i synwyr a roes ini.

Ei oes a roes i'r Iesu—yn gynar,
Gan ei ogoneddu;
I grefydd beunydd y bu
Yn achos llawenychu.

Iawn a fu yn ei fywyd—yn hwylio
Drwy'r heli terfysglyd;
A moriodd i'w lwm weryd
Yn ei barch drwy ddn y byd.

Y TYWYSOG LLYWELYN.

LLYWELYN enwog ardderchog ddyrchodd,
 Ein gwlad a'i doniau, ei glod a daenodd;
 Ei galon dyner a glân a daniodd
 Mewn gwir wladgarwch—ein heddwch noddodd,
 A'i enw 'n anwyl byth a eneiiodd
 Fal Llywydd olaf—ei allu ddaliodd,
 A thros ei wlad fâd o'i fodd—ei gorph prid
 Ar allor rhyddid i'w ddryllio roddodd.

 CADB. WILLIAM JONES, SCHOONER "ALICE,"
 PORTHMADOG.

Ow! ddwyn ein teilwng, hoff ddyn o'n talaeth
 I'w dŷ oer marwol,—mor drwm yw hiraeth!
 Dyn hardd, haelfrydig, caredig odiaeth,
 O fri a synwyr, o fawr wasanaeth,—
 Gwelodd y byd, a chasglodd wybodaeth
 O dir, môr, awyr, oll drwy 'u hamrywiaeth;
 A chalon bur, parch helaeth—yn ddilys
 I'w enw mawr erys yn ein Morwriaeth.

 MR. EDWARD OWEN, SADDLER, TREMADOG,
 A'I WRAIG, MRS. C. OWEN.

TRWM fu daearu gwraig addfwyn, dirion,
 Gyda 'i theg addysg, a'i doeth agweddion;
 Bu er daioni mewn ysbryd union,
 Yn byw i'r Iesu, yn bur i'w weision;

A mawrhaŷ ei gŵr wneir am ragorion
 Ei rinwedd beunydd drwy iawn ddybenion;
 Hwŷ gawsant gyd-fyw 'n gyson,—cânt hefyd
 Yma esmwythyd am œsau meithion.

MR. JOHN ROBERTS, BERLIN HOUSE,
 PORTHMADOG.

Hyd ei daith dyn diwyd oedd,
 Gai enw da gan gannoedd;
 Caed gonestrwydd, llwydd, a llês
 O fewn ei dawel fynwes;
 Dan bwys nych mynych bob modd,
 Teg eiriau Crist a garodd;
 Ow! ro'i ei fath mewn oer fedd,
 O ganol ei ogonedd.

CADBEN WILLAM PARRY, WAEN, MORFA
 NEFYN.

Ow! PARRY, deilwng fardd pêr y dalaeth,
 O'i fri mawr alwyd i fro marwolaeth;—
 Oedd ddyn nodedig, caredig odiaeth,
 A mawr ei addysg yn nhrefn Moryddiaeth;
 A'i fynwes dirion mewn dwfn ystyriaeth
 Gywir adwaensi Dduw ei grediniaeth:
 Ei hoff rin, a'i ddoniau ffraeth—fawrygir,
 A'i fedd anwylir tra 'n fyw ddynoliaeth.

FY CHWAER, MRS. MARY JONES,
CEFN BYCHAN.

CHWAER anwyl o wych rinwedd—am hiroes
Fu MARY 'n mhob agwedd;
Hardd ddilyn mewn urddoedd
Ei Duw y bu hyd ei bedd.

FY MRAWD, THOMAS WILLIAMS,
PORTHMADOG,

Yr hwn a fu farw Chwefror 13eg, 1841, yn 34 mlwydd oed.

O! MRAWD anwyl mewn mawr ddonau,—yfaist
O afon cystuddiau;
Ce'st brofiad diweddiad dyddiau—heb rus,
O nos gyfyngus ogof angau.

ER COF AM DDAU BLENTYN MR. WILLIAM
WILLIAMS, AC ELIZABETH EI. WRAIG,
BOSTON LODGE, PORTHMADOG.

ION alwai 'i ddau anwylyd—foreu 'u hoes,
I'w fawrhau mewn gwynfyd;
Iach o gur uwch y gweryd
Yw'r ddau bach yn hardd eu byd.

CATHERINE, PRIOD MR. RICHARD WILLIAMS,
BRITANNIA TERRACE, PORTHMADOG.

I'w siriol wr erys hir loes—yma
Am ei wraig fwyneiddfoes;
Ar ol y ferch i'r eiloes
Yn fawr ei pharch fry y ffoes.

MR. ROBERT HUMPHREYS,

Yr hwn a fu am flynyddau yn Arweinydd o Lanberis i'r Wyddfa.

ARWBINYDD da 'i ddydd oedd ef—i'r Wyddfa,
Wr addfwyn llawn tangnef;
Hoffodd Grist, ac yn ei ffydd gref
Arweiniwyd yntau i'r Wiwnef.

J. T. JONES, MAB HYNAF JOHN A CATHERINE
JONES, Y LLONG "SAMUEL HOLLAND."

DIFYRUS drwy 'i hyfryd forau—y bu,
Mor bert oedd ei eiriau;—
Mwy er hyn ni cheir mawrhau
Ei swynol lais, a'i wenau.

MR. THOMAS PRICHARD, PENRHYN-
DEUDRAETH.

AM THOMAS anwyl, ddyn gwyl, hael galon,
Hiraethus awel leinw byrth Seion:—

Ei rin oedd enwawg, rho'i nawdd i weinion;
 Ei fynwes gyneſ a doddai gŵynion;
 A'i fawl sydd genym fel swyddog union
 A thad, y'nghariad ei fwyn gynghorion;
 Urddas, a gwir addysg Ion,—yn gywir
 Trwy 'i fywyd welir tra fo duwiolion.

FY MAB.

EIN Iôr gwyn a ro'i genad—i angau
 Wneuthur ingol rwygiad,—
 Dwyn fy machgen mwyn a mâd
 I'r dufedd ar ei dyfiad.

MISS MARGARET GRIFFITHS, KING'S HEAD
 INN, CAERNARFON.

HEN adwaenid yn un dyner—a mwyn,
 Yn llawn moes a gwylder,—
 Iawn rodio gan roi 'i hyder
 Ar Iesu wnai 'n ngras ei Nêr.

MR. WILLIAM FOULK, DECHREUWR CANU
 YN NGHAPEL TREMADOG.

GWELY 'i serch oedd Eglwys Ion,—a'i fwyn Iais
 Fu 'n wledd i blant Seion;
 Heddyw ei bêr dyner dôn
 Sy'n felus i nefolion.

MRS. ANN JONES, 39, BRIDGE STREET,
CAERNARFON.

Yn y du weryd rhoed-gwraig fwyn, dirion,
A da or'chwyliaeth Duw ar ei chalon;
Mewn ysbryd tawel, isel, a chyson,
At achos crefydd bu 'n rhydd ei rhoddion;
A gwledd nefolaidd i lwydaidd d'lodion
Fu ei daionus hardd fywyd union;
A chynes serch hanes hon—mewn parch gwir,
Yma hir gerir am ei rhagorion.

ELLIS ROBERTS, MAB CADB. HUGH ROBERTS,
O'R BRIG "EVELYN," PORTHMADOG.

Er i'w dlws hyfrydol wedd—wywo 'n llwyr
Yn llaw angeu rhyfedd,
Daw'r boreu caiff drwy buredd
Gorph heb ôl argraff y bedd.

MRS. LAURA LLOYD A'I MAB, MR. W. W.
LLOYD, PORTHMADOG.

Un diwyd, hyfryd, llawn hedd—fu WILLIAM,
Fel ei fam lân fuchedd;
Parhau i weini 'n mhob rhinwedd
I Dduw y bu'r ddau i'w bedd.

MR. JOHN JAMES, PILOT, BORTHYGEST.

Dyma fedd dyn da, diwyd,—hir hwyliodd
Drwy'r heli terfysglyd;
Uniawn fu 'n nawn ei fywyd
Yn rho'i 'i holl bwys ar well byd.

LAURA, MERCH MR. F. LLOYD, SHIP-
CHANDLER, PORTHMADOG.

I'w rhieni da eu rhinwedd—erys
Hiraeth am ferch degwedd;
Owl i'r hyf angeu rhyfedd
Gau LAURA bach dan glo'r bedd.

CADB, EVAN DAVIES, GWYNDY, TALSARNAU.

GWR anwyl, hawddgar, union,—a difyr
Oedd ein DAVIES dirion;
Dyn a gwaelod iawn galon—
Dyn o werth adwaenai 'i Ion.

Hardd edrych ar ddiwydrwydd—un a fu
Yn fawr o blaid sobrwydd;
Gwiw forwr—oedd gyfarwydd
A'r môr a'i lif, er mawr lwydd.

I RICHARD WILSON, YSWAIN, R.A.

(*Buddugol*).

O FOREU 'i yrfa eirian—rho'i oleu
Ei athrylith allan,—
Darluniai, dilynai 'n lân
I'r linell ar ol anian.

Yn llaw ei oes bu 'n llesol,—dyg iddi
Deg addysg gelfyddol;
A'i gywir waith geir o'i ôl
A syna 'r oes bresenol.

MR. GRIFFITH JONES, TAN-Y-BRAICH, GARN.

DIAU yma, da a diwyd—oedd GRUFFYDD
 Graffus, hael ei ysbryd;
 Dewr a fu drwy ei fywyd,
 A rhoddai fawl i'r ddau fyd.

HEDDYW sŵn prudd sy'n parhau—am wiu dad,
 Am deg ferch hardd foesau;
 Brochus ddwfr ddyg barchus ddau
 O dan ei oerion ddnau.

DRWY iawn gred ar Iawn y groes—hir ddaliodd
 Ar ddelw 'i Christ eirioes,
 Ac aeth mewn hedd ddiwedd oes
 Ar ei lun i'r ail-einioes.

AR OL GWAINIDOG.

IAITH oes a gyfyd hiraethus gofion
 Am was Duw fwriwyd o'r maes at feirwon;
 Y nefoedd oleu lanwai 'i feddylion
 I waith daionus achubiaeth dynion,
 A thraethai 'i enau athrawiaeth union
 Gras Duw a'i gariad, drwy Grist a'i goron;
 Ei awen foriai mewn dwfn fyfyrion,
 A'i fawr hyawdledd oedd wledd hyfrydion;
 Er rhyfedd dwrf yr Afon—daliai 'i ffydd,
 A'i â than crefydd drwy 'i thdnau cryfion.

14 DAY USE

RETURN TO DESK FROM WHICH BORROWED

LOAN DEPT.

This book is due on the last date stamped below, or
on the date to which renewed.

Renewed books are subject to immediate recall.

LIBRARY USE

FEB 23 1959

REC'D LD

FEB 23 1959

LD 211-50m-9,'58
(5) 476B

General Library
University of California
Berkeley

